# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Hydref 2018

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

---

**(Rhag-gyfarfod)**

(13.00 - 13.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.15)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.15 - 13.20) (Tudalennau 1 - 3)

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Amgueddfa Genedlaethol Cymru

(13.20 - 14.50) (Tudalennau 4 - 104)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-28-18 Papur 1 - adroddiad ariannol 2017-18 Amgueddfa Genedlaethol Cymru

PAC(5)-28-18 Papur 2 - Llythyr Cylch Gwaith Amgueddfa Cymru 2017-18

PAC(5)-28-18 Papur 3 - Llythyr Cylch Gwaith Amgueddfa Cymru 2018-19

PAC(5)-28-18 Papur 4 - Diweddariad gan Amgueddfa Cymru ar argymhellion y Pwyllgor ar Adroddiad Cyllid 2014-15.

PAC(5)-28-18 Papur 5 - Adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg Buddsoddwyr Mewn Pobl

David Anderson - Cyfarwyddwr Cyffredinol

Neil Wicks - Dirpwy Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

Nia Williams - Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:**

(14.50)

Eitemau 5, 6 a 7

**5 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a thrafod y materion allweddol ar gyfer yr adroddiad drafft**

(14.50 - 15.20)

**6 Cyfoeth Naturiol Cymru: Consideration of the Adroddiad drafft**

(15.20 - 16.00) (Tudalennau 105 - 127)

PAC(5)-28-18 Papur 6 - Adroddiad drafft

**7 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Cytuno'r Adroddiad drafft**

(16.00 - 16.15) (Tudalennau 128 - 190)

PAC(5)-28-18 Papur 7 - Adroddiad drafft

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Hydref 2018

Amser: 13.21 - 16.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5035.tv/

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Peter Kennedy, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru<br>Peter Ryland, WEFO |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Richard Harries<br>Mark Jeffs |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jack Sargeant AC.

1.3 Gwnaeth Adam Price AC ddatganiad o fuddiant yn sgil y ffaith mai ef yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am ieithoedd swyddogol y Cynulliad, ac am ddarparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (3 Hydref 2018)**

**2.2 Llywodraethu a goruchwylio cyrff hyd braich: Diweddariad gan yr Ysgrifennydd Parhaol (25 Medi 2018)**

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Llywodraeth Cymru

3.1 Holodd yr Aelodau y tystion a ganlyn mewn perthynas â chyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18: Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru; Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid; David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethiant; Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol; a Peter Ryland, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

3.2 Cytunodd Shan Morgan i gymryd cyngor cyfreithiol ynghylch a yw'n bosibl iddi ddatgelu rhagor o wybodaeth am gytundebau prydlesu rhwng Llywodraeth Cymru ac is-ddeiliaid prydlesoedd a fydd yn denantiaid sydd â meddiant.

3.2 Cytunodd Peter Ryland i ofyn i'w gydweithwyr ym maes materion gwledig a yw llysiau a ffrwythau wedi'u plannu, er enghraifft, fel rhan o Brosiect LEADER, a hynny at ddibenion ymateb i unrhyw argyfyngau mewn porthladdoedd a allai effeithio ar nwyddau darfodus sy'n cael eu mewnforio.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2017-18: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd yr Aelodau yr adroddiad drafft, a chytunwyd arno, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 7 Blaenraglen Waith

7.1 Nododd yr Aelodau y flaenraglen waith.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

PAC(5)-28-18 P1

national museum wales
amgueddfa cymru

# Adroddiad Ariannol 2017/18

National Waterfront Museum
WALES' STORY OF INDUSTRY & INNOVATION

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP
+ 44 (0) 29 2039 7951

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru
Blaenafon, Torfaen NP4 9XP
0300 1112333

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
0300 1112333

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol, Abertawe SA1 3RD
0300 1112333

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
Caerdydd CF5 6XB
+ 44 (0) 29 2057 3500

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
Stryd Fawr, Caerllion NP18 1AE
0300 1112333

Amgueddfa Wlân Cymru
Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin SA44 5UP
0300 1112333

Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol
Nantgarw, Rhondda Cynon Taf CF15 7QT
+ 44 (0) 29 2057 3651



Cyhoeddwyd yn 2018 gan
Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NP
© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

*Cynhyrchu:* Mari Gordon
*Dylunio:* Andrew Griffiths Design

*Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ddarn o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu trwy unrhyw fodd boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb yn gyntaf geisio caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Cymru neu ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint, neu fel y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Dylid anfon unrhyw ymholiadau eraill at yr Adran Gyhoeddi, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CAERDYDD CF10 3NP.*

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg:
https://museum.wales/reports/

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



# ADRODDIAD ARIANNOL BWRDD YMDDIRIEDOLWYR AMGUEDDFA CYMRU

## ADRAN 1: PERFFORMIAD

## Adran 1.1 Trosolwg o Berfformiad

### Llwyddiannau'r flwyddyn

Yn 2017/18, torrwyd pob record o ran ymwelwyr i saith amgueddfa genedlaethol Amgueddfa Cymru, gyda 1,776,572 o ymwelwyr, gan guro'r record flaenorol o 1,745,315 yn 2012/13. Roedd hwn yn gynnydd o 226,969, bron 15%, ar ffigurau 2016/17.

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymweliadau** | 1,745,315 | 1,629,196 | 1,685,954 | 1,674,807 | 1,549,603 | 1,776,572 |

Cyflwynwyd y polisi mynediad am ddim gan Lywodraeth Cymru yn 2001/02 – cam arloesol i hyrwyddo mynediad i bawb i ddiwylliant a hanes Cymru, sydd wedi arwain at 96% o gynnydd mewn ffigurau ymwelwyr i holl amgueddfeydd cenedlaethol Cymru.

Roedd 2017/18 yn flwyddyn eithriadol o safbwynt arddangosfeydd hefyd, yn enwedig yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd lle cafwyd *Deinosoriaid yn Deor*, arddangosfa gyda thâl mynediad, a ddenodd dros 50,000 o ymwelwyr, *Penderfyniad Pwy?*, arddangosfa gelf gyfoes gan bobl ddigartref wedi'i chefnogi gan yr elusen ddigartrefedd Y Wallich a'n staff, yr arddangosfa gelf gyfoes drawiadol *O Bacon i Doig* ac *Agatha Christie*. Fe wnaethom ni agor oriel ffotograffiaeth barhaol newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd hefyd. Mae gan Amgueddfa Cymru un o gasgliadau ffotograffiaeth gorau'r DU erbyn hyn, yn enwedig ers y rhodd arbennig gan ffotograffydd byw mwyaf arwyddocaol Cymru, David Hurn.

Ni yw prif ddarparwr addysg y tu allan i'r dosbarth yng Nghymru o hyd, ac rydym yn croesawu dros 180,000 o blant ysgol a myfyrwyr i'n hamgueddfeydd bob blwyddyn a thros 400,000 o ddysgwyr anffurfiol.

Recriwtiwyd pedwar prentis cloddio newydd yn Big Pit, yn cynnwys ein tywysydd benywaidd cyntaf, cefnogwyd prentisiaethau crefft yn Sain Ffagan a phenodwyd gof yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol. Rydym wedi llwyddo i adnewyddu ein Dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn ein holl amgueddfeydd hefyd.

Rydyn ni ar fin cwblhau gwaith ailddatblygu mawr yn Sain Ffagan, project gwerth £30m a gafodd gefnogaeth ariannol o £13m gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri – y grant mwyaf o'i fath i'w ddyfarnu gan y Gronfa yng Nghymru – a £6.9m gan Lywodraeth Cymru. Agorodd y Prif Adeilad a Gweithdy eleni a chawsant groeso da gan y cyhoedd. Bu deuddeg mil o ddisgyblion ysgol yn mwynhau'r gofodau gweithgaredd newydd sbon yng Nghanolfan Ddysgu Weston yn ystod y tri mis cyntaf ers eu hagor.

Mae llawer o gyllidwyr ac arbenigwyr amgueddfeydd o'r farn mai hwn yw project amgueddfa mwyaf cyffrous y DU ar hyn o bryd, ac mae'n ennyn diddordeb yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd yn creu amgylchedd dysgu unigryw yn Sain Ffagan, gan gyflwyno hanes pobl Cymru mewn ffordd gwbl newydd. Am y tro cyntaf erioed yn unrhyw le, bydd casgliadau archaeoleg a hanes gwerin, diwylliant a diwydiant yn cael eu harddangos gyda'i gilydd mewn amgueddfa awyr agored, gan roi cyfle i ymwelwyr archwilio a dysgu mwy am dros 200,000 o flynyddoedd o hanes Cymru mewn ffyrdd newydd arloesol.

## Canlyniadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn

| | 2017/18 £ | 2016/17 £ |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm | 36,623,000 | 33,580,000 |
| Cyfanswm gwariant | (30,072,000) | (31,155,000) |
| Symudiadau eraill | (88,000) | 268,000 |
| **Incwm cyfunol net** | **6,463,000** | **2,693,000** |
| **Symudiad net mewn cronfeydd (ar ôl yr holl enillion a cholledion sydd wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu)** | **11,486,000** | **(8,625,000)** |
| **Cyfanswm y balansau mewn cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig a chyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn** | **116,753,000** | **105,267,000** |
| **Balansau cronfeydd a gedwir at ddibenion cyhoeddus anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn** | **7,320,000** | **4,222,000** |

Mwy o gyllid grant cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf hanfodol, a mwy o incwm masnachol, codi arian ac incwm arall sy'n adlewyrchu mwy o bwyslais ar gynhyrchu incwm yn unol â'n cynlluniau Strategol a Gweithredol, sy'n gyfrifol am y cynnydd yng nghyfanswm incwm y flwyddyn. Mae'r gostyngiad mewn cyfanswm cyfalaf yn adlewyrchu llai o gostau staff yn sgil gwariant y flwyddyn flaenorol yn cynnwys lefel uchel o gostau diswyddo a thaliadau premiwm am adael. Roedd yr incwm cyfunol net ar gyfer 2017/18 yn llawer uwch nag yn 2016/17 o ganlyniad.

Prif weithgareddau ein cwmni masnachu, Mentrau AOCC Cyf, ar gyfer y flwyddyn oedd gwerthiant yn ein siopau, gwasanaethau arlwyo mewnol a chontract, parcio ceir, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, prydlesu a hawliau ffilmio. Gwnaeth y cwmni elw cyn cymorth rhodd i Amgueddfa Cymru o £644,000 yn 2017/18, yn dilyn blwyddyn wael yn 2016/17 (elw cyn cymorth rhodd o £317,000). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r holl amgueddfeydd, yn enwedig Sain Ffagan lle'r agorodd y bwyty a'r siop newydd fel rhan o'r project ailddatblygu.

Cyfanswm y Cronfeydd ar 31 Mawrth 2018 oedd £116,753,000. Ceir dadansoddiad yn nodyn 19 i'r cyfrifon. Roedd y Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig yn £7,320,000, sy'n cael eu neilltuo i amrywiol gynlluniau ac ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys rhagfynegiadau o ddiffygion yn y gyllideb dros y pum mlynedd nesaf ac ad-daliadau benthyciadau Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru.



## Nodau ac Amcanion

Yn ystod 2017/18 fe wnaethom barhau i roi ein gweledigaeth ar waith, sef bod yn sefydliad sy'n **Ysbrydoli pobl, Newid bywydau**. Mae'r weledigaeth hon yn adlewyrchu dyhead i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar draddodiadau diwylliannol a deallusol Cymru a datblygu patrwm newydd ar gyfer amgueddfeydd ledled y byd.

Cafodd ein blaenoriaethau, a nodir ar ffurf Ymrwymiadau yn ein Map Gweledigaeth, eu llywio gan ymgynghoriad â'r cyhoedd yng Nghymru yn ogystal â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, aelodau staff a gwirfoddolwyr ynghyd â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom symleiddio Ymrwymiadau y Weledigaeth, sydd mewn pedwar maes allweddol bellach:

| | |
|---|---|
| **Ffyniant** | • Gweithredu fel gwarchodwyr ein treftadaeth ddiwylliannol a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.<br>• Sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn ffynnu, bod modd eu cynnal a'u hamrywio.<br>• Datblygu ein cynnig twristiaeth ddiwylliannol. |
| **Profiad** | • Creu a chynnal gofodau ffisegol a digidol croesawgar.<br>• Adrodd straeon ysbrydoledig drwy arddangosfeydd a digwyddiadau.. |
| **Dysgu** | • Datblygu sgiliau ein staff a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.<br>• Hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o iechyd a llesiant.<br>• Hybu a darparu dysgu am oes. |
| **Cymryd rhan** | • Creu rhwydweithiau partneriaeth a threfniadau cydweithio cynaliadwy ac effeithiol.<br>• Cynnwys pobl a chymunedau wrth lywio a chymryd rhan yn ein gwaith. |

Mae ein gweledigaeth yn alinio â nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan mai yn fframwaith y ddeddf y datblygwyd ein gweledigaeth yn wreiddiol, ac â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru. Mae Ymrwymiadau'r Weledigaeth a'r amcanion wedi'u mapio ar saith nod llesiant y Ddeddf, fel yr eglurwyd yn ein Datganiad Llesiant sydd ar ein gwefan yn https://amgueddfa.cymru/datganiad-llesiant/.

## Cefndir Statudol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Sefydlwyd Amgueddfa Genedlaethol Cymru trwy Siarter Frenhinol ym 1907 ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel endid cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn (Rhif Siarter Frenhinol RC000369, Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10). Enw cyhoeddus cyfredol y sefydliad yw Amgueddfa Cymru.

Mae'n elusen gofrestredig annibynnol, sy'n cael ei chyllid craidd trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC).

Ein hamcan craidd, a nodir yn y Siarter Frenhinol, yw 'hyrwyddo addysg y cyhoedd'. Mae hyn yn golygu datblygu ein casgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio a chynnal mynediad at gasgliadau er lles cymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, a ddiwygiwyd ym 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

(i) yn bennaf, trwy sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr o wyddoniaeth, celfyddyd, diwydiant, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, ac

(ii) yn gyffredinol, trwy gasglu, cofnodi, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt hybu gwell dealltwriaeth a hyrwyddo ymchwil.

Fe wnaethom barhau i weithredu ein Cynllun a Pholisi Ymgynghori sy'n egluro'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r technegau cyfranogi allweddol mewn perthynas â'n prif weithgareddau ymgynghorol.

## Safleoedd Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2017/18 roeddem yn gweithredu saith o amgueddfeydd ar hyd a lled ein gwlad:

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd
Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn unigryw ymysg amgueddfeydd cenedlaethol y DU o ran amrywiaeth ei harddangosfeydd celfyddydol a gwyddorau naturiol.

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Mae Sain Ffagan, un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop, yn rhan o'n grŵp o bum amgueddfa hanes cymdeithasol a diwydiannol. Gall ymwelwyr archwilio a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn deugain a mwy o adeiladau o Fôn i Fynwy sydd wedi'u hailgodi yma.

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen
Mae hen bwll glo cyflawn Big Pit yn rhan ganolog o Safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon. Dan arweiniad cyn-lowyr, caiff ymwelwyr eu tywys dros 90 metr i grombil tywyll y ddaear, er mwyn cael blas ar y tywyllwch dudew yr oedd y glowyr yn gweithio ynddo ddydd ar ôl dydd.

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion, Casnewydd
Mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru wedi arddangos casgliad cyfoethog o ddarganfyddiadau Rhufeinig ers 150 o flynyddoedd a mwy – gan gynnwys cerfluniau, arysgrifau, cerrig beddau, deunyddiau adeiladu, mosaig labyrinth, offer milwrol, crochenwaith, gwydr a gemwaith.

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd
Adroddir hanes y diwydiant llechi yng ngweithdai gwreiddiol chwarel Dinorwig. Yn ogystal â'r ffowndri, gefeiliau, siediau a'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain sy'n dal i weithio, gall ymwelwyr weld crefftwyr yn arddangos eu sgiliau hollti a thrin llechi â llaw.

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin
Yng nghalon cefn gwlad y Gorllewin, mae'r amgueddfa hon yn adrodd hanes y clwstwr o ddeugain melin a oedd yng nghyffiniau Dre-fach Felindre ar un adeg. Hen felin y Cambrian Mills – yr unig felin sydd wedi parhau ar waith yn gyson ers y cychwyn – yw cartref yr Amgueddfa bellach.

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ardal Forwrol Abertawe
Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn rhan ganolog o adfywiad Ardal Forwrol Abertawe. Hen warws rhestredig ar y glannau wedi'i gysylltu ag adeilad newydd, cyfoes o lechi a gwydr, yw cartre'r Amgueddfa. Fe'i hagorwyd ym mis Hydref 2005, penllanw strategaeth ddeng mlynedd o fuddsoddiad gwerth £40m yn ein pum amgueddfa gymdeithasol a diwydiannol ledled Cymru.

Hefyd, mae'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, yn agored i'r cyhoedd trwy drefniant. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol ym mhob cwr o'r wlad ar hyn o bryd hefyd, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.





# Adran 1.2 Dadansoddiad o Berfformiad

## Dangosyddion Perfformiad

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fonitro a gwerthuso ein gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Er bod ein dangosyddion perfformiad meintiol yn rhoi cipolwg ar berfformiad, mae data ansoddol o astudiaethau achos yn parhau i roi darlun manylach a chyfle i bwyso a mesur ein gwaith a'i gyfoethogi.

Bydd y mesurau perfformiad yn ein fframwaith gwerthuso a'r targedau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a thu hwnt, mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol sylweddol parhaus, yn parhau i ganolbwyntio ar gyfnerthu ein llwyddiannau hyd yma, gan geisio sicrhau gwell canlyniadau i bobl Cymru trwy gyflawni ein Gweledigaeth hirdymor.

Dangosir canlyniadau ein dangosyddion perfformiad allweddol yn ystod 2017/18 yn y tabl isod:

| Amcan Allweddol Map y Weledigaeth | Dangosydd Perfformiad Allweddol | Canlyniad 2016/17 | Targed Blynyddol | Canlyniad 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwneud gwahaniaeth i Gymru** | Nifer yr ymweliadau | 1,549,603 | 1,800,000 | 1,776,572 |
| **Profiad Digidol** | Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 1,439,854 | 1,600,000 | 1,593,453 |
| **Addysg a Chreadigrwydd** | Nifer yr ymweliadau addysg ffurfiol | 182,641 | 180,000 | 187,249 |
| | Nifer yr ymweliadau addysg anffurfiol | 389,195 | 240,000 | 420,995 |
| **Llywodraethu a Pherfformiad Ariannol** | Cyfanswm incwm net o ymchwil a ffioedd, elw cwmni masnachu ac ailgodi a chodi arian refeniw | £857,000 | £1,000,000 | £1,250,000 |

Fel y nodwyd eisoes, cynyddodd cyfanswm yr ymweliadau i'n hamgueddfeydd yn ystod 2017/18 bron 15% i 1,776,572 o gymharu â tharged o 1.8 miliwn a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Llwyddwyd i gael mwy o ymweliadau er gwaethaf rhai heriau mawr a wynebwyd tua diwedd y flwyddyn ariannol, pan fu'n rhaid cau mwyafrif y safleoedd oherwydd eira. Cafwyd 1,593,435 o ymweliadau â'r wefan yn ystod yr un cyfnod, sydd o fewn 0.5% i'r targed a bennwyd ac yn gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol.

Mae ein gwaith ar wasanaethu'r sector addysg ffurfiol yn dal i ddenu niferoedd sylweddol o ymwelwyr, gyda 187,249 o ymweliadau addysg ffurfiol, a oedd yn uwch na'r targed o 180,000. Nifer yr ymweliadau addysg anffurfiol, sy'n cynnwys nifer yr ymweliadau addysg 'gwerth ychwanegol' â'n safleoedd a nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau addysg oddi ar y safleoedd, oedd 420,995, sydd ymhell uwchlaw'r targed o 240,000 a dyma'r nifer a gafwyd yn 2016/17 hefyd.

Fe wnaethom ragori ar y targed ar gyfer cyfanswm incwm net yn sgil gwaith ymchwil a chodi tâl, elw cwmni masnachu a chodi arian refeniw. Roedd y cynnydd cyffredinol yn 46%, gyda phob maes yn gweld cynnydd mewn incwm o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn enwedig y cwmni masnachu yn dilyn blwyddyn heriol yn 2016/17. Mae hwn yn parhau i fod yn faes datblygu arwyddocaol i ni, er mwyn cydbwyso'n cyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Buddsoddiad Cyfalaf

Yn sail i gyflawni'r weledigaeth, mae'r rhaglen o waith cyfalaf yn parhau, gan ganolbwyntio yn 2017/18 ar fwrw ymlaen ag ailddatblygu Sain Ffagan, ac ar ddechrau cynllun gwaith cynnal a chadw hanfodol pedair blynedd wedi'i ariannu gan gymorth grant Llywodraeth Cymru.

Roedd projectau eraill yn y cynllun cyfalaf yn cynnwys gosod gwifrau trydan newydd yng nghastell Sain Ffagan, gosod offer crog newydd yn Big Pit a diweddaru cyfarpar a meddalwedd TG. Crëwyd cwrs rhaffau uchel yn Sain Ffagan, un o sawl menter gynhyrchu incwm a ariannwyd gan fenthyciadau a grantiau Llywodraeth Cymru.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Yn 2017/18, fe wnaethom barhau i weithio gyda phartneriaid ar hyd a lled Cymru a thu hwnt i ddangos y casgliadau cenedlaethol mewn amryw o leoliadau gan gynnwys amgueddfeydd, orielau, canolfannau ymwelwyr a safleoedd treftadaeth, ac i rannu sgiliau ac arbenigedd ar draws y sector.

Mae ein perthynas ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn Oriel y Parc wedi parhau i ddatblygu. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2017 buom yn dathlu Blwyddyn y Chwedlau gyda *Hud ar Ddyfed: Chwedloniaeth Sir Benfro*, yn cysylltu'r casgliadau cenedlaethol â straeon lleol rhyfeddol fel y môr-leidr enwog Barti Ddu, y Brenin Arthur a chysylltiadau goruwchnaturiol yn y dirwedd cynhanesyddol. Rhwng mis Medi 2017 a mis Ionawr 2018, ehangwyd y bartneriaeth i weithio gyda'r Sidney Nolan Trust ar gyfer *Sidney Nolan a Graham Sutherland: Naws am Le*, gan ddod â gweithiau celf a ysbrydolwyd gan ymdeimlad o le yn nhirwedd Cymru gan y ddau artist yma at ei gilydd am y tro cyntaf.

Daeth ein gwaith partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CBHC, Cadw a Chasgliad y Werin ar gyfer Y Lle Hanes yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn Awst 2017, â gwrthrychau a straeon ynghyd o gasgliadau cenedlaethol a oedd yn edrych ar hanes yr ardal. Cyflwynwyd gwrthrychau a straeon o *Wallace: Gŵr Angof Esblygiad?* yn yr Hen Goleg, Aberystwyth o fis Ionawr i fis Ebrill 2018.

Mae gwaith partneriaeth rhyngwladol yn parhau'n flaenoriaeth ac rydym wrthi'n cydweithio â White International ar arddangosfa deithiol i Japan. Bu gweithiau celf hanesyddol o'n casgliad yn ymweld â phum lleoliad rhwng mis Ebrill 2017 a mis Ionawr 2018 a daethant yn ôl i Gymru ym mis Mehefin 2018, yn dilyn y chweched arddangosfa, sef yr un olaf. Mae arddangosfa deithiol *France and Britain: Art for a new age 1817-1917* yn adlewyrchu bri rhyngwladol casgliadau celf Amgueddfa Cymru hefyd.

## Caffael Sbesimenau

Ein casgliadau sydd wrth wraidd ein gwasanaeth i'r cyhoedd, ac mae'n hanfodol eu bod yn parhau i ddatblygu er mwyn diogelu ein treftadaeth ac adlewyrchu anghenion newidiol Cymru. Mae ein Grant Caffael Sbesimenau gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ond gwnaethom barhau i'w ddefnyddio i ddenu nawdd ychwanegol. Cawsom gyfraniadau hael iawn gan ein cefnogwyr hirdymor yn 2017/18, yn enwedig Ymddiriedolaeth Derek Williams, y Gronfa Gelf, Cymdeithas Celf Gyfoes Cymru, Cronfa Knapping a noddwyr preifat.

Ymhlith prif gaffaeliadau a rhoddion 2017/18 roedd nifer o weithiau celf, canfyddiadau archaeolegol a llawer o sbesimenau gwyddorau natur.

Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o'n gwaith i'w gweld yn ein Hadolygiad Blynyddol, sy'n gyhoeddiad ar wahân a fydd ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Gweithgarwch Ymchwil

Mae ein gwaith ymchwil yn gwneud cyfraniad allweddol at wella dealltwriaeth o dreftadaeth, diwylliant ac amgylchedd naturiol Cymru ac mae'n sail i'n holl wasanaethau cyhoeddus a gwaith prifysgolion ac ymchwilwyr annibynnol. Ceir canlyniadau o rai projectau ymchwil bach yn gyflym tra bo eraill yn ymestyn dros sawl blwyddyn adrodd. Rydym yn parhau i gael ein cydnabod yn Sefydliad Ymchwil Annibynnol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob sector perthnasol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau addysg uwch, llawer ohonynt â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda ni.

Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o'n gwaith i'w gweld yn ein Hadolygiad Blynyddol, a fydd ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Addysg ac Ymgysylltu

Ni yw'r prif ddarparwr addysg tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru. Yn 2017/18, croesawyd 187,249 o blant ysgol a myfyrwyr i'n hamgueddfeydd ac ymgysylltodd 420,995 o ddysgwyr anffurfiol â ni. Ni yw un o'r darparwyr addysg anffurfiol mwyaf i deuluoedd yng Nghymru.

Gyda chwricwlwm newydd Cymru wrthi'n cael ei ddatblygu, rydym wedi adolygu ein darpariaeth addysg ffurfiol gyfredol. Mae sesiynau newydd a ddatblygwyd yn cynnwys digwyddiadau byw STEM, mewnbwn i ŵyl hanes Cymru a pherfformiadau creadigol. Roedd ein darpariaeth addysg i oedolion yn cynnwys lansio Ar Lafar, gŵyl i ddysgwyr Cymraeg a ddatblygwyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn Sain Ffagan, yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Rydym yn un o brif bartneriaid a darparwyr rhaglen Llywodraeth Cymru Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant. Rydym yn darparu rhaglenni strategol i gefnogi cyflogadwyedd, dysgu y blynyddoedd cynnar a theuluoedd, addysg, ac iechyd a llesiant. Yn 2017/18 roedd y rhain yn cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol yn Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i ddarparu Diwrnodau Hwyl i'r Teulu a grwpiau Dechrau'n Deg, cynnal Diwrnod Hwyl Dysgu i Deuluoedd yn Amgueddfa Lechi Cymru a chynnig amrywiaeth o gyrsiau achrededig, i gefnogi cyflogadwyedd, yn ein hamgueddfeydd.

Mewn partneriaeth â'r Wallich, elusen sy'n cefnogi pobl ddigartref yng Nghymru, lansiwyd yr arddangosfa gelf gyfoes *Penderfyniad Pwy?* Cafodd yr arddangosfa ei churadu gan bobl ddigartref gyda chefnogaeth ein staff, gan ddod â manteision gwirioneddol i iechyd a llesiant y rhai a oedd yn cymryd rhan. Roedden ni'n un o ddeuddeg sefydliad ledled y DU i lwyddo i gael cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddatblygu cam o Tynnu'r Llwch, rhaglen bum mlynedd i gael pobl ifanc i gymryd mwy o ran mewn treftadaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o'n gwaith i'w gweld yn ein Hadolygiad Blynyddol, a fydd ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## Arddangosfeydd

Ni yw prif sefydliad cynhyrchu arddangosfeydd diwylliannol, treftadaeth a'r gwyddorau naturiol yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda'n cymunedau, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ar draws ein hamgueddfeydd i gynhyrchu arddangosfeydd ac arddangosiadau sy'n apelio at ein holl ymwelwyr. Yn 2017/18, trefnwyd tri deg pedwar o arddangosfeydd ledled ein holl amgueddfeydd, gan gynnwys ein lleoliad partner Oriel y Parc. Roedd yr arddangosfeydd yn cynnwys *Deinosoriaid yn Deor*, arddangosfa gyda thâl mynediad, a ddenodd dros 50,000 o ymwelwyr, *Penderfyniad Pwy?*, arddangosfa gelf gyfoes wedi ei churadu gan bobl ddigartref gyda chefnogaeth yr elusen ddigartrefedd y Wallich a'n staff, yr arddangosfa gelf gyfoes drawiadol *O Bacon i Doig* ac *Agatha Christie*.

Rydym yn cyflwyno rhaglen fawr o arddangosfeydd, cyhoeddiadau a digwyddiadau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf rhwng 2014 a 2018. Mae manylion uchafbwyntiau eraill rhaglen arddangosfeydd dros dro 2017/18 i'w gweld yn ein Hadolygiad Blynyddol, a fydd ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.





Adroddiad Ariannol 2017/18

## Codi Arian

Roedd 2017/18 yn flwyddyn lwyddiannus o ran codi arian a derbyniwyd £1.9m trwy roddion, a £192,000 trwy addewidion newydd. Sicrhawyd nifer o grantiau gan y llywodraeth hefyd.

Codwyd £960,000 ar gyfer apêl codi arian cyfalaf Sain Ffagan, gyda nifer o roddion mawr wedi'u sicrhau yn cynnwys rhoddion gan Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Foyle, Sefydliad Moondance a Theulu Plymouth. Rhoddodd Sefydliad Garfield Weston yr enw i'r ganolfan ddysgu newydd, Canolfan Ddysgu Weston. Rhoddodd Sefydliad Foyle yr enw ar yr oriel Dyma yw Byw, a rhoddodd Sefydliad Moondance yr enw ar yr oriel Dyma yw Cymru, y ddwy oriel i agor yn Hydref 2018.

Derbyniodd Sain Ffagan roddion eraill gan Sefydliad Tudor Prichard, Sefydliad Charles Hayward ac Elusen Hobson. Yn dilyn cinio codi arian yn Hydref 2017 derbyniwyd llawer o roddion unigol, gyda'r cyfanswm yn £188,000.

Mewn mannau eraill, sicrhawyd mwy o fuddsoddiad gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl ar gyfer ein gwaith craidd, ariannodd Sefydliad Paul Hamlyn broject drwy eu rhaglen More and Better i annog a hwyluso mwy o gydweithio ar draws ein hamgueddfeydd, a darparodd Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol Croeso Cymru grant i ni hyrwyddo ein harddangosfa fawr a gynhaliwyd dros yr haf, Deinosoriaid yn Deor yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Roedd 2017/18 yn flwyddyn arbennig i'n partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams, sydd wedi bod yn cefnogi'n gwaith gyda chasgliadau celf ers dros 25 mlynedd. Yn y cyfamser, cyfrannodd Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston, sydd wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant ers degawdau, at arddangosfeydd Gillian Ayres ac Agatha Christie.

Dyma oedd ail flwyddyn ein partneriaeth gyda'r cwmni rheoli cyfoeth Brewin Dolphin, sy'n noddi ein Cynllun Noddwyr. Drwy'r bartneriaeth hon, rydym wedi cynnal sawl digwyddiad llwyddiannus ac wedi sicrhau Noddwyr newydd. Rydym yn edrych ymlaen at barhau'r berthynas hon yn 2018/19. Derbyniwyd nawdd cwmni arall gan Westco, Plymouth Estates, SRK Consulting, Western Power Distribution, Sony, Daiwa Anglo Foundation, Toshiba Foundation a GB Sasakawa Foundation.

Rhoddodd ein Noddwyr a llawer o unigolion a sefydliadau eraill eu cefnogaeth dros y flwyddyn ac rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonynt.

Ein Hadran Ddatblygu fewnol fu'n gyfrifol am ein gwaith codi arian ac ni wnaethom roi unrhyw weithgareddau codi arian allan ar gontract i asiantaethau trydydd parti na chynnal unrhyw weithgarwch marchnata uniongyrchol. Gydol y flwyddyn roeddem yn aelodau o'r Rheoleiddiwr Codi Arian gan gydymffurfio â'r cod ymarfer codi arian a nodwyd gan y Rheoleiddiwr. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am ein gweithgareddau codi arian.

## Gwirfoddolwyr

Parhaodd Cyfeillion Amgueddfa Cymru i gefnogi ein gwaith mewn tair prif ffordd:

- Fel llysgenhadon dros ein gwaith, gan ddarparu rhaglen o sgyrsiau, teithiau a gweithgareddau eraill sy'n ategu ein gweithgareddau addysgol.
- Trwy ddarparu grŵp o wirfoddolwyr i gefnogi'n gweithgareddau ni. Mae Cyfeillion yn cyfarfod a chyfarch grwpiau ac unigolion, fel grwpiau Cyfeillion amgueddfeydd eraill ac ymwelwyr achlysurol, a hefyd yn helpu staff curadurol ym mhob un o'n meysydd gwaith. Mae'n bwysig nodi ein bod yn ystyried hyn yn ychwanegiad gwerthfawr at ein gwaith.
- Trwy roi cymorth ariannol i nifer o brojectau, gan gynnwys ailddatblygu Sain Ffagan, a noddi'r datganiadau ar yr organ yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Bu ein Cydlynwyr Gwirfoddolwyr yn gweithio gyda chydweithwyr i wella'r cyfleoedd i wirfoddoli yn ein holl amgueddfeydd. O ganlyniad, cawsom dros 29,919 awr o gyfraniad gan wirfoddolwyr yn ystod 2017/18. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad y gwirfoddolwyr at waith curadurol a chadwraeth ataliol y tu ôl i'r llenni, teithiau, gweithgareddau addysg ar gyfer y cyhoedd a help i gynnal a chadw ein gerddi a'r fferm.



Hefyd, rydym wedi datblygu ein rhaglen Gwirfoddoli mewn Digwyddiadau sy'n annog ein cymuned leol i wirfoddoli ychydig oriau yma ac acw i gefnogi'n rhaglen o ddigwyddiadau a chynhyrchu incwm, mewn dwy amgueddfa.

Rydym wedi llwyddo i adnewyddu'r Dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn ein holl amgueddfeydd eleni.

Mawr yw ein dyled i'n gwirfoddolwyr am eu hymroddiad i'r elfen hon o'n gweithgareddau sy'n mynd o nerth i nerth.

## Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn y ddogfen *Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance*.

Ein nod yw creu amgueddfeydd cynaliadwy trwy ddatblygu arferion cynaliadwy ar gyfer y saith amgueddfa a hyrwyddo ffordd o fyw gynaliadwy trwy'r arddangosfeydd, y digwyddiadau a'r rhaglenni addysg, er enghraifft, helpu ysgolion i hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy trwy ein project SCAN. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis Cynnal Cymru a Sustrans ar faterion datblygu cynaliadwy.

Hefyd, nod llawer o'n hymchwil craidd yw gwella dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol a diwylliannol, er enghraifft ymchwil i newid yn yr hinsawdd.

Mae gennym Fforwm Datblygu Cynaliadwy sy'n ystyried materion, gwneud argymhellion i'r cyfarwyddwyr a'r Ymddiriedolwyr yn unol â hynny, a sbarduno datblygiad polisi. Mae'r Fforwm yn hyrwyddo arferion datblygu cynaliadwy ar draws pob safle.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn mynd ati i greu amgueddfeydd cynaliadwy, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, ewch i **www.amgueddfa.cymru/cynaliadwyedd**.

**Perfformiad**

Mae gwarchod trysorau'r genedl ac agor ein drysau i dros 1.7 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn yn defnyddio llawer o ynni. Mae ein Polisi Ynni wedi'i fabwysiadu fel cam mawr ymlaen tuag at wella effeithlonrwydd ynni, ac fel prawf o'n cefnogaeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn cymryd rhan yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni yr Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC).

Yn 2017/18 cafwyd 6.9% o ostyngiad yng nghyfanswm yr allyriadau. Roedd hyn yn sgil i newid yn ffactorau trosi'r llywodraeth ar gyfer trydan, a gwelwyd cynnydd yn y defnydd o nwy a thrydan. Cafwyd cynnydd bychan o 3.4% mewn gwastraff cyffredinol. Cynyddodd y defnydd o ddŵr 25.9% yn 2017/18, oherwydd dŵr yn gollwng yn Sain Ffagan yn bennaf, er bod yna ostyngiad o 9.8% o gymharu â 2011/12.

Mae'r tablau isod yn darparu gwybodaeth ariannol ac anariannol fanwl am allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff, a'r defnydd o adnodd y mae pen draw iddo (dŵr). Cafwyd data allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2 ar nwyon tŷ gwydr o'n cronfa ddata CRC, cyfrifwyd allyriadau cwmpas 3 gan ddefnyddio ffigurau milltiroedd blynyddol a ddarparwyd gan ein cyflenwr llogi ceir, casglwyd y data gwastraff o adroddiadau gwastraff safleoedd unigol, a daw'r data ar ddefnydd o ddŵr o wybodaeth ar filiau.

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr** | | **2017/18** | **2016/17** | **2015/16** | **2014/15** | **2013/14** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($tCO_2$) | Allyriadau cwmpas 1 (uniongyrchol) – nwy | 1,464 | 1,424 | 1,440 | 1,500 | 1,600 |
| | Allyriadau cwmpas 2 (anuniongyrchol) – trydan a brynwyd | 2,116 | 2,424 | 2,749 | 3,047 | 3,464 |
| | Allyriadau cwmpas 3 (teithio busnes) | 26 | 27 | 24 | 37 | 45 |
| | **Cyfanswm** | **3,606** | **3,875** | **4,213** | **4,584** | **5,109** |
| Defnydd cysylltiedig o ynni (kWh'000) | Nwy | 7,951 | 7,705 | 7,783 | 8,086 | 8,673 |
| | Trydan | 5,548 | 5,426 | 5,538 | 5,716 | 6,404 |
| | **Cyfanswm** | **13,499** | **13,131** | **13,321** | **13,802** | **15,077** |
| Dangosyddion ariannol (£) | Nwy | 204,745 | 169,481 | 174,564 | 192,203 | 268,211 |
| | Trydan | 596,914 | 548,415 | 517,647 | 571,349 | 587,226 |
| | Ffi weinyddol CRC | 1,290 | 1,290 | 1,290 | 1,290 | 1,290 |
| | Teithio ar fusnes swyddogol | 156,312 | 147,169 | 183,978 | 200,089 | 198,233 |
| | **Cyfanswm** | **959,261** | **866,355** | **877,479** | **964,931** | **1,054,960** |

**Targedau a Pherfformiad**

Mae ein Datganiad Amgylcheddol yn gosod targed, sef cynhyrchu 2% yn llai o $CO_2$ trwy ynni a chludiant bob blwyddyn. Yn 2017/18 cafwyd 6.9% o ostyngiad, yr oedd ei ddisgwyl gan fod ffactorau trosi'r llywodraeth wedi lleihau. Bu 29.4% o ostyngiad ers 2013/14.

Cynyddodd y defnydd o nwy a thrydan yn ystod y flwyddyn, sef 2.8% yn gyffredinol, yn rhannol oherwydd y tywydd oer ac yn rhannol gan i rannau o safle ac adeiladau Sain Ffagan ailagor ar ôl bod ar gau yn ystod y project ailddatblygu. Mae'r defnydd wedi gostwng 10.5% yn gyffredinol ers 2013/14. Llwyddwyd i sicrhau hyn trwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys gosod uned gwres a phŵer cyfunol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn 2011/12, gosod paneli solar yn Big Pit a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn 2012/13, gosod system goleuadau a rheoli newydd yn yr orielau celf yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd dros y pedair blynedd diwethaf a gosod cyfarpar optimeiddio foltedd mewn rhai safleoedd yn 2017/18.

Ers rhai blynyddoedd bellach, rydym wedi annog staff ac ymwelwyr i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy ar gyfer teithiau i'n safleoedd; er enghraifft mae cynllun ailddatblygu Sain Ffagan yn cynnwys cynllun teithio sy'n hyrwyddo teithio cynaliadwy i ymwelwyr a staff ac mae uwchraddio'r cyfarpar fideo-gynadledda yn 2011/12 wedi lleihau nifer y teithiau rhwng safleoedd ar gyfer cyfarfodydd. Mae'r lefelau $CO_2$ yn sgil llogi ceir wedi gostwng 25% ers 2013/14, oherwydd cyfuniad o lai o filltiroedd a mwy o geir yn defnyddio disel yn hytrach na phetrol.





| **Gwastraff** | | **2017/18** | **2016/17** | **2015/16** | **2014/15** | **2013/14** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Gwastraff peryglus | 0.2 | 0.5 | 0.2 | 1.2 | 0.0 |
| | | | | | | |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus: | | | | | |
| | – Tirlenwi | 1,123.2 | 954.9 | 646.7 | 818.2 | 783.0 |
| | – Ailddefnyddio/Ailgylchu | 1,773.2 | 1,853.2 | 1,953.6 | 1,968.8 | 2,099.2 |
| | – Llosgi | 41.6 | 33.4 | 28.1 | 19.7 | 24.7 |
| | **Cyfanswm y gwastraff** | **2,938.2** | **2,842.0** | **2,628.5** | **2,807.8** | **2,906.9** |
| Dangosyddion ariannol (£) | **Cyfanswm cost gwaredu** | **51,643** | **40,417** | **38,912** | **28,943** | **37,268** |

**Targedau a Pherfformiad**

Targed ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth ar wastraff yw 25% o ostyngiad yng nghyfanswm y gwastraff o lefelau 2009/10 erbyn 2015.

Rydym yn annog lleihau gwastraff trwy fwy o ailgylchu a hyrwyddo ailddefnyddio a lleihau yn frwd ar draws ein holl safleoedd. Mae'r 47.7% o gynnydd mewn gwastraff tirlenwi yn 2016/17 yn deillio o'r ffaith i ni newid contractwyr gwastraff cyffredinol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ond rydym yn gobeithio y caiff gwastraff cyffredinol nad yw'n bydradwy ei ailgylchu unwaith y bydd gwaith Energy from Waste newydd yn cael ei agor yng Nghaerdydd. Mae'r cynnydd o 3.4% mewn gwastraff cyffredinol yn 2017/18 yn deillio o waith parhaus yn Sain Ffagan, ac o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â Sain Ffagan wrth i'r adeiladau newydd agor yn ystod y flwyddyn.

| **Y Defnydd o Adnodd y Mae Pen Draw Iddo** | | **2017/18** | **2016/17** | **2015/16** | **2014/15** | **2013/14** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ('000m³) | **Cyfanswm defnydd dŵr** | **28,786** | **22,860** | **20,584** | **20,768** | **26,434** |
| Dangosyddion ariannol (£) | **Cyfanswm costau cyflenwad dŵr** | **89,705** | **67,506** | **64,923** | **79,437** | **74,915** |

**Targedau a Pherfformiad**

Mae ein Polisi Ynni yn gosod targed i sicrhau 5% o ostyngiad y flwyddyn yn y defnydd o ddŵr. Yn 2016/17 roedd y defnydd o ddŵr wedi gostwng 13.5% yn gyffredinol ers 2013/14 a 28% i gyd ers 2011/12.

Yn 2017/18, bu cynnydd o 25.9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd achosion o ddŵr yn gollwng yn Sain Ffagan, sydd wedi'u canfod a'u trwsio yn ystod y flwyddyn. Er gwaethaf y problemau a gafwyd, roedd defnydd o ddŵr yn 2017/18 9.8% yn is nag yn 2011/12.

**Strategaeth y Dyfodol**

Yn 2018/19 byddwn ni'n adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes wrth leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a lleihau gwastraff a'r defnydd o ddŵr. Mae'r Fforwm Datblygu Cynaliadwy wedi penderfynu ar darged o 1% o ostyngiad mewn defnydd o ynni ym mhob safle yn 2018/19, o gymharu â defnydd 2017/18. Mae'r cynlluniau'n cynnwys cael lleithyddion newydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, lleihau'r defnydd o gwpanau diodydd poeth tafladwy a deunydd plastig untro eraill ar draws ein holl safleoedd, ac ystyried y posibilrwydd o wneud arbedion ynni pellach. Ar ôl i ddeuddeg aelod o staff dderbyn hyfforddiant ar Lythrennedd Carbon ar ddechrau 2018/19 byddwn yn cyflwyno'r hyfforddiant hwn i aelodau staff eraill yn ystod y flwyddyn.

**Bioamrywiaeth**
Ein nod yw diogelu, gwarchod, gwella ac adfer planhigion ac anifeiliaid amrywiol ein holl safleoedd. Rydym wedi cynnal archwiliadau bioamrywiaeth ar bob safle, sy'n darparu gwybodaeth sy'n helpu gyda'r broses benderfyniadau ac ymdrechion cadwraeth effeithiol.

Yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, bydd datblygu amgueddfa hanes naturiol yn y dyfodol yn gwneud cyfraniad pwysig at drafodaethau cyfoes yn ymwneud â chynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Y rhyngweithio rhwng pobl a'r amgylchedd naturiol fydd un o'r prif themâu a archwilir yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru hefyd. Bydd arddangosfeydd teithiol yn cynnig cyfleoedd pellach i bwyso a mesur ein heffaith ar y byd.

**Caffael Cynaliadwy**
Rydym wedi mabwysiadu Polisi Caffael a Chynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. Mae'n mynd i'r afael â chostau ac effeithiau oes gyfan ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, ac yn gwerthuso perfformiad amgylcheddol ein cyflenwyr a'n contractwyr.

**Llywodraethu**
Rydym wedi mabwysiadu system reoli amgylcheddol trwy gyfrwng BS8555, a datblygu polisïau craidd er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein gweithrediadau, gan gynnwys:
- Safon Amgylcheddol SEREN BS8555 – rydym wedi cyrraedd Cam 3 y Safon hon ar draws y sefydliad
- Polisi a Chynllun Gweithredu Caffael Cynaliadwy
- Polisi Ynni.

Mae ein harferion, ein prosesau a'n llwyddiannau cynaliadwy yn cael eu hasesu'n allanol yn unol â BS8555 ac o dan Ymrwymiad Lleihau Carbon y Llywodraeth. Maent hefyd yn rhan o fframwaith cyffredinol rheolaeth fewnol, a cheir disgrifiad manylach o hyn yn y Datganiad Llywodraethu sy'n rhan o'r Adroddiad Ariannol hwn.

## Prisio Asedau Sefydlog

Yn ôl ein polisi cyfrifyddu ar brisio Asedau Sefydlog, rhaid i asedau eiddo gael eu hailbrisio gan arbenigwyr bob pum mlynedd. Nid yw'r broses ailbrisio bob pum mlynedd yn berthnasol i asedau eraill gan gynnwys asedau treftadaeth a'r rhai dan benawdau ehangach fel peiriannau, cerbydau neu osodiadau a ffitiadau eraill. Mae'r polisi cyfrifyddu'n cynnwys darpariaeth hefyd i ddefnyddio mynegeion i addasu'r asedau hynny sydd wedi'u hailbrisio'n broffesiynol, yn y blynyddoedd rhwng yr ailbrisiadau proffesiynol bob pum mlynedd.

Cafodd asedau sy'n gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio'n broffesiynol ddiwethaf ar 31 Mawrth 2016.

Nid yw'r asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gafwyd fel rhoddion ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar sail eu cost neu brisiad. Nid yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod modd cyfiawnhau costau sylweddol prisio casgliad mor fawr o asedau treftadaeth, ar sail cost a budd, i gael yr hyn a fyddai'n ddim mwy na phris ar un eiliad benodol mewn amser. Yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 30 ar asedau treftadaeth, trafodir datgeliadau yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

Adlewyrchir ein buddiant yn yr eiddo yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gan ein cyfran o 50% yn y cwmni menter ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe. Dangosir manylion y buddiant yn y gyd-fenter yn nodyn 9 i'r cyfrifon.

## Perfformiad Talu Prydlon

Rydym yn dilyn amcanion cod ymarfer Better Payment Trysorlys Ei Mawrhydi a'n nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod o'u derbyn. Wyth diwrnod calendr oedd cyfartaledd yr amser a gymerwyd i dalu anfonebau yn ystod 2017/18 (pum niwrnod yn 2016/17), sy'n cynnwys 95.7% (yn ôl nifer) o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (98% yn 2016/17). Ni wnaed taliadau llog dan y Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998 (£Dim yn 2016/17).



## Y Polisi ar Gronfeydd wrth Gefn

Fel corff sy'n gyfrifol am gasglu a chynnal asedau treftadaeth, gan gynnwys tir ac adeiladau, er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion, mae'r polisi ar gronfeydd wrth gefn yn berthnasol i gronfeydd arian i'w gwario yn unig, ac nid i gyfanswm y cronfeydd a ddelir.

Mae'r polisi hwn yn parhau i fod yn ddibynnol ar, ac wedi'i gyfyngu gan, yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ein Cytundeb Fframwaith a oedd yn cyfyngu'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2017/18 i 2% o'n cymorth grant, gydag eithriadau rhag unrhyw gyfyngiad o ran y Grant Caffael Sbesimenau ac incwm a gynhyrchwyd gennym ni. Gall eithriadau cyffredinol a phenodol pellach fod ar gael ar gais mewn perthynas ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (i adlewyrchu'r trefniant cyd-ariannu gyda Dinas a Sir Abertawe), a phrojectau cyfalaf sy'n pontio diwedd y flwyddyn ariannol.

Cynhelir cronfeydd preifat ar wahân ac fe'u nodir yn y cyfrifon. Nid oes unrhyw derfyn ar gario'r rhain drosodd, a'n polisi ni yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u cadw ar gyfer projectau a chynlluniau cyfalaf nad oes modd derbyn cyllid craidd na chymorth grant ar eu cyfer, gan gadw o fewn unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd sydd yn y Cronfeydd Preifat.

Defnyddir elw'r is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni, sef Mentrau AOCC Cyf, i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at ein nodau a'n hamcanion. Ar adegau, gall hyn olygu ail-fuddsoddi elw yn yr is-gwmni masnachu er mwyn cynyddu'r elw masnachu ymhellach.

Er gwaetha'r anawsterau presennol ynghylch arian cyhoeddus a her y sefyllfa economaidd o ran codi arian o ffynonellau preifat, rydym yn benderfynol o barhau â'r cynllun tymor hir o ddatblygiadau cyfalaf a gwneud gwaith adnewyddu yn ein safleoedd er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r weledigaeth. Rydym yn ddibynnol ar gyllid Lywodraeth Cymru i gynnal y rhan fwyaf o'n gweithgareddau. Mewn ymateb i'r gostyngiad yn ein cymorth grant refeniw craidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweithredu rhaglen lleihau costau staff ac yn gweithredu cynllun creu incwm. Rydym wedi paratoi ein cyfrifon ar sail busnes hyfyw ac nid oes unrhyw ansicrwydd arall ynglŷn â'n gallu i barhau.

Cyfanswm y Cronfeydd ar 31 Mawrth 2018 oedd £116,753,000; ceir dadansoddiad yn nodyn 19 i'r cyfrifon. £7,320,000 oedd y cronfeydd cyhoeddus anghyfyngedig, ac eithrio'r gronfa bensiwn wrth gefn, sydd wedi'i dyrannu i amrywiol gynlluniau ac ymrwymiadau'r dyfodol.

## Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau

Rheolir ein buddsoddiadau mewn Cronfeydd Preifat gan ein hymgynghorwyr, sef Barclays. Mae ein polisi ar fuddsoddi yn derbyn cyfnewidioldeb tymor byr wrth geisio sicrhau enillion buddsoddi cadarnhaol yn dilyn effeithiau chwyddiant, ac yn cydnabod y gall gwerth cyfalaf amrywio'n sylweddol o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn cyfrifon arian parod, i fod ar gael yn rhwydd i'w buddsoddi yn y rhaglen gyfalaf. Mae perfformiad y cronfeydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson, a gwneir newidiadau i'r portffolio fel sy'n briodol i'r lefel dderbyniol o risg. Cynyddodd gwerth y portffolio buddsoddi yn ystod y flwyddyn o £2,823,000 i £2,845,000.

Mae gennym hefyd, trwy gymynroddion, fuddsoddiad ecwiti mewn 11 o gwmnïau o'r radd flaenaf. Gwelwyd gostyngiad yng ngwerth y portffolio hwn yn ystod y flwyddyn o £102,000 i £100,000.

Felly, cyfanswm gwerth y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2018 oedd £2,945,000.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gennym Gynllun Pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael i'r holl staff parhaol, sydd wedi'i ategu gan Warant y Goron. Fel y mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae prisiadau blynyddol diweddar a welir ar y fantolen yn dangos diffyg ariannol o gymharu â rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae trafferthion y marchnadoedd ecwiti, ynghyd â'r rhwymedigaethau cynyddol o dan y Cynllun yn sgil llawer o ffactorau, e.e.

y ffaith bod yr aelodau'n byw'n hirach, yn golygu bod llawer o Gynlluniau o'r fath dan bwysau, ac mae llawer ohonynt wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r prisiad a welir ar fantolen eleni, fel y'i cyfrifwyd o dan FRS102, yn dangos cynnydd o £4.8 miliwn o £32.6 miliwn i £37.4 miliwn, yn dilyn cynnydd mwy o £12.7 miliwn y llynedd. Er bod gwerth asedau'r Cynllun wedi cynyddu o £125.7 miliwn i £128.8 miliwn, mae rhwymedigaethau'r Cynllun wedi cynyddu hefyd. Ceir rhagor o fanylion am sut y cyfrifir costau pensiwn yn y nodyn ar bolisïau cyfrifyddu sydd yn y cyfrifon, ac mae'r gofynion datgelu sydd yn FRS102 i'w gweld yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

Ym mis Mai 2016, cytunodd Amgueddfa Cymru ac Ymddiriedolwyr y Cynllun ar brisiad actiwaraidd tair blynedd diweddaraf y cynllun hyd at 31 Mawrth 2015, yn ogystal â'r cynllun adfer cysylltiedig i ddileu diffyg ariannol y Cynllun. Bydd y cynllun yn cael gwared ar y diffyg ariannol dros gyfnod o bedair blynedd.

Dylid cynnal y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2018 a bydd y cynllun adfer yn cael ei adolygu gyda chytundeb arno pan fydd y canlyniadau hyn ar gael.

## Polisi Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Llywodraeth Cymru. Mae'r Safonau hyn yn cyflwyno disgwyliadau clir arnom i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith. Comisiynydd y Gymraeg sydd wedi pennu'r safonau a osodwyd ar Amgueddfa Cymru. Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio a'n Polisi Iaith Gymraeg ar ein gwefan https://amgueddfa.cymru/amdano/polisi/polisi-iaith-gymraeg/. Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol ym mis Mawrth 2018 ar sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sydd i'w gael ar ein gwefan.

Yn ystod 2017/18, fe wnaethom barhau i ddatblygu ein rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg a datblygu'n partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cynnwys sefydlu *Ar Lafar*, ein gŵyl flynyddol ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Fe wnaethom barhau gyda'n rhaglen weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol gyfredol er mwyn helpu staff i ddefnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg, yn cynnwys cofrestru gyda chynllun Cymraeg Gwaith. Sefydlwyd methodoleg ar gyfer asesu gofynion Cymraeg pob swydd a hysbysebir a chynigiwyd mwy o hyfforddiant dwyieithog i staff.

Cawsom un gŵyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ynglŷn â'n cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, ac rydym yn ymchwilio i'r gŵyn honno ar hyn o bryd.

*David Anderson*
Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
12 Gorffennaf 2018

*Laurie Pavelin*
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
12 Gorffennaf 2018



# ADRAN 2: ATEBOLRWYDD

## Adran 2.1: Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### 2.1.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** (O 1 Ebrill 2017 ymlaen)

**Llywydd**
Elisabeth Elias, MA, DL *# (ymddeolodd 31 Rhagfyr 2017)
Dr Carol Bell * # Llywydd Dros Dro (o 1 Ionawr 2018)

**Is-lywydd**
Dr Carol Bell * #

**Trysorydd**
Laurie Pavelin, CBE, FCA * #

**Penodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Yr Athro Tony Atkins, BSc, MA, Ph.D., Sc.D., FIMechE, FIMMM, C.Eng, FR.Eng * (ymddeolodd 31 Mawrth 2018)
Carys Howell
Jessica Seaton
Rachel Hughes, MBA FInstLM #
Michael Prior, BA Cyfreithiwr *
Dr Catherine Duigan
Hywel John, FCA #

**Penodwyd gan Amgueddfa Cymru**
Dr Hywel Ceri Jones, CMG
Y Farwnes Kay Andrews, OBE #
Keshav Singhal, FRCS, M.Ch. (ymddeolodd 31 Mawrth 2018)
Victoria Provis, MBA
Yr Athro Robert Pickard, BSc, Ph.D, FRSB *
Dr Glenda Jones, BA (Anrh), Ph.D #

* Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio	# Aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad

**Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Archwilio**
Dr Eurfyl ap Gwilym (Cadeirydd) (ymddeolodd 31 Mai 2018)
Rheon Tomos, BA, IPFA
Sara Williams, LLB (Anrh)

**Y GYFARWYDDIAETH** (O 1 Ebrill 2017 ymlaen)

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cyffredinol | David Anderson |
| Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Steve Burrow (o 21 Mai 2018) |
| Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | Janice Lane |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol | Neil Wicks |
| Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu | Nia Williams |
| Cyd Gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Diane Gwilt (tan 31 Mai 2018) |
| Cyd Gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | Richard Bevins (tan 31 Mai 2018) |
| Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau | Stephanos Mastoris (tan 30 Mehefin 2017) |

Mae Neil Wicks yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol hefyd.

Datgelir manylion trafodion â phartïon cysylltiedig sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr neu Ymddiriedolwyr, gan gynnwys rhoddion gan Ymddiriedolwyr, yn nodyn 24 i'r Cyfrifon.

**BWRDD MENTRAU AOCC CYF.** (O 1 Ebrill 2017 ymlaen)

Chris Jackson (Cadeirydd)
Richard Gloster
Richard Nash
David Anderson
Karen James-Watkins (ymddiswyddodd 21 Ebrill 2017)
Neil Wicks
Jessica Seaton
Yvonne Ruelle (Ysgrifennydd y Cwmni)

## Fformat y Cyfrifon

Caiff y cyfrifon eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau (FRS102).

Mae canlyniadau masnachu'r is-gwmni sy'n llwyr eiddo i Amgueddfa Cymru, sef Mentrau AOCC Cyfyngedig, wedi'u hymgorffori yn ffigurau cyfunol Amgueddfa Cymru. Y cwmni hwn sy'n gweithredu holl weithgareddau masnachu Amgueddfa Cymru. Mae ein cyfran o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf.), sef 50%, yn rhan o'r ffigurau cyfunol hefyd. Dyma fenter ar y cyd, sy'n gyfyngedig trwy warant, gyda Dinas a Sir Abertawe a'i phrif bwrpas oedd datblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn y ddinas honno.

## Yr Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio'r cyfrifon yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae manylion tâl yr archwilwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 yn nodyn 7 i'r cyfrifon.

## Pencadlys

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP yw pencadlys Amgueddfa Cymru.

## Prif Ymgynghorwyr

| | |
|---|---|
| Bancwyr: | Banc Lloyds PLC, Caerdydd |
| Cyfreithwyr: | Geldards LLP, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol: | RSM Assurance Services LLP, Caerdydd |
| Rheolwyr Buddsoddi: | Barclays, Caerdydd |
| Trethiant: | Deloitte & Touche LLP, Caerdydd |
| Gweinyddwyr y Gronfa Bensiwn: | BBS Consultants and Actuaries Ltd, Bryste |

## 2.1.2 Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, mae'n rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Lywodraeth Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt ddangos darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru a'i hadnoddau net i mewn, enillion a cholledion wedi a heb eu gwireddu, a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau FRS102 a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, yn enwedig:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifyddu Amgueddfa Cymru. Mae'r Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Amgueddfa Cymru, ac am baratoi adroddiad blynyddol a chyfrifon sy'n deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad sy'n anhysbys i archwilwyr Amgueddfa Cymru, ac maent wedi cymryd yr holl gamau disgwyliedig er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, ac er mwyn sicrhau bod archwilwyr Amgueddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## 2.1.3 Datganiad Llywodraethu Blynyddol

### 1. Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal fframwaith llywodraethu a system o reolaeth fewnol gadarn sy'n helpu i gyflawni ein polisïau, amcanion a gweledigaeth fel y pennwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a hynny wrth ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo o ran Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

### 2. Diben y Fframwaith Llywodraethu

Diben y fframwaith llywodraethu, sy'n ymgorffori'r system rheolaeth fewnol, yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; nid yw felly'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond yn hytrach mae'n cynnig lefel resymol o sicrwydd. Mae'r fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar broses barhaus o nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ein polisïau, ein nodau a'n hamcanion, pwyso a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn o ddigwydd a'u heffaith petaent yn digwydd, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r fframwaith llywodraethu'n gweithredu gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Er mwyn ategu'r fframwaith llywodraethu, rydym yn cyflwyno Fframwaith Safonau a Llywodraethu Corfforaethol i'r Ymddiriedolwyr sy'n egluro awdurdod a phwerau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r pwerau hynny sydd wedi'u dirprwyo i Bwyllgorau, cyfarwyddwyr a staff. Hefyd, mae gennym bolisïau twyll a chwythu'r chwiban sy'n destun adolygiad archwilio.

### 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae ein trefniadau llywodraethu'n cydymffurfio'n llawn â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Lywodraethu Genedlaethol ac a gymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw dyledus i ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Yn yr adroddiad hwn mae adroddiad cynhwysfawr ar gyflawni budd o'r fath, fel yr amlinellir yn ein nodau a'n hamcanion.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb o'r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Disgrifir y fframwaith er mwyn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith i gyflawni egwyddorion craidd llywodraethu effeithiol.

3.1 Canolbwyntio ar Ddiben Amgueddfa Cymru ac ar Ganlyniadau (Rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf; Sicrhau Gwerth am Arian)

2017/18 oedd trydedd flwyddyn ein gweledigaeth ddeng mlynedd newydd o 'Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau'. Trwy'r weledigaeth hon ein pwrpas yw: trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles, i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog ac i ddeall lles Cymru yn y byd ehangach.

Mae ein Datganiad Llesiant, sydd ar gael ar ein gwefan, yn esbonio sut fydd ein gweledigaeth a'n Hymrwymiadau'n cyfrannu at y saith nod llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut rydym yn ymroi i gyflawni ein hamcanion trwy'r pum ffordd o weithio yn y Ddeddf honno.

Defnyddir cyfres o ddangosyddion ansoddol a meintiol a fframwaith metrigau'r weledigaeth i fonitro ein perfformiad yn erbyn yr amcanion. Mae'r Cynllun Gweithredol a metrigau cysylltiedig y weledigaeth yn cael eu monitro gan y Cyfarwyddwyr ac mae cynnydd yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Monitro'r Cynllun Gweithredol bob chwarter a'i gyflwyno i gyfarfodydd chwarterol y Gweithgor Cyfunol, y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a Llywodraeth Cymru. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn derbyn yr wybodaeth gan y rhain bob chwarter yn Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sy'n crynhoi perfformiad y chwarter.

### 3.2 Ymddiriedolwyr a Swyddogion yn Cydweithio i Sicrhau Diben Cyffredin gyda Rolau a Swyddogaethau Clir

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu, rheolaeth ariannol ac asedau'r sefydliad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gyhoeddus i drafod ei fusnes.

Mae Aelodau o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Elusen yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru, yn unol â'r niferoedd a nodir yn y Siarter Frenhinol atodol ac yn unol ag egwyddorion dethol agored fel yr argymhellir gan Adolygiad Nolan. Sefydlwyd Is-bwyllgor Penodiadau er mwyn cynorthwyo a chynghori ar y broses. Mae pob aelod newydd a benodir yn dilyn rhaglen ymsefydlu, ac yn derbyn dogfen Fframwaith Safonau a Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys llawlyfr Ymddiriedolwyr, yn fuan ar ôl cael ei benodi. Ni dderbyniodd yr un aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr dâl yn ystod y flwyddyn. Cedwir manylion eu swyddi cyfarwyddwyr cwmni ac unrhyw fuddiannau arwyddocaol eraill mewn Cofrestr Buddiannau, sy'n agored i'r cyhoedd ac a gedwir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.


Mae rhestr o aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys ymddeoliadau a phenodiadau newydd, wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn adran 2.1.1 o'r Adroddiad Ariannol hwn. Mae'r rhestr yn nodi hefyd pa Ymddiriedolwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio. Dangosir cofnod o bresenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr isod. Cafwyd esboniadau boddhaol am bob absenoldeb.



| Ymddiriedolwr | 29/06/17 | 28/09/17 | 14/12/17 | 15/03/18 | Nifer y cyfarfodydd | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Elisabeth Elias | | | | Ymddeol 31/12/17 | 3 | 100% |
| Carol Bell | | | | Ymddih | 4 | 75% |
| Laurie Pavelin | | Ymddih | | | 4 | 75% |
| Glenda Jones | | | | Ymddih | 4 | 75% |
| Hywel Ceri Jones | | Ymddih | | | 4 | 75% |
| Jessica Seaton | | | | | 4 | 100% |
| Kay Andrews | | | Ymddih | | 4 | 75% |
| Keshav Singhal | | Ymddih | Ymddih | | 4 | 50% |
| Rachel Hughes | | | | Ymddih | 4 | 75% |
| Robert Pickard | | | | | 4 | 100% |
| Tony Atkins | | Ymddih | | | 4 | 75% |
| Victoria Provis | | | | | 4 | 100% |
| Michael Prior | | | | | 4 | 100% |
| Catherin Duigan | | | | | 4 | 100% |
| Hywel John | | | | | 4 | 100% |
| Carys Howell | | Ymddih | | | 4 | 75% |

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dirprwyo rhywfaint o awdurdod i is-bwyllgorau amrywiol, yn bennaf y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, sydd â chylch gwaith eang o fonitro materion ariannol, gweithredol a pherfformiad, a'r Pwyllgor Archwilio, sydd â chadeirydd annibynnol ac aelodau annibynnol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod bob chwarter ac yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Cylch Gorchwyl yn diffinio cylch gwaith a chyfrifoldebau pob pwyllgor yn glir.

Dangosir y berthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau isod:




Mae'r Ymddiriedolwyr yn penodi Bwrdd Mentrau AOCC Cyf. hefyd, yr is-gwmni sy'n llywio ein gweithgareddau masnachu. Yn ogystal â chyfarwyddwyr sy'n Ymddiriedolwyr, mae cyfarwyddwyr anweithredol eraill sydd â phrofiad masnachol perthnasol yn cael eu penodi. Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn adran 2.1.1 o'r Adroddiad Ariannol yn cynnwys rhestr o'r Aelodau hynny o'r Bwrdd.

Yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cynnwys y cyfarwyddwyr, sy'n arwain a rheoli materion gweithredol beunyddiol, ac mae eu manylion i'w gweld yn yr adroddiad hwn hefyd. Penodir yr holl Gyfarwyddwyr trwy gystadleuaeth agored ac maent yn cael eu cyflogi dan Delerau ac Amodau Cyflogaeth safonol, sy'n berthnasol i'r holl staff ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff telerau penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru.

## 3.3 Hyrwyddo Gwerthoedd Amgueddfa Cymru ac Arddangos Gwerthoedd Llywodraethu Da Trwy Gynnal Safonau Uchel o Ymddygiad ac Ymarweddiad

Rydym yn cefnogi saith egwyddor bywyd cyhoeddus yr Arglwydd Nolan ac yn cymeradwyo Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd ac yn ymroi i sicrhau bod ein holl weithwyr ac Ymddiriedolwyr yn dilyn yr egwyddorion hyn. Disgwylir i'r holl Ymddiriedolwyr gydymffurfio'n llawn â'n Cod Ymddygiad, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant cynefino corfforaethol, sy'n darparu gwybodaeth am bob math o bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, y Gymraeg, cydraddoldeb a rheoli gwybodaeth. Mae'r Rheoliadau Ariannol, polisïau a gweithdrefnau ar gael ar ein Mewnrwyd i bob aelod o staff. Rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i gynnig cyfleoedd datblygu a hyfforddi (ffurfiol ac anffurfiol) i weithwyr. Mae gennym broses Adolygu a Datblygu Perfformiad, sy'n darparu adolygiad strwythuredig i staff o'u hamcanion personol, eu perfformiad yn erbyn yr amcanion hynny a'r cyfle i nodi anghenion a dyheadau datblygu.





Rydym yn annog gwirfoddolwyr, profiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau. Mae'r holl wirfoddolwyr yn dilyn rhaglen gynefino sy'n cynnwys iechyd a diogelwch perthnasol i'r rôl a'r adran y maent yn gwirfoddoli ynddi.

Disgwyliwn i bob aelod o staff ymddwyn yn onest a chywir bob amser, a diogelu'r adnoddau cyhoeddus sydd dan ei ofal. Rydym yn ystyried twyll neu ladrad o unrhyw fath – faint bynnag ei werth – yn gwbl annerbyniol, ac mae'r polisïau canlynol ar waith i atal achosion o'r fath ac i ymdrin â hwy.

- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Twyll a Llygredd
- Polisïau Adnoddau Dynol ar ddisgyblu staff sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath.

O dan y Polisi Twyll a Llygredd, cyfrifoldeb rheolwyr llinell a chyfarwyddwyr yw sicrhau bod ganddynt system reolaeth fewnol ddigonol yn eu meysydd cyfrifoldeb a bod dulliau rheoli'n gweithredu'n effeithiol.

Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod y flwyddyn o dan ein Polisi Chwythu'r Chwiban. Bydd ein polisïau ar Chwythu'r Chwiban a Thwyll a Llygredd yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo nesaf gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2019, yn unol â'r cylch adolygu arferol tair blynedd.

Mae gennym God Ymarfer ar gyfer Cwynion, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion. Ymchwilir yn llawn i bob agwedd ar gwynion, a chaiff camau unioni addas eu nodi a'u gweithredu, gan gynnwys newidiadau i weithdrefnau lle y bo'n briodol.

Yn 2017/18, ymwelodd 1.8 miliwn o bobl â'r amgueddfeydd. Rydym yn ystyried diogelwch staff ac ymwelwyr o ddifrif ac mae gennym gyfres o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi hyn.

## 3.4 Gwneud Penderfyniadau Clir a Gwybodus Sy'n Destun Proses Graffu a Rheoli Risg Effeithiol

Mae'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'n swyddogaethau wedi'i nodi'n glir yn y Siarter Frenhinol. Mae'n disgrifio'r swyddogaethau a'r berthynas rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Phwyllgor yr Ymddiriedolwyr a dirprwyo swyddogaethau i swyddogion gweithredol eraill.

Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gwneud pob penderfyniad ar sail adroddiadau ac ystyriaeth o'r goblygiadau cyfreithiol ac ariannol a'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn gyfarfodydd cyhoeddus a chyhoeddir cofnodion ar ein gwefan i sicrhau tryloywder.

### 3.4.1 Rheoli Risg

Cyfrifoldeb y cyfarwyddwyr a'r penaethiaid adran yw rheoli risg o ddydd i ddydd, a chaiff adolygiadau ac asesiadau ffurfiol eu cynnal yn rheolaidd gan y Grŵp Rheoli Risg. Mae'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar yr adolygiadau hyn. Trwy fanteisio ar brofiad yr Archwilwyr Mewnol, sy'n mynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, caiff y broses ei diwygio'n rheolaidd.

Mae'r Polisi Rheoli Risg yn egluro'r fframwaith a swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg, ynghyd â chanllawiau ar adnabod, asesu, monitro a rheoli risg. Sefydlwyd y Polisi, gyda chymorth yr Archwilwyr Mewnol, gan gyfeirio'n benodol at Lyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi ar reoli risg a llawlyfr Llywodraeth Cymru ar reoli risg – Hanfodion Risg. Cafodd y polisi ei adolygu a'i gadarnhau yn ystod 2016/17.

Mae Grŵp Rheoli Risg trawsadrannol penodedig yn cynnal adolygiad Rheoli Risg trylwyr, gan edrych ar gynnydd ac effeithiolrwydd y dulliau rheoli risgiau mawr. Mae'r grŵp yn cadw Cofrestr Risg Strategol, gan flaenoriaethu'r holl risgiau yn ôl y tebygolrwydd y gallai'r risg ddigwydd a'i heffeithiau posibl. Mae'r grŵp yn adolygu Cofrestri Risg Cyfadrannol yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â phob cyfarwyddwr a phennaeth adran ynghylch newidiadau i fygythiadau posibl, a sicrhau bod trefniadau rheoli risg wedi bwrw gwreiddiau ar draws y sefydliad cyfan. Mae nodi a rheoli risgiau yn eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd cyfadrannol a chyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli hefyd. Cedwir Cofrestri Risg ar wahân ar

gyfer yr is-gwmni masnachu, y cwmni menter ar y cyd, y Cynllun Pensiwn a gydol oes pob project mawr. Ar ddiwedd project, caiff y Gofrestr Risg ei hasesu a chaiff pob risg sy'n parhau ei throsglwyddo i'n prif gofrestrau.

Mae'n bosibl y gofynnir i'r grŵp ystyried risgiau posibl penodol hefyd a nodir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. Hefyd, mae'r pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio'n adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Strategol a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y Grŵp, yn ogystal â chamau lliniaru a gymerir yn erbyn y risgiau mwyaf.

Mae aelodau'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n gymorth i allu ystyried materion sy'n peri pryder mewn cyrff eraill. Mae rhaglen waith yr Archwilydd Mewnol yn croesgyfeirio'n benodol at y risgiau a nodwyd, a hefyd yn cael ei llywio gan y Gyfarwyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio.

Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol o'n Fframwaith Rheoli a Sicrhau Risg yn ystod 2017/18, a ddaeth i'r casgliad fod gennym broses rheoli risg sydd wedi'i chynllunio a'i hymgorffori'n dda ac y gallai'r Bwrdd fod yn sicr iawn bod y rheolaethau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli'r maes hwn wedi'u cynllunio'n briodol, wedi'u rhoi ar waith yn gyson a'u bod yn gweithredu'n effeithiol. Cytunodd y Grŵp Rheoli Risg ar dempled cofrestr risg newydd ym mis Mawrth 2017, a chwblhawyd y gwaith o ail-eirio'r risgiau ar y Gofrestr Risg Strategol cyn eu trosglwyddo i'r templed newydd ym mis Ebrill 2017. Mae'r Cofrestri Risg Isadrannol wedi'u trosglwyddo i'r templed newydd yn 2017/18 hefyd.

Mae bygythiadau i ddiogelwch ein holl asedau yn risg sylfaenol, sy'n gofyn am gamau lliniaru. Y risg sylweddol arall yw erydiad y cyllid sydd ar gael mewn termau real, sy'n cael ei liniaru gan raglen cynhyrchu incwm. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, y Grŵp Rheoli Risg a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

#### 3.4.2 Diogelwch Gwybodaeth

Mae gennym weithdrefnau diogelwch gwybodaeth i sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd gwybodaeth sy'n cael ei chadw a'i phrosesu gennym, a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn eu plith, mae'r canlynol:

- y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am awdurdodi a rheoli'r holl gyfryngau symudol
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Diogelu Data
- canllawiau a pholisi ar ymdrin â gwybodaeth a roddir i bob aelod o staff
- parhau i gydymffurfio'n statudol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a deddfau Diogelu Data, ac adrodd am hynny
- y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ac yn adolygu'r trefniadau trin data.

Yn ystod y flwyddyn penodwyd Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth, swydd newydd i'r sefydliad.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad blynyddol mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

Cafodd ein polisïau a'n gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth eu hadolygu fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer ardystiad Cyber Essentials Plus/IASME.

Rydym wedi parhau i baratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018, yn cynnwys diweddaru polisïau a gweithdrefnau, hyfforddi staff, cwblhau ymarfer darganfod data i nodi data personol a gedwir a gweithredu log mynediad diawdurdod at ddata.

Fe wnaethom gyflwyno adroddiad am un digwyddiad yn ymwneud â data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2017/18, oedd yn ymwneud ag anfon hysbysiadau talu yn cynnwys manylion cyfrif banc unigolion at y bobl anghywir, yn sgil camgymeriad gan y system gyllid. Rhoddwyd gwybod i'r bobl dan sylw ar unwaith ac rydym wedi diweddaru templedi a gweithdrefnau'r system er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi mynegi na fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach.



Mae Stôr, sef ein system rheoli dogfennau a chofnodion electronig, yn darparu storfa ar gyfer dogfennau corfforaethol, cyllid a TG ac mae gwaith ar droed i'w gyflwyno mewn mwy o feysydd yn cynnwys Adnoddau Dynol, Pensiwn ac Iechyd a Diogelwch. Mae Stôr yn darparu:

- strwythur gwybodaeth safonol er mwyn cynnal diogelwch angenrheidiol gan sicrhau bod ein data ar gael i bob aelod o staff a chymunedau defnyddwyr
- darparu ymateb syml, cyflym ac awdurdodol i ymholiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.

### 3.5 Datblygu Capasiti a Gallu Ymddiriedolwyr a Swyddogion i Fod yn Effeithiol

Llywodraeth Cymru ac Amgueddfa Cymru sy'n penodi'r Ymddiriedolwyr. Darperir cynllun cynefino ffurfiol i'r Ymddiriedolwyr ar ôl eu penodi. Rhoddir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn.

Mae pob aelod o'r Bwrdd yn cwrdd â'r Llywydd yn ffurfiol fel rhan o broses adolygu bob yn ail flwyddyn, ac mae'r Llywydd wedyn yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r system rheoli ariannol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Caiff hyn ei lywio gan ein Dogfen Fframwaith, arferion gorau a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'n cynnwys:

- rhagfynegi a monitro cyllidebau, gydag adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n nodi'r gwariant gwirioneddol a'r rhagolygon gwariant yn erbyn cyllidebau
- cynlluniau gwariant cyfalaf ac wedi'u diffinio'n glir
- disgyblaethau rheoli projectau ffurfiol
- ymgynghoriadau rheolaidd a chynnwys archwilio mewnol gydol y broses o ddatblygu neu gyflwyno newidiadau i systemau
- cysylltiad agos â'r archwilwyr allanol
- gofyn am gyngor arbenigol lle y bo'n briodol
- adroddiadau rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, is-bwyllgorau a Llywodraeth Cymru
- adolygiadau rheoli cyson.

### 3.6 Ymgysylltu â Phobl Leol a Rhanddeiliaid Eraill i Sicrhau Atebolrwydd Cyhoeddus Cadarn

Rydym yn gweithredu rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn unol â'r Siarter Frenhinol a'n Cynllun a Pholisi Ymgynghori.

Yn unol â'n Strategaeth Ymgysylltu â Chymunedau a'r egwyddor cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rydym wedi datblygu a darparu rhaglenni cyhoeddus ar y cyd â thros 70 o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector. Mae enghreifftiau eleni'n cynnwys:

- Darparu Rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru sy'n ceisio grymuso pobl, yn enwedig pobl sydd mewn tlodi, i gymryd rhan yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth.
- Datblygu ac arddangos *Penderfyniad Pwy?*, arddangosfa gelf a gafodd ei churadu ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau o'r Wallich, elusen ar gyfer pobl ddigartref yng Nghymru.
- Hwyluso fforymau ymgysylltu yn cynnwys Fforwm Amrywiaeth, Fforwm Athrawon a Fforwm Addysg i Oedolion i lywio'n rhaglenni cyhoeddus a gwirfoddoli.
- Datblygu Hands on Heritage, menter gyda chonsortiwm o'n fforymau ieuenctid a phedwar sefydliad partner craidd.
- Hwyluso fforymau ieuenctid ym mhob amgueddfa, fel y gall pobl ifanc gymryd rhan yn ein gwaith.

Rydym yn cydweithio ag amrywiaeth o gyrff cenedlaethol fel rhan o'n gwaith o gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein Strategaeth Gyfathrebu wedi'i chynllunio i hyrwyddo'r sefydliad, ein gweledigaeth, ein hamcanion a'n blaenoriaethau. Rydym yn defnyddio mwy a mwy ar rwydweithiau cymdeithasol, gan gynnwys Twitter a Facebook, i gyfathrebu â chynulleidfaoedd targed. Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo gweithgareddau a'n gwaith.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu mewnol ac yn parhau i roi'r Cynllun Cyfathrebu Mewnol

ar waith. Rydym yn darparu gwybodaeth i staff yn electronig a wyneb yn wyneb hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at benderfyniadau ac yn ymwybodol ohonynt.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig ac wedi datblygu fframwaith ar gyfer ein cyfarfodydd eleni. Er enghraifft, rydym yn cynnal cyfarfodydd strategol chwarterol, cyfarfodydd polisi misol a grwpiau gorchwyl a gorffen i sicrhau ein bod ni'n ymgynghori'n effeithiol â'n hundebau masnach cydnabyddedig yn ystod y flwyddyn. Mae cynrychiolwyr undebau'n parhau i fynychu Pwyllgor Gweithredol y Staff ar gyfer Adnoddau Dynol ac Ariannol.

Mae gennym gynllun cyhoeddiadau a gall rhanddeiliaid weld amrywiaeth eang o gyhoeddiadau, polisïau a gweithdrefnau yn ogystal â chofnodion y Bwrdd a datganiadau ariannol ar ein gwefan.

## 4. Adolygu Effeithiolrwydd

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sef y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol a threfniadau chwythu'r chwiban. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, cynghorwyr proffesiynol eraill a'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, yn llywio'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. Mae sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill yn llywio'r adolygiad hefyd.

Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifyddu am effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan yr Ymddiriedolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cyfarwyddwyr, ac mae cynlluniau i fynd i'r afael â materion a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system ar waith. Darperir rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn yn adran 5, Materion Llywodraethu a Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol isod, sy'n nodi hefyd na chododd unrhyw faterion sylweddol yn ymwneud â llywodraethu neu reolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

Caiff holiaduron gwerthuso eu llenwi gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn, ac fe'u cwblhawyd yn 2017/18. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd y sgôr cyfartalog ar draws pob rhan o holiadur y Bwrdd a oedd yn dweud 'cytuno'n gryf / cytuno' yn 90%. Roedd y meysydd a drafodwyd yn cynnwys cylch gwaith, strategaeth ac amcanion; rheoli perfformiad ac ariannol; rheoli risg; perthynas â rhanddeiliaid allanol; llywodraethu corfforaethol; trefn y Bwrdd a Phwyllgorau; datblygiad a hyfforddiant proffesiynol; ac Ystafell y Bwrdd. Mae meysydd y mae'r Bwrdd yn eu hystyried yn ymwneud ag arddull a fformat adroddiadau; nodi rhanddeiliaid allweddol yr Amgueddfa fel rhan o'r adroddiad blynyddol; hyrwyddo dogfen Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Safonau; sicrhau bod yna ddilyniant yn amrywiaeth aelodau'r Bwrdd yn ystod y cylch recriwtio nesaf; a rhannu sgiliau rhwng y Bwrdd a'r Weithrediaeth. Yn gyffredinol, roedd y rhai a atebodd holiadur y Pwyllgor Archwilio'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â 96% o'r datganiadau, a oedd yn cwmpasu egwyddorion arfer da, rôl y Cadeirydd a chymorth i bwyllgorau.

Rydym wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal fframwaith llywodraethu effeithiol a system rheolaeth fewnol effeithiol:

- Rheoliadau ariannol, polisïau a threfniadau gweinyddol manwl gan gynnwys didoli dyletswyddau a gwahanol lefelau o awdurdod dirprwyedig; systemau cyllido cynhwysfawr; a chanllawiau rheoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir a'u monitro.
- Prosesau rheoli mewnol megis monitro ac adrodd am berfformiad, cyfarfodydd adrannol a briffiau cyfarwyddwyr.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio'n ystyried cwmpas y rhaglen archwilio fewnol ac yn derbyn adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried cofnodion y cyfarfod a hefyd adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol.
- Adroddiadau rheolaidd gan yr Archwilydd Mewnol gan gynnwys ei farn annibynnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.
- Adroddiad blynyddol gan yr Archwilydd Mewnol. Ar sail gwaith archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, daeth yr Archwilydd Mewnol i'r casgliad fod gennym fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol digonol ac effeithiol, ond mae angen rhagor o welliannau er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn ddigonol ac effeithiol.
- Mae'r Archwilydd Mewnol yn cynnal adolygiad o gydymffurfiaeth gydag egwyddorion y Cod Llywodraethu Da ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru bob tair blynedd; cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ddechrau 2017/18 a gadarnhaodd ein bod yn cydymffurfio â'r Cod.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ein harchwilydd allanol, yn darparu Llythyr Rheoli sy'n crynhoi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â'r datganiadau ariannol. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu hyn ac yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Mae ffynonellau sicrwydd eraill yn cael eu hystyried gan gynnwys adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau, Arolygwyr Treth Tirlenwi, Arolygiaeth Diogelwch Pyllau Glo a Buddsoddwyr mewn Pobl.

## 5. Materion Llywodraethu a Gwelliannau ar gyfer y Dyfodol

Ni chododd unrhyw faterion llywodraethu neu reolaeth fewnol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn. Cefnogir hyn gan Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol.

Yn ystod 2017/18, fe wnaethom barhau i weithredu ein gweledigaeth ddeng mlynedd, y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ym mis Mawrth 2015. Yr her i ni yw cyflawni'r weledigaeth yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac, yn benodol, y gostyngiadau yn y cymorth grant gan Lywodraeth Cymru a'r diffyg sicrwydd ynghylch lefelau cymorth grant yn y dyfodol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn:

- sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael ei hintegreiddio ar draws y sefydliad
- adolygu ein strwythurau ymhellach i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth newydd o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- treialu proses ar gyfer cwblhau Datganiadau Sicrwydd Cyfarwyddwyr Blynyddol, a fydd yn cyfrannu at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- parhau i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a chyflawni prosiectau incwm masnachol
- cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
- parhau i weithredu'r Strategaeth Adnoddau Dynol
- datblygu a gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi a Datblygu
- gwella prosesau ar draws y sefydliad, gan gynnwys gweithredu systemau newydd
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data newydd
- cyflawni gwaith ailddatblygu Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
- parhau i weithredu'r Rhaglen Gwaith Cynnal a Chadw Hanfodol.

## 6. Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn i ddod, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i gyflwyno gwelliannau a byddwn yn monitro'r dulliau o'u cyflwyno a'u gweithredu fel rhan o'n hadolygiad nesaf.

*David Anderson*
Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2018

*Laurie Pavelin*
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2018





Adroddiad Ariannol 2017/18

## Adran 2.2: Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth a Staff

**Cyfle Cyfartal**

Mae gennym amrywiaeth o bolisïau sy'n cefnogi ein cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n rhoi Dyletswydd Gyffredinol statudol ar bob sefydliad yn y sector cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod mewn cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Yn 2017/18 aethom ati i adolygu'n Strategaeth Gydraddoldeb a'n Hamcanion Cydraddoldeb. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant i staff ac ymwelwyr.

Rydym wedi parhau i gyflwyno sesiynau hyfforddi a datblygu ar Urddas yn y Gwaith a Herio Heb Wynebu i staff. Darparwyd hyfforddiant ar gydraddoldeb hefyd, er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella'r gwasanaeth a gynigir. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau wedi'u darparu gan Open up to Autism a Stonewall, ac mae nifer o staff wedi'u hyfforddi fel Cyfeillion Dementia.

Eleni eto, cynhaliwyd digwyddiadau megis mis Hanes LGBT a Mis Hanes Pobl Dduon gyda digwyddiadau llwyddiannus wedi'u cynnal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Sain Ffagan. Rydym hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid cymunedol ar y fenter 'Mwy a Gwell' a ariennir gan Sefydliad Paul Hamlyn.

**Polisïau ar gyfer Gweithwyr Cyflogedig Anabl**

Mae gennym gynllun gwarantu cyfweliad sy'n anelu at drin ymgeiswyr anabl yn gyfartal yn y broses recriwtio. Bydd unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd yn cael ei wahodd yn awtomatig i gyfweliad.

Mae gennym bolisïau ar waith i gefnogi gweithwyr cyflogedig anabl i wneud cais am addasiadau rhesymol yn y gweithle. Os bydd unrhyw nodwedd ffisegol o'r gweithle yn rhoi aelod anabl o staff dan anfantais sylweddol o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, gellir gwneud cais er mwyn rhoi camau ar waith i atal hyn. Gellir gwneud trefniadau gan gynnwys, er enghraifft, newidiadau i batrymau gwaith, cynnwys neu ddyluniad y swydd, cynllun ystafell a math o ddodrefn, a chyfarpar neu feddalwedd TG arbenigol.

Mae ein Polisi Hyfforddi a Datblygu ar gael i bob aelod o staff beth bynnag yw eu nodweddion gwarchodedig. Gellir gwneud addasiadau rhesymol hefyd i ddileu rhwystrau ar gyfer cyfranogi yn ein rhaglenni dysgu a datblygu i staff.

**Ymgynghori â Staff**

Rydym yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau Gwybodaeth ac Ymgynghori 2005 gan ymgynghori â staff, yn uniongyrchol a thrwy undebau cydnabyddedig, ar newidiadau mawr yn y sefydliad. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Staff misol rhwng y rheolwyr a chynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig i drafod materion o bwys, ac adroddir yn ffurfiol ar gofnodion y cyfarfodydd hyn i'r Uwch Dîm Rheoli. Eleni, cyflwynwyd y Fforwm Iechyd a Diogelwch hefyd sy'n cynnwys cynrychiolwyr iechyd a diogelwch yr undebau llafur a rheolwyr allweddol o wahanol adrannau'r sefydliad.

Mae cynrychiolwyr yr undebau a gydnabyddir gennym yn bresennol yng nghyfarfodydd misol Grŵp Gweithredol y Staff, gan sicrhau amgylchedd clir ac agored. Ategir y gofyniad cyfreithiol hwn i ymgynghori gan amrywiol ddulliau, er enghraifft cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adran, gweithgorau, gohebiaeth dros yr e-bost a'r Fewnrwyd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel y bo'n briodol.

Rydym wedi parhau i ymgynghori â staff ac undebau llafur ar newidiadau i'r sefydliad yn cynnwys mentrau newydd fel achrediad corfforaethol Buddsoddwyr mewn Pobl a newidiadau i bolisïau. Y blaenoriaethau yn 2017/18 oedd cwblhau'r adolygiad o waith penwythnos ar gyfer staff blaen tŷ a datblygu cytundeb cyfleusterau ar gyfer cynrychiolwyr undebau llafur.

Cynhaliwyd sesiynau briffio rheolaidd yn ein holl amgueddfeydd er mwyn hysbysu staff am waith ledled y sefydliad yn dilyn pob cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn anfon gohebiaeth reolaidd at y staff.





**Hyfforddi Staff**

Rydym yn parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddarparu cyfleoedd datblygu a hyfforddiant (ffurfiol ac anffurfiol) i'n gweithwyr cyflogedig. Rydym wedi clustnodi statws Buddsoddwyr mewn Pobl fel ffon fesur allanol hollbwysig o'r ymrwymiad hwn. Yn dilyn gweithdai a gynhaliwyd gyda'r Uwch Dîm Reoli a'r Penaethiaid Adran, penderfynwyd gweithio tuag at achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ledled Amgueddfa Cymru. Anfonwyd arolwg IiP40 at bob aelod o staff ym Mehefin 2018 a bydd yn llywio'r meysydd blaenoriaeth i'w datblygu wrth i ni baratoi at ein hasesiad.

Yn ystod 2017/18 cynigiwyd hyfforddiant i'r staff mewn amrywiaeth eang o feysydd. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu arweiniad a rheoli, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant seiliedig ar sgiliau. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau mewn meysydd fel urddas yn y gwaith, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac iechyd a diogelwch i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gysylltiedig, yn ogystal â chyfleoedd datblygu personol yn ôl yr angen.

Cynigir prentisiaethau yn Big Pit i hyfforddi Tywysyddion Pyllau Glo, ac yn yr Adran Ystadau a'r Uned Adeiladau Hanesyddol yn Sain Ffagan i fynd i'r afael â phrinder sgiliau ac i weithredu cynlluniau olyniaeth yn y meysydd hyn.

**Data ar Absenoldeb Salwch**

Mae gennym bolisïau i gefnogi'r gwaith o reoli absenoldeb o'r gwaith ac ystyrir bod unrhyw absenoldeb dros 28 diwrnod yn olynol yn absenoldeb tymor hir. Mae pob absenoldeb yn cael ei gofnodi a'i fonitro gan reolwyr llinell a'r Adran Adnoddau Dynol. 5.08% oedd lefel yr absenoldeb ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2018 (5.5% yn 2016/17). Darparwyd hyfforddiant gloywi i reolwyr llinell i fynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb uchel.

I gefnogi ein prosesau rheoli absenoldeb o'r gwaith ac i hybu lles ein staff, rydym yn darparu Rhaglen Cymorth i Staff, sef gwasanaeth annibynnol a chyfrinachol am ddim sydd ar gael i bob aelod o staff. Mae'n cynnig cyngor, gwybodaeth, cwnsela arbenigol a chefnogaeth. Ymhlith y gwasanaethau a gynigir, mae cwnsela dros y ffôn, adnoddau i reolwyr, gwybodaeth a chyngor am ystod eang o faterion, cwnsela wyneb yn wyneb a gwasanaeth gwybodaeth ar-lein.

**Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth**

Mae gennym system gyflogau a graddfeydd y cytunwyd arnynt ac a gyflwynwyd er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn i bawb. Mae'n cwmpasu pob gweithiwr, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n cytuno ar delerau ac amodau ei benodiad ef.

Bob blwyddyn, rydym yn ystyried ein pecyn cyflogau ac yn datblygu cynnig cylch cyflog a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ac sy'n sail i drafodaethau gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae pecyn cyflogau ac amodau newydd y sefydliad cyfan yn deillio o hyn. Rhaid cydymffurfio â'r pecyn hwn tan y cylch trafod nesaf. Mae cynyddrannau blynyddol o dan y cylch cyflog yn dibynnu ar y system o adolygiadau datblygiad personol.

Mae cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol a bonws blynyddol posibl. Y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau sy'n cynnwys y Llywydd, yr Is-lywydd, y Trysorydd, a'r Ymddiriedolwyr Victoria Provis a Dr Glenda Jones, sy'n cytuno ar swm unrhyw fonws. Adolygir perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn erbyn amcanion a bennwyd ymlaen llaw. Yna bydd y Pwyllgor yn ystyried y gwerthusiad hwn, gan roi sylw dyledus i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rhestrir y cyfarwyddwyr ar dudalen 15. Mae rhagor o fanylion am eu taliadau a'u buddion pensiwn i'w gweld isod ac mae'r wybodaeth honno'n destun archwiliad. Nid oes unrhyw un o'r Cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, a chyflogir pob un, heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, o dan amodau a thelerau safonol Amgueddfa Cymru. Mae unrhyw newidiadau i amodau a thelerau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau a (lle y bo'n briodol) Llywodraeth Cymru. Nodir y berthynas rhwng taliad y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn y sefydliad a thaliad canolrifol gweithlu'r sefydliad hwnnw isod.

12 mis yw'r cyfnod rhybudd ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a 6 mis fel arfer ar gyfer y Cyfarwyddwyr eraill. Dyma ddyddiadau cychwyn cyflogaeth y Cyfarwyddwyr:

| | |
|---|---|
| David Anderson (Cyfarwyddwr Cyffredinol) | 11 Hydref 2010 |
| Richard Bevins | 1 Medi 2016 (tan 31 Mai 2018) |
| Steve Burrow | 21 Mai 2018 |
| Diane Gwilt | 1 Medi 2016 (tan 31 Mai 2018) |
| Janice Lane | 3 Medi 2012 |
| Neil Wicks | 27 Mehefin 2011 |
| Nia Williams | 17 Hydref 2016 |

Mae ein cytundeb dileu swyddi safonol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal am derfynu swydd yn gynnar. Mae manylion unrhyw daliadau diswyddo a wnaed i weithwyr cyflogedig yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn nodyn 8 i'r cyfrifon.

Mae'r costau gweithredu'n cynnwys £19,000 (£dim yn 2016/17) ar gyfer staff asiantaeth a £5,000 (£1,000 yn 2016/17) ar gyfer staff ymgynghorol. Ni chyflogwyd unrhyw unigolion yn 2017/18 na 2016/17 o dan drefniadau 'oddi ar y gyflogres' am fwy na £220 y dydd ac am gyfnod hwy na chwe mis.

### Manylion tâl a buddion pensiwn y Cyfarwyddwyr

| Cyfanswm Unigol y Taliadau Cydnabyddiaeth | Band cyflog 2017/18 (2016/17) £'000 | Band bonws 2017/18 (2016/17) £'000 | Buddion mewn nwyddau 2017/18 (2016/17) £'000 | Buddion pensiwn 2017/18 (2016/17) £'000 | **Cyfanswm band 2017/18 (2016/17) £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| David Anderson<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 95-100<br>(95-100) | -<br>- | -<br>- | 22<br>(22) | **120-125**<br>(120-125) |
| Neil Wicks<br>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | 80-85<br>(80-85) | -<br>- | -<br>- | 8<br>(13) | **85-90**<br>(90-95) |
| Janice Lane<br>Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 70-75<br>(70-75) | -<br>- | -<br>- | 8<br>(8) | **80-85**<br>(80-85) |
| Stephanos Mastoris<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | 15-20<br>(70-75) | -<br>- | -<br>- | 5<br>(12) | **20-25**<br>(80-85) |
| Richard Bevins<br>Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | 65-70<br>(40-45) | -<br>- | -<br>- | 15<br>(9) | **80-85**<br>(45-50) |
| Diane Gwilt<br>Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | 65-70<br>(40-45) | -<br>- | -<br>- | 8<br>(4) | **75-80**<br>(40-45) |
| Nia Williams<br>Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu | 60-65<br>(26-30) | -<br>- | -<br>- | 6<br>(2) | **65-70**<br>(25-30) |

Mae'r cyfarwyddwyr oll yn aelodau cyffredin o'r cynllun pensiwn. Cyfrifwyd gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl uchod gan ddilyn canllawiau Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 452 Swyddfa'r Cabinet, trwy luosi'r gwir gynnydd mewn pensiwn ag 20 gan ychwanegu'r gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad, heb gynnwys cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Cyflogwyd y cyfarwyddwyr gydol 2016/17 ac 2017/18, ac eithrio:

- Richard Bevins, a ddechreuodd ar ei swydd ar 1 Medi 2016 ochr yn ochr â'i rôl gyfredol fel Ceidwad Gwyddorau Natur. Roedd ei enillion fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn cynnwys y cyflog sylfaenol fel y nodir. Ei gyflog blynyddol fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn 2016/17 oedd rhwng £65,000 a £70,000.
- Diane Gwilt, a ddechreuodd ar ei swydd ar 1 Medi 2016 ochr yn ochr â'i rôl arferol fel Ceidwad Gwasanaethau Casgliadau. Roedd ei henillion fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn cynnwys y cyflog sylfaenol fel y nodir. Ei chyflog blynyddol fel Cydgyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn 2016/17 oedd rhwng £65,000 a £70,000.
- Nia Williams, a ddechreuodd ar ei swydd ar 16 Hydref 2016, gan adael ei rôl flaenorol fel Pennaeth Addysg. Roedd ei henillion fel Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu yn cynnwys y cyflog sylfaenol fel y nodir. Ei chyflog blynyddol fel Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu yn 2016/17 oedd rhwng £55,000 a £60,000.
- Stephanos Mastoris, a adawodd ei swydd ar 30 Mehefin 2017, gan barhau i gael ei gyflogi fel Pennaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Phennaeth Amgueddfeydd. Roedd ei enillion fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro yn cynnwys y cyflog sylfaenol fel y nodir. Ei gyflog blynyddol fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn 2017/18 oedd rhwng £70,000 a £75,000.





Roedd enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £100,000 (£100,000 yn 2016/76) a bonws anghyfunol ar sail perfformiad. Ildiodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei hawl i fonws yn 2017/18 a 2016/17 felly ni ddyfarnwyd unrhyw fonws yn y naill flwyddyn na'r llall.

| Buddion Pensiwn | Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol o ran pensiwn a swm cyfandaliad yn 60 oed £ | Pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2018 a chyfandaliad cysylltiedig £ | CETV ar 31 Mawrth 18 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 17 neu ar ddyddiad penodi os yw'n hwyrach £'000 | Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol CETV ar ben cyfraniadau'r aelodau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| David Anderson<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 0-2,500 a chyfandaliad o 2,500-5,000 | 5,000-10,000 a chyfandaliad o 25,000-30,000 | 236 | 203 | 19 |
| Neil Wicks<br>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol | 0-2,500 a chyfandaliad o 2,500-5,000 | 30,000-35,000 a chyfandaliad o 100,000-105,000 | 595 | 564 | 2 |
| Janice Lane<br>Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad | 0-2,500 a chyfandaliad o 0-2,500 | 20,000-25,000 a chyfandaliad o 70,000-75,000 | 428 | 404 | 7 |
| Stephanos Mastoris<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro | 0-2,500 a chyfandaliad o 0-2,500 | 10,000-15,000 a chyfandaliad o 30,000-35,000 | 225 | 226 | (5) |
| Richard Bevins<br>Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | 2,500-5,000 a chyfandaliad o 7,500-10,000 | 35,000-40,000 a chyfandaliad o 110,000-115,000 | 959 | 908 | 21 |
| Diane Gwilt<br>Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil | 0-2,500 a chyfandaliad o 2,500-5,000 | 20,000-25,000 a chyfandaliad o 70,000-75,000 | 597 | 558 | 19 |
| Nia Williams<br>Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymgysylltu | 0-2,500 a chyfandaliad o 0-2,500 | 10,000-15,000 a chyfandaliad o 35,000-40,000 | 255 | 238 | 6 |

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd a ariannwyd gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithwyr cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall).

Dechreuodd Steve Burrow ar ei swydd fel Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil ar 21 Mai 2018, ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y tablau uchod.

**Nifer y gweithwyr cyflogedig**
Nifer cyfartalog y gweithwyr yn 2017/18, ac eithrio gweithwyr sy'n rhan o'n trefniadau cronfa lafur, oedd 604 (585 yn 2016/17). Y nifer cyfartalog sy'n cynnwys ein gweithwyr o'r gronfa lafur oedd 804 (756 yn 2016/17).

Roedd nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys rhai o'n cronfa lafur, fel a ganlyn:

| | Staff Parhaol | Staff Arall | **Nifer 2017/18** | Nifer 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| Is-gwmni Masnachu | 38 | 7 | **45** | 43 |
| Codi Arian | 7 | 1 | **8** | 7 |
| Addysg ac Ymgysylltu | 37 | 6 | **43** | 57 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 88 | 7 | **95** | 102 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 246 | 44 | **290** | 270 |
| Cymorth | 50 | 5 | **55** | 52 |
| | 466 | 70 | **536** | 531 |

| | Staff Benywaidd | Staff Gwrywaidd | **Nifer 2017/18** | Nifer 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 3 | 3 | **6** | 5 |
| Gweithwyr cyflogedig | 266 | 264 | **530** | 526 |
| | 269 | 267 | **536** | 531 |

Roedd y cynnydd mewn gweithwyr cyfwerth ag amser llawn o dan Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr a'r gostyngiad o dan Addysg ac Ymgysylltu yn deillio o ad-drefnu'r adrannau yn 2017/18.

**Gweithwyr cyflogedig (ac eithrio cyfarwyddwyr) ag enillion dros £60,000**
Roedd chwe gweithiwr cyflogedig (pedwar yn 2016/17) ag enillion rhwng £60,001 a £69,999 ar gyfer y flwyddyn. Mae pob un ohonynt yn aelodau cyffredin o'n cynllun pensiwn. Nid oedd unrhyw weithwyr cyflogedig eraill yn ennill dros £60,000 ac eithrio'r cyfarwyddwyr, a datgelir eu henillion nhw uchod. Mae enillion Stephanos Mastoris wedi'u datgelu yn nhablau Tâl Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr uchod am y cyfnod pan roedd yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro. Roedd ei enillion ar gyfer gweddill y flwyddyn yn is na £60,000.

**Canolrif Tâl**
Mae'n ofynnol i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru nodi'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a chanolrif tâl gweithlu'r sefydliad. Tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sef y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn 2017/18, oedd £95,000-£100,000 (2016/17, £95,000-£100,000). Roedd hyn 4.3 gwaith yn fwy (4.2 gwaith yn fwy yn 2016/17) na chanolrif tâl y gweithlu, sef £22,778 (2016/17, £22,945). Ni chafodd unrhyw weithwyr cyflogedig dâl cydnabyddiaeth a oedd yn uwch na thâl cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2017/18 na 2016/17. Roedd y tâl (heb gynnwys y Cyfarwyddwyr) yn amrywio o £16,320 i £67,664 (2016/17 £15,934-£61,512). Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol sy'n seiliedig ar berfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a'r Gwerth Trosglwyddo Pensiwn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod. Nid yw gweithwyr a gyflogir yn unol â'n trefniadau cronfa wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r canolrif cyflog.

| | **2017/18** | 2016/17 |
|---|---|---|
| Band tâl yr unigolyn sy'n ennill y cyflog mwyaf | **95,000-100,000** | 95,000-100,000 |
| Cyfanswm canolrifol | **22,778** | 22,945 |
| Cymhareb | **4.3** | 4.2 |





Mae'r cyfrifon yn cynnwys darpariaeth ar gyfer codiadau cyflog yn 2017/18 i staff ar gynyddran uchaf pob gradd, sef yr uchaf o 2.25% neu £1,000 y flwyddyn. Cytunwyd yn ffurfiol ar y codiadau hyn a'u talu ar ddiwedd y flwyddyn, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau canolrif tâl.

Nid yw canolrif tâl y gweithlu 2016/17 yn cynnwys taliadau premiwm am weithio ar benwythnosau, gan eu bod wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn. Pe bai'r taliadau premiwm a dderbyniwyd yn 2016/17 cyn iddynt ddod i ben, wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau, yna £23,342 fyddai'r canolrif tâl ar gyfer 2016/17.

*David Anderson*
Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2018

*Laurie Pavelin*
Trysorydd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2018

# Adran 2.3: Adroddiad Archwilio

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## Adroddiad ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith gymwys a SORP (FRS 102) elusennau.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun teg a chywir o gyflwr Amgueddfa Cymru ar 31 Mawrth 2018 a'i hincwm net, enillion a cholledion a llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

### Sail y Farn

Fe wnes gynnal fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gesglais yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i fy marn.

### Casgliadau ynghylch busnes hyfyw

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol o ran yr hyn y mae Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) yn gofyn i fi eu hadrodd i chi:

- pan nad yw'r defnydd o ddull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw i baratoi datganiadau ariannol yn briodol;
- pan nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi defnyddio'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd i. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn rhoi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad.

O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysonderau o bwys gyda'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn anghywir yn seiliedig ar, neu'n anghyson â'r wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad. Os deuaf yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau neu anghysonderau o bwys byddaf yn ystyried eu goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w archwilio wedi'i baratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a baratowyd yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Perfformiad a baratowyd yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt gydag eithriad

Yn sgil gwybodaeth am y corff a dealltwriaeth ohono a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd wrthych amdanynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl sydd i'w archwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- nad wyf wedi derbyn pob gwybodaeth ac esboniad sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a phenderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru oddi tani, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg ac am y cyfryw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n penderfynu sydd ei hangen er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad o bwys, boed trwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai yr ystyrir bod hynny'n amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol am a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel sicrwydd uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd gyda Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn datgelu camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol y byddent, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol.

*Huw Vaughan Thomas*
Archwilydd Cyffredinol Cymru
17 Gorffennaf 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

*Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am gynnal gwefan Amgueddfa Cymru ac am uniondeb y wefan honno; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gallent fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.*

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Amgueddfa Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*



## DATGANIAD CYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig £'000 | **2017/18 Cyfanswm £'000** | Ailddatganwyd 2016/17 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION O:** | | | | | | | |
| **Rhoddion a Chymynroddion** | | | | | | | |
| Grantiau | 3 | 5,049 | 24,417 | 0 | 0 | **29,466** | 28,318 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 4 | 34 | 0 | 1,297 | 535 | **1,866** | 972 |
| | | **5,083** | **24,417** | **1,297** | **535** | **31,332** | 29,290 |
| **Gweithgareddau Masnachu Eraill** | 5 | **0** | **3,250** | **0** | **0** | **3,250** | 2,708 |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | | **0** | **0** | **66** | **13** | **79** | 73 |
| **Incwm Arall** | 6 | **0** | **1,945** | **13** | **4** | **1,962** | 1,509 |
| **CYFANSWM INCWM A GWADDOLION** | | **5,083** | **29,612** | **1,376** | **552** | **36,623** | 33,580 |
| **GWARIANT AR:** | 7&8 | | | | | | |
| **Codi Arian:** | | | | | | | |
| Gwariant ar Sicrhau Rhoddion a Chymynroddion | | 0 | 645 | 12 | 3 | **660** | 573 |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | 5 | 0 | 2,606 | 0 | 0 | **2,606** | 2,391 |
| | | **0** | **3,251** | **12** | **3** | **3,266** | 2,964 |
| **Gweithgareddau Elusennol:** | | | | | | | |
| Addysg ac Ymgysylltu | | 171 | 2,725 | 2 | 1 | **2,899** | 2,414 |
| Casgliadau ac Ymchwil | | 1,027 | 6,100 | 14 | 3 | **7,144** | 7,619 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | | 876 | 14,380 | 19 | 99 | **15,374** | 16,909 |
| Llywodraethu | | 0 | 522 | 0 | 0 | **522** | 574 |
| | | **2,074** | **23,727** | **35** | **103** | **25,939** | 27,516 |
| **Eraill:** | | | | | | | |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 18e | **0** | **867** | **0** | **0** | **867** | 675 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | | **2,074** | **27,845** | **47** | **106** | **30,072** | 31,155 |
| **Cyfran o Fenter ar y Cyd** | 9 | **(108)** | **0** | **0** | **0** | **(108)** | (76) |
| **Enillion Net ar Fuddsoddiadau** | 12 | **0** | **0** | **16** | **4** | **20** | 344 |
| **INCWM/GWARIANT** | | **2,901** | **1,767** | **1,345** | **450** | **6,463** | 2,693 |
| **ENILLION/(COLLEDION) ERAILL A GYDNABYDDIR:** | | | | | | | |
| Enillion ar ailbrisio asedau sefydlog | 10 | 8,429 | 32 | 96 | 28 | **8,585** | 1,213 |
| (Colledion) actiwaraidd y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio | 18d | 0 | (3,562) | 0 | 0 | (3,562) | (12,531) |
| **SYMUDIADAU NET MEWN CRONFEYDD** | | **11,330** | **(1,763)** | **1,441** | **478** | **11,486** | (8,625) |
| **CYSONI'R CRONFEYDD:** | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | 19 | **119,690** | **(28,358)** | **12,450** | **1,485** | **105,267** | 113,892 |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | 19 | **131,020** | **(30,121)** | **13,891** | **1,963** | **116,753** | 105,267 |

Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol uchod yn cynnwys yr enillion a cholledion a gydnabyddir.

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Y cynnydd net anghyfunol mewn cronfeydd a gofnodwyd yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol Amgueddfa Cymru yn ystod 2017/18 oedd £11,496,000 (gostyngiad o £8,616,000 yn 2016/17).

Mae'r penawdau gwariant o dan Gweithgareddau Elusennol wedi'u diwygio yn unol â strwythur adrannol Amgueddfa Cymru a ddiwygiwyd ar 1 Ebrill 2017. Mae cymaryddion y flwyddyn flaenorol ar gyfer y penawdau gwariant hyn wedi'u hailddatgan yn unol â'r strwythur adrannol newydd. Nid oes effaith ar y gwariant cyffredinol a adroddwyd nac ar gronfeydd a gariwyd ymlaen.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2018

| | Nodiadau | Amgueddfa Cymru 2018 £'000 | Amgueddfa Cymru Ailddatganwyd 2017 £'000 | Cyfunol 2018 £'000 | Cyfunol Ailddatganwyd 2017 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 10 | **107,873** | 98,132 | **107,953** | 98,192 |
| Asedau Treftadaeth | 11 | **23,455** | 23,187 | **23,455** | 23,187 |
| Cyfran o'r Fenter ar y Cyd: | 9 | | | | |
| Cyfran asedau gros | | **9,341** | 9,451 | **9,341** | 9,451 |
| Cyfran rhwymedidgaethau gros | | **(1)** | (3) | **(1)** | (3) |
| | | **9,340** | 9,448 | **9,340** | 9,448 |
| Buddsoddiadau | 12 | **2,945** | 2,925 | **2,945** | 2,925 |
| | | **143,613** | 133,692 | **143,693** | 133,752 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc | 13 | **14** | 6 | **230** | 219 |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 14 | **3,920** | 2,585 | **3,057** | 1,670 |
| Buddsoddiadau | 20 | **785** | 780 | **785** | 780 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 20 | **10,593** | 5,526 | **11,423** | 6,412 |
| | | **15,312** | 8,897 | **15,495** | 9,081 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | |
| Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 15 | **(2,363)** | (2,845) | **(2,525)** | (2,978) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **12,949** | 6,052 | **12,970** | 6,103 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | **156,562** | 139,744 | **156,663** | 139,855 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 16 | **(1,900)** | (2,007) | **(1,900)** | (2,007) |
| Darpariaethau | 17 | **(569)** | 0 | **(569)** | 0 |
| **ASEDAU NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN** | | **154,093** | 137,737 | **154,194** | 137,848 |
| Diffyg yn y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 18a | **(37,441)** | (32,581) | **(37,441)** | (32,581) |
| **ASEDAU NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN** | | **116,652** | 105,156 | **116,753** | 105,267 |
| **CRONFEYDD** | 19 | | | | |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig – Incwm | | **112,293** | 109,392 | **112,293** | 109,392 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig – Ailbrisio | | **18,727** | 10,298 | **18,727** | 10,298 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig** | | **131,020** | 119,690 | **131,020** | 119,690 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig – Incwm | | **7,161** | 4,085 | **7,262** | 4,196 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig – Ailbrisio | | **58** | 26 | **58** | 26 |
| Pensiwn wrth Gefn | | **(37,441)** | (32,580) | **(37,441)** | (32,580) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig** | | **(30,222)** | (28,469) | **(30,121)** | (28,358) |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig – Incwm | | **13,632** | 12,287 | **13,632** | 12,287 |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig – Ailbrisio | | **259** | 163 | **259** | 163 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Preifat Cyfyngedig** | | **13,891** | 12,450 | **13,891** | 12,450 |
| Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig – Incwm | | **1,888** | 1,438 | **1,888** | 1,438 |
| Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig – Ailbrisio | | **75** | 47 | **75** | 47 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig** | | **1,963** | 1,485 | **1,963** | 1,485 |
| | | **116,652** | 105,156 | **116,753** | 105,267 |

Mae cymaryddion y flwyddyn flaenorol ar gyfer Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn a Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u hailddatgan i gynnwys croniadau ar gyfer taliadau premiwm gadael a rhandaliadau a dalwyd i mewn sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn o dan Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn. Nid oes effaith ar asedau net nac ar gronfeydd a gariwyd ymlaen.

Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan

*David Anderson*
Swyddog Cyfrifyddu a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2018

*Laurie Pavelin*
Trysordd, ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2018

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.





## DATGANIAD O LIF ARIAN CYFUNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

**Datganiad Llif Arian Cyfuno**

| | Nodiadau | Cronfeydd cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Anghyfyngedig £'000 | 2017/8 Cyfanswm £'000 | 2016/17 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu** | 20 | 3,653 | 2,645 | 1,193 | 454 | **7,945** | 8,006 |
| **Llif arian o Weithgareddau Buddsoddi:** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (900) | (2,181) | 0 | 0 | **(3,081)** | (8,641) |
| Prynu asedau treftadaeth | | (121) | 0 | 0 | 0 | **(121)** | (723) |
| Prynu buddsoddiadau net | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | (1) |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan/ (defnyddiwyd mewn) Gweithgreddau Buddsoddi** | | **(1,021)** | **(2,181)** | **0** | **0** | **(3,202)** | (9,365) |
| **Llif Arian o Weithgareddau Ariannol:** | | | | | | | |
| Ad-dalu Benthyciadau | | 0 | (22) | 0 | 0 | **(22)** | (43) |
| Llif Arian Parod o Fenthyciadau Newydd | | (239) | 534 | 0 | 0 | **295** | 1,597 |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan/ (defnyddiwyd mewn) Gweithgreddau Ariannol** | | **(239)** | **512** | **0** | **0** | **273** | 1,554 |
| **Cynnydd mewn Arian Parod** | | **2,393** | **976** | **1,193** | **454** | **5,016** | 195 |
| **Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod ar ddechrau'r flwyddyn** | | **(3,555)** | **5,977** | **4,063** | **707** | **7,192** | 6,997 |
| **Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 21 | **(1,162)** | **6,953** | **5,256** | **1,161** | **12,208** | 7,192 |

**Datganiad o Lif Arian Amgueddfa Cymru**

| | Nodiadau | Cronfeydd cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Anghyfyngedig £'000 | 2017/8 Cyfanswm £'000 | 2016/17 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu** | 20 | 3,653 | 2,648 | 1,193 | 454 | **7,948** | 7,987 |
| **Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi:** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (900) | (2,128) | 0 | 0 | **(3,028)** | (8,623) |
| Prynu asedau treftadaeth | | (121) | 0 | 0 | 0 | **(121)** | (723) |
| Prynu buddsoddiadau net | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | (1) |
| **Arian Parod Net a ddarparwyd gan/ (a ddefnyddiwyd mewn) Gweithgareddau Buddsoddi** | | **(1,021)** | **(2,128)** | **0** | **0** | **(3,149)** | (9,347) |
| **Llif Arian o Weithgareddau Ariannol:** | | | | | | | |
| Ad-dalu Benthyciadau | | 0 | (22) | 0 | 0 | **(22)** | (43) |
| Llif Arian Parod o Fenthyciadau Newydd | | (239) | 534 | 0 | 0 | **295** | 1,597 |
| **Arian Paroad Net a ddarparwyd gan/ (a ddefnyddiwyd mewn) Gweithgareddau Ariannol** | | **(239)** | **512** | **0** | **0** | **273** | 1,554 |
| **Cynnydd mewn Arian Parod** | | **2,393** | **1,032** | **1,193** | **454** | **5,072** | 194 |
| **Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod ar ddechrau'r flwyddyn** | | **(3,555)** | **5,091** | **4,063** | **707** | **6,306** | 6,112 |
| **Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 21 | **(1,162)** | **6,123** | **5,256** | **1,161** | **11,378** | 6,306 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 56 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar Gyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

**1.1 Y Sail Cyfrifyddu**
Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys ailbrisiad o rai asedau sefydlog diriaethol ar sail eu gwerth i Amgueddfa Cymru. Fe'u paratowyd ar y sail croniadau yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir ar gyfer Elusennau FRS102 (SORP Elusennau (FRS102), a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Lloegr a Chymru, a'r datganiadau cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau yn y SORP Elusennau (FRS102) fod yn berthnasol o ran yr angen i ddatgelu cost hanesyddol asedau sefydlog diriaethol.

**1.2 Ymgymeriadau'r Fenter ar y Cyd**
Mae Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe yn ddau aelod cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf.), cwmni cyfyngedig dan warant heb gyfalaf cyfranddaliadau. Mae canlyniadau'r fenter ar y cyd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti. Cymeradwywyd cyfrifon AGGA Cyf. ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 a chafwyd barn archwilio ddiamod. Mae copi o'r cyfrifon ar gael o'n Pencadlys yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

**1.3 Ymgymeriadau'r Is-gwmni**
Rydym yn gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. Mae canlyniadau masnachu'r cwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol gan ddefnyddio'r dull 'fesul llinell'. Cafodd cyfrifon Mentrau AOCC Cyf. ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2018 eu cymeradwyo a derbyniwyd barn archwilio ddiamod. Mae copi ar gael o'n Pencadlys yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

**1.4 Incwm ac Adnoddau**
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os bodlonwyd yr amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu ar sail eu derbyn gan ohirio unrhyw incwm sydd heb ei wario nad yw'n Gymorth Grant tan y flwyddyn ganlynol. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os tybir eu bod yn debygol o fod wedi'u derbyn, fel y diffinnir yn FRS102.

**1.5 Gwariant**
Caiff gwariant ei ddosrannu ar draws y penawdau gwariant ar sail dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol ar gyfer costau cymorth fel y bo'n briodol. Mae gwariant ar Sicrhau Rhoddion a Chymynroddion yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â chodi arian. Mae gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill yn cynnwys pob gwariant sy'n gysylltiedig â'r is-gwmni masnachu. Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl wariant cysylltiedig ag Addysg ac Ymgysylltu, Casgliadau ac Ymchwil, Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr a Llywodraethu. Mae'r costau llywodraethu yn cynnwys yr holl wariant sy'n gysylltiedig â chynllunio corfforaethol a strategol, gwaith Bwrdd a Phwyllgorau, cyswllt â Llywodraeth Cymru, archwiliad mewnol ac allanol, rheoli risg ac adroddiadau statudol, a gwaith cyfrifon.

Mae'r sail ar gyfer dyrannu costau cymorth fel a ganlyn: dyrennir costau Marchnata, Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg yn ôl amser canrannol, dyrennir cyllid fesul cyfanswm incwm a chyfanswm gwariant, dyrennir TGCh yn ôl nifer y defnyddwyr cyfrifiaduron a dyrennir Adnoddau Dynol yn ôl nifer y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn.

**1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol**
Mae'r holl eitemau cyfalaf sy'n costio mwy na £10,000 wedi'u cyfalafu. Nid yw eitemau cyfalaf sy'n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu, a chânt eu dileu yn ystod y flwyddyn. Cyn 1 Ebrill 2014, roedd eitemau cyfalaf a oedd yn costio mwy na £5,000 yn cael eu cyfalafu.

Mae asedau tir ac adeiladau yn cael eu prisio'n broffesiynol bob pum mlynedd ar sail eu gwerth cyfredol o ran y defnydd presennol ohonynt gan dybio y byddai eiddo'n cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus a chânt eu hailbrisio trwy ddefnyddio mynegai yn y cyfamser. Caiff enillion adbrisio eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol o dan Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau sefydlog, ac eithrio i'r graddau y maent yn gwrthbwyso unrhyw wariant a ddilëwyd yn flaenorol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Yn yr achos hwn caiff yr enillion eu gwyrdroi yn erbyn y pennawd gwariant perthnasol. Caiff colledion ailbrisio eu cydnabod fel traul o dan y pennawd gwariant perthnasol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ac eithrio i'r graddau y maent yn gwrthbwyso unrhyw enillion ailbrisio blaenorol. Yn yr achos hwn caiff y golled ei dangos o dan Enillion/(colledion) ar yr ailbrisiad o asedau sefydlog. Caiff unrhyw waith cynnal a chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddiddymu yn ystod y flwyddyn y cyflawnir y gwaith.

Mae asedau nad ydynt yn ymwneud ag eiddo (h.y. offer a cherbydau, a gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar) yn cael eu cadw ar sail cost hanesyddol (neu'r gost ailbrisio cyn 1 Ebrill 2010), ac nid ydynt yn cael eu mynegeio gan mai bywydau economaidd defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) sydd gan yr asedau hyn.

Mae'r rheolwyr yn cynnal adolygiad blynyddol o namau.

**1.7 Asedau Treftadaeth**
Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwys hanesyddol, celfyddydol neu wyddonol sy'n cael eu cadw at ddibenion hyrwyddo amcanion cadwedigaeth, cadwraeth ac addysgiadol elusennau, ac sy'n cyfrannu trwy fynediad cyhoeddus at ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn yn ganolog i'r gwaith o gyflawni'n hamcanion ac yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosion a chreiriau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd neu a gyflwynwyd i ni sydd â gwerth unigol o £5,000 neu fwy, neu £10,000 neu fwy o 1 Ebrill 2014 ymlaen, wedi cael eu cyfalafu ar sail cost/prisiad hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw'r asedau a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolwyr ni ellir cyfiawnhau cost sylweddol prisio'r casgliad anferth hwn o asedau treftadaeth (tua 5.2 miliwn o eitemau) ar sail cost/budd. Mae asedau a gyfrannwyd neu a ran-gyfrannwyd yn cael eu prisio gan gyfeirio at anfonebau neu ddogfennau eraill os ydynt ar gael, ac fel arall gan staff curadurol.

**1.8 Dibrisiant**
Caiff dibrisiant ei godi ar asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir a threftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

- Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol ac eiddo ar brydlesi hir eu dibrisio yn ystod eu hoes ddefnyddiol sef rhwng 50 a 125 mlynedd.
- Fel y caniateir gan SORP Elusennau (FRS102), nid yw asedau treftadaeth yn cael eu dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddilliol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant o bwys.
- Bydd peiriannau, cyfarpar, ffitiadau a gosodiadau'n dibrisio dros 5-10 mlynedd. Yn achos eitemau penodol sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o dair blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.
- Codir tâl am asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

**1.9 Cronfeydd**
Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo ein hamcanion cyffredinol.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Caffael Sbesimenau a geir gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill y llywodraeth.

Cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr yw'r Cronfeydd Preifat Cyfyngedig a rhaid eu defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau a gafwyd wrth eu sefydlu.

Mae cronfeydd ailbrisio yn cynrychioli enillion/colledion cronnus ar ailbrisio asedau sefydlog sy'n codi o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

Gellir trosglwyddo arian rhwng cronfeydd ar yr amod mai at ddibenion a bennwyd gan y rhoddwr neu'r corff dyrannu grant yn unig y defnyddir cronfeydd cyfyngedig.

**1.10 Stoc**
Rydym yn cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ein siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth gwireddadwy net.

**1.11 Buddsoddiadau**
Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Ein polisi yw cadw cofnodion prisio yn gyfredol, felly pan fo buddsoddiadau'n cael eu gwerthu, nid oes enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, nid yw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau prisio yn ymwneud â gwerthiant a'r rhai yn ymwneud â daliannau sy'n parhau am eu bod yn cael eu trin fel newidiadau yng ngwerth y portffolio buddsoddiad trwy gydol y flwyddyn.

**1.12 Croniadau Gwyliau Staff**
Rydym yn cydnabod croniadau o hawliau gwyliau staff nas cymerwyd hyd yma ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn ganlynol.

**1.13 Ymchwil a Datblygu**
Caiff gwariant ar ymchwil a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

**1.14 Trethiant**
Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi rhoi statws elusen i ni, ond codir Treth Gorfforaeth ar Mentrau AOCC Cyf.





Adroddiad Ariannol 2017/18

### 1.15 Pensiynau

Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn gwasgaru cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Cyfrifir y gost i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail y costau gwasanaeth cyfredol fel y'u cyfrifir gan actiwari'r cynllun.

### 1.16 Asedau a Rhwymedigaethau Amodol

Nid yw asedau a rhwymedigaethau amodol wedi'u cronni yn y datganiadau cyfrifyddu. Cyfeirir at rwymedigaethau amodol yn achos unrhyw hawliau cyfreithiol lle nad oes yswiriant mewn nodyn i'r cyfrifon, yn yr un modd ag unrhyw asedau a rhwymedigaethau amodol eraill.

### 1.17 Costau taliadau diswyddo

Caiff taliadau diswyddo a delir yn rhan o'r Cynllun Diswyddiadau Gwirfoddol a'r Cynllun Ymddiswyddo gyda Chytundeb y Naill Ochr a'r Llall eu cydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu y cafodd y tâl diswyddo ei gymeradwyo'n ffurfiol ynddo a'i gytuno gyda'r gweithiwr cyflogedig.

## 2. Datganiad o Weithgareddau Ariannol cymharol

| | Nodiadau | Cronfeydd cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd preifat Anghyfyngedig £'000 | Ailddatganwyd 2016/17 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM A GWADDOLION:** | | | | | | |
| **Rhoddion a chymynroddion** | | | | | | |
| Grantiau | | 6,403 | 21,915 | 0 | 0 | **28,318** |
| Rhoddion a Chymynroddion | | 291 | 0 | 395 | 286 | **972** |
| | | **6,694** | **21,915** | **395** | **286** | **29,290** |
| **Gweithgareddau Masnachu Eraill** | | **0** | **2,708** | **0** | **0** | **2,708** |
| **Incwm o Fuddsoddiadau** | | **0** | **0** | **63** | **10** | **73** |
| **Incwm Arall** | | **0** | **1,493** | **14** | **2** | **1,509** |
| **CYFANSWM INCWM A GWADDOLION** | | **6,694** | **26,116** | **472** | **298** | **33,580** |
| **GWARIANT AR:** | | | | | | |
| **Godi Arian:** | | | | | | |
| Gwariant ar Sicrhau Rhoddion a Chymynroddion | | 0 | 497 | 10 | 66 | **573** |
| Gwariant ar Weithgareddau Masnachu Eraill | | 0 | 2,391 | 0 | 0 | **2,391** |
| | | **0** | **2,888** | **10** | **66** | **2,964** |
| **Gweithgareddau Elusennol:** | | | | | | |
| Addysg ac Ymgysylltu | | 101 | 2,254 | 58 | 1 | **2,414** |
| Casgliadau ac Ymchwil | | 784 | 6,650 | 181 | 4 | **7,619** |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | | 501 | 16,336 | 68 | 4 | **16,909** |
| Llywodraethu | | 0 | 574 | 0 | 0 | **574** |
| | | **1,386** | **25,814** | **307** | **9** | **27,516** |
| **Arall:** | | | | | | |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | | **0** | **675** | **0** | **0** | **675** |
| **CYFANSWM GWARIANT** | | **1,386** | **29,377** | **317** | **75** | **31,155** |
| **Cyfran o Fenter ar y Cyd** | | **(76)** | **0** | **0** | **0** | **(76)** |
| **Enillion(Colledion) Net ar Fuddsoddiadau** | | **0** | **0** | **297** | **47** | **344** |
| **INCWM/GWARIANT NET** | | **5,232** | **(3,261)** | **452** | **270** | **2,693** |
| **ENILLION/(COLLEDION) ERAILL A GYDNABYDDIR:** | | | | | | |
| Enillion/(Colledion) wrth ailbrisio asedau sefydlog | | 1,184 | 5 | 19 | 5 | **1,213** |
| (Colledion)/Enillion actiwaraidd y cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio | | 0 | (12,531) | 0 | 0 | **(12,531)** |
| **SYMUDIADAU NET MEWN CRONFEYDD** | | **6,416** | **(15,787)** | **471** | **275** | **(8,625)** |
| **CYSONI'R CRONFEYDD:** | | | | | | |
| **Cyfanswm y Cronfeydd a Ddygwyd Ymlaen** | | **113,274** | **(12,571)** | **11,979** | **1,210** | **113,892** |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | | **119,690** | **(28,358)** | **12,450** | **1,485** | **105,267** |





Mae'r penawdau gwariant o dan Gweithgareddau Elusennol wedi'u diwygio yn unol â'n strwythur isadrannol a ddiwygiwyd ar 1 Ebrill 2017. Newidiodd yr is-adran Addysg, Arddangosfeydd a'r Cyfryngau Digidol i fod yn Addysg ac Ymgysylltu a newidiodd Gweithrediadau Amgueddfeydd i fod yn Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr, gyda rhai adrannau'n symud is-adrannau. Ailosodwyd y cymaryddion ar gyfer 2016/17 yn unol â'n strwythur adrannol newydd, gan gynyddu gwariant Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr £1,425,000 a lleihau gwariant Addysg ac Ymgysylltu £1,425,000.

## 3. Grantiau Derbyniadwy

| | Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grant Refeniw | 0 | 22,607 | **22,607** | 21,239 |
| Cymorth Grant Caffael Sbesimenau | 269 | 0 | **269** | 538 |
| Cymorth Grant Cyfalaf | 4,289 | 0 | **4,289** | 1,600 |
| Grant arall gan y llywodraeth | 491 | 1,810 | **2,301** | 4,941 |
| | 5,049 | 24,417 | **29,466** | 28,318 |

Cawsom gyfanswm o £27,165,000 o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru (£23,377,000 yn 2016/17) sy'n cynnwys y Cymorth Grant Refeniw, Caffael Sbesimenau a Chyfalaf.

Roedd grantiau eraill y llywodraeth yn cynnwys £1,682,000 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£4,210,000 yn 2016/17), gyda £1,593,000 ohono ar gyfer project ailddatblygu Sain Ffagan, gan gynnwys £491,000 a gydnabuwyd dan gronfeydd cyfyngedig cyhoeddus a £1,102,000 dan gronfeydd anghyfyngedig cyhoeddus, yn cyfateb i'r dyraniad gwariant project i'r cronfeydd hynny. Roedd grantiau eraill y llywodraeth yn cynnwys £dim gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth (£341,000 yn 2016/17), £14,000 gan yr Undeb Ewropeaidd (£15,000 yn 2016/17), £90,000 gan Gyngor Caerdydd (£15,000 yn 2016/17) a £515,000 gan Lywodraeth Cymru (£360,000 yn 2016/17).

## 4. Rhoddion a Chymynroddion

| | Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig £'000 | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau a Gyfrannwyd | 0 | 0 | 147 | 0 | **147** | 0 |
| Cymynroddion | 0 | 0 | 193 | 0 | **193** | 0 |
| Rhoddion eraill | 34 | 0 | 957 | 535 | **1,526** | 972 |
| | 34 | 0 | 1,297 | 535 | **1,866** | 972 |

Roedd asedau a gyfrannwyd yn cynnwys asedau treftadaeth a brisiwyd am £147,000 (gweler nodyn 11 am ragor o fanylion). Cafodd pob prisiad o asedau a gyfrannwyd (neu a ran-gyfrannwyd) yn ystod y flwyddyn flaenorol eu cynnal gan staff curadol neu staff cymwys eraill, neu drwy gyfeirio at anfonebau/gohebiaeth derbyn 'in lieu'.

Roedd rhoddion eraill yn cynnwys rhoddion gan ymddiriedolaethau a sefydliadau a dderbyniwyd fel cyfraniadau tuag at brynu sbesimenau, project ailddatblygu Sain Ffagan, a phrojectau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys £350,000 gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl (£275,000 yn 2016/17), £300,000 gan Sefydliad Garfield Weston (£dim yn 2016/17), £200,000 gan Sefydliad Foyle (£dim yn 2016/17), £200,000 gan Sefydliad Moondance (£dim yn 2016/17), £dim gan y Gronfa Gelf (£210,000 yn 2016/17) a £dim gan Sefydliad Wolfson (£100,000 yn 2016/17).

Adroddiad Ariannol 2017/18

## 5. Is-gwmni Masnachu

Mae gennym un is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo i ni, ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU. Prif weithgareddau Mentrau AOCC Cyf. yw gwerthu nwyddau yn ein holl siopau, arlwyo, parcio, trwyddedu delweddau, llogi corfforaethol, gosod eiddo, archebion trwy'r post, derbyniadau o werthu arddangosfeydd neu eu rhoi ar fenthyg, a hawliau ffilmio. Mae Mentrau AOCC Cyf. yn dychwelyd ei elw i ni ar ffurf cymorth rhodd. Ceir crynodeb o ganlyniadau'r Cwmni isod.

| | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| Trosiant | **3,037** | 2,534 |
| Cost gwerthiant | **(2,225)** | (2,021) |
| **Elw Gros** | **812** | 513 |
| Treuliau gweinyddol | **(374)** | (363) |
| Incwm gweithredu arall | **206** | 169 |
| **Elw ar weithgareddau arferol cyn treth** | **644** | 319 |
| Llog derbyniadwy | **7** | 5 |
| Llog taladwy | **(7)** | (7) |
| **Elw ar weithgareddau arferol cyn treth** | **644** | 317 |
| Treth ar elw gweithgareddau arferol | **0** | 0 |
| **Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol** | **644** | 317 |
| Rhodd Cymorth sy'n daladwy i'r Amgueddfa | **(654)** | (326) |
| **Elw a gedwir ar gyfer y flwyddyn ariannol** | **(10)** | (9) |

Mae'r Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys trosiant yr is-gwmni, incwm gweithredu arall a llog derbyniadwy fel incwm o is-gwmni masnachu, a chost gwerthiannau, costau gweinyddol a llog taladwy fel costau'r is-gwmni masnachu.

## 6. Incwm arall

| | Cronfeydd cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | | Ailddatganwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 |
| Addysg ac Ymgysylltu | 0 | 281 | 0 | 0 | **281** | 164 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 0 | 651 | 0 | 0 | **651** | 465 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 0 | 914 | 0 | 0 | **914** | 816 |
| Cymorth | 0 | 99 | 13 | 4 | **116** | 64 |
| | **0** | **1,945** | **13** | **4** | **1,962** | 1,509 |

Mae'r penawdau o dan Incwm Arall uchod wedi'u diweddaru ar gyfer 2017/18 yn dilyn ad-drefnu'r is-adrannau, gydag Addysg, Arddangosfeydd a'r Cyfryngau Digidol yn newid i fod yn Addysg ac Ymgysylltu a Gweithrediadau Amgueddfeydd yn newid i fod yn Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr, gyda rhai adrannau'n symud is-adrannau. Mae rhywfaint o incwm felly wedi'i ailddosbarthu i bennawd gwahanol. Diwygiwyd y cymaryddion ar gyfer 2016/17 felly i gynyddu incwm arall Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr £60,000 ac i leihau incwm arall Addysg ac Ymgysylltu £60,000.

## 7. Cyfanswm Gwariant

### (a) Amgueddfa Cymru

| | Costau Uniongyrchol | Dibrisiant | Costau Cymorth | | | | Ailddatganwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Marchnata, y Wasg a CC* | *Cyllid* | *TGCh* | *Adnoddau Dynol* | **2017/18** | 2016/17 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant ar Godi Arian** | | | | | | | | |
| Sicrhau rhoddion a chymynroddion | 571 | 0 | 25 | 15 | 30 | 19 | **660** | 573 |
| | 571 | 0 | 25 | 15 | 30 | 19 | **660** | 573 |
| **Gwariant ar Weithgareddau Elusennol** | | | | | | | | |
| Addysg ac Ymgysylltu | 2,526 | 146 | 63 | 39 | 76 | 49 | **2,899** | 2,414 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 5,812 | 687 | 179 | 109 | 217 | 140 | **7,144** | 7,619 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 13,686 | 724 | 311 | 191 | 379 | 242 | **15,533** | 17,069 |
| Llywodraethu | 342 | 0 | 50 | 30 | 61 | 39 | **522** | 574 |
| | 22,366 | 1,557 | 603 | 369 | 733 | 470 | **26,098** | 27,676 |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 867 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **867** | 675 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **23,804** | **1,557** | **628** | **384** | **763** | **489** | **27,625** | 28,924 |





### (b) Cyfunol

| | Costau Uniongyrchol | Dibrisiant | Costau Cymorth | | | | Ailddatganwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Marchnata, y Wasg a CC* | *Cyllid* | *TGCh* | *Adnoddau Dynol* | **2017/18** | 2016/17 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant ar Godi Arian** | | | | | | | | |
| Sicrhau rhoddion a chymynroddion | 571 | 0 | 25 | 15 | 30 | 19 | **660** | 573 |
| Is-gwmni masnachu | 2,573 | 33 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,606** | 2,391 |
| | 3,144 | 33 | 25 | 15 | 30 | 19 | **3,266** | 2,964 |
| **Gwariant ar Weithgareddau Elusennol** | | | | | | | | |
| Addysg ac Ymgysylltu | 2,526 | 146 | 63 | 39 | 76 | 49 | **2,899** | 2,141 |
| Casgliadau ac Ymchwil | 5,812 | 687 | 179 | 109 | 217 | 140 | **7,144** | 7,619 |
| Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr | 13,527 | 724 | 311 | 191 | 379 | 242 | **15,374** | 16,909 |
| Llywodraethu | 342 | 0 | 50 | 30 | 61 | 39 | **522** | 574 |
| | 22,207 | 1,557 | 603 | 369 | 733 | 470 | **25,939** | 27,516 |
| **Costau Cyllid Pensiwn** | 867 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **867** | 675 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **26,218** | **1,590** | **628** | **384** | **763** | **489** | **30,072** | 31,155 |

Mae £42,134 (£44,009 yn 2016/17) wedi'i gynnwys yn yr adnoddau a wariwyd i dalu'r archwilwyr allanol. Mae hyn yn cynnwys £37,184 (£38,934 yn 2016/17) ar gyfer ffi archwilio Amgueddfa Cymru, £4,350 (£4,475 yn 2016/17) ar gyfer ffi archwilio'r is-gwmni masnachu a £600 (£600 yn 2016/17) ar gyfer gwaith arall i'r is-gwmni masnachu.

Costau staff oedd 66.8% o'r holl wariant yn ystod y flwyddyn (73.1% yn 2016/17).

## 8. Costau Staff

### (a) Costau Staff yn ystod y flwyddyn:

| | Cyfunol | |
|---|---|---|
| | **2017/18 £ '000** | 2016/17 £ '000 |
| Cyflogau a Thâl | **13,904** | 16,056 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **1,172** | 1,528 |
| Costau Gwasanaeth Pensiwn FRS102 (nodyn 18e) | **4,007** | 3,164 |
| Ardoll Prentisiaeth | **53** | 0 |
| Costau Diswyddo | **95** | 1,354 |
| | **19,231** | 22,102 |
| Costau Cyllid Pensiwn FRS102 (nodyn 18e) | **867** | 675 |
| | **20,098** | 22,777 |

Mae'r costau staffio yn cynnwys £1,270,000 (£1,104,000 yn 2016/17) yn ymwneud â'r is-gwmni masnachu.

Mae'r costau staffio yn cynnwys £569,000 hefyd ar gyfer cynyddiadau cyflog 2017/18 y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan ein hundebau cydnabyddedig a'u talu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben.

Roedd costau staffio'r flwyddyn flaenorol, 2016/17, yn cynnwys £2,880,000 er mwyn prynu taliadau premiwm a chostau cysylltiedig nawdd cymdeithasol ar gyfer gweithio ar benwythnosau, a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn.

Mae'r costau diswyddo yn cynnwys taliadau dan ein Cynllun Diswyddo Gwirfoddol a Chynllun Ymddiswyddiad â Sicrwydd Cydfuddiannol.

Manteisiodd 2 weithiwr ar ein Cynllun Diswyddo Gwirfoddol, gan wella taliadau statudol yn ôl ffactor o 4, yn 2017/18, gan arwain at gostau o £95,000 (£1,332,000 yn 2016/17).

Ni adawodd unrhyw weithiwr cyflogedig Amgueddfa Cymru trwy ein Cynllun Ymddiswyddo â Sicrwydd Cydfuddiannol yn 2017/18 (gadawodd un gweithiwr gan arwain at gostau o £22,000 yn 2016/17). Cyfrifir taliadau diswyddo trwy'r cynllun hwn ar sail cyflog mis ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth parhaus, hyd at uchafswm o 12 mlynedd, ond heb fod yn fwy na £40,000.

**(b) Aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr**
Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw gydnabyddiaeth. Talwyd cyfanswm o £10,000 (£16,000 yn 2016/17) o dreuliau teithio, cynhaliaeth a llety gennym i aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw dreuliau a ildiwyd gan ymddiriedolwyr gan nad yw hyn yn berthnasol. Ad-dalwyd treuliau i 16 o ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn (17yin 2016/17).

## 9. Cyfran o'r Fenter ar y Cyd

Rydym ni a Dinas a Sir Abertawe yn aelodau cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA Cyf.) (Rhif Elusen 1090512), cwmni cyfyngedig trwy warant. Prif nod AGGA Cyf. yw sefydlu amgueddfa yn Abertawe i gadw ac arddangos (inter alia) casgliad diwydiannol a morwrol Amgueddfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe er budd y cyhoedd. Pe câi AGGA Cyf. ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, mae ei erthyglau a'i femorandwm sefydlu yn nodi y caiff unrhyw eiddo sy'n eiddo i'r elusen neu sy'n cael ei freinio ynddi ei drosglwyddo i elusen neu elusennau eraill ag amcanion tebyg.

Mae ein cyfran o'r symudiad net mewn cronfeydd ac asedau net yn y Fenter ar y Cyd yn cynnwys:

| | Cyfanswm Symudiadau Net mewn Cronfeydd 2018 £'000 | 2017 £'000 | Cyfran o Symudiadau Net mewn Cronfeydd 2018 £'000 | 2017 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddion a Chymynroddion | **5** | 5 | **2** | 2 |
| Incwm Arall | **0** | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm adnoddau i mewn** | **5** | 5 | **2** | 2 |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | **216** | 152 | **108** | 76 |
| Costau llywodraethu | **5** | 5 | **2** | 2 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **221** | 157 | **110** | 78 |
| **Ailbrisio Asedau Sefydlog** | **0** | 0 | **0** | 0 |
| **Symudiadau Net mewn Cronfeydd** | **(216)** | (152) | **(108)** | (76) |

| | Cyfanswm Asedau a Rhwymedigaethau 2018 £'000 | 2017 £'000 | Cyfran Asedau a Rhwymedigaethau 2018 £'000 | 2017 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Sefydlog | **18,679** | 18,896 | **9,340** | 9,448 |
| Asedau Cyfredol | **2** | 6 | **1** | 3 |
| Rhwymedigaethau dyledus o fewn blwyddyn | **(2)** | (7) | **(1)** | (3) |
| Rhwymedigaethau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **(45)** | (45) | **0** | 0 |
| **Asedau Net** | **18,634** | 18,850 | **9,340** | 9,448 |
| **Cronfeydd** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol (anghyfyngedig) | **18,632** | 18,848 | **9,339** | 9,447 |
| Cronfa Gyfyngedig | **2** | 2 | **1** | 1 |
| | **18,634** | 18,850 | **9,340** | 9,448 |





## 10. Asedau Sefydlog Diriaethol

### (a) Amgueddfa Cymru

| | Tir Rhyd-ddaliad £'000 | Adeiladau Rhydd-ddaliad £'000 | Eiddo Lesddaliad £'000 | Peiriannau a Cherbydau £'000 | Ffitiadau, Gosodiadau a Chyfarpar £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 1,577 | 34,442 | 61,761 | 1,598 | 2,953 | **102,331** |
| Ychwanegiad yn ystod y flwyddyn | 0 | 219 | 0 | 171 | 2,323 | **2,713** |
| Ailbrisiad | 142 | 3,088 | 5,535 | 0 | 0 | **8,765** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **1,719** | **37,749** | **67,296** | **1,769** | **5,276** | **113,809** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 0 | 540 | 485 | 902 | 2,272 | **4,199** |
| Tâl am y flwyddyn | 0 | 521 | 481 | 148 | 407 | **1,557** |
| Ailbrisiad | 0 | 94 | 86 | 0 | 0 | **180** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **0** | **1,155** | **1,052** | **1,050** | **2,679** | **5,936** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 1,577 | 33,902 | 61,276 | 696 | 681 | **98,132** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **1,719** | **36,594** | **66,244** | **719** | **2,597** | **107,873** |

### (b) Cyfunol

| | Tir Rhyd-ddaliad £'000 | Adeiladau Rhydd-ddaliad £'000 | Eiddo Lesddaliad £'000 | Peiriannau a Cherbydau £'000 | Ffitiadau, Gosodiadau a Chyfarpar £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 1,577 | 34,442 | 61,761 | 1,598 | 3,099 | **102,477** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 0 | 219 | 0 | 171 | 2,376 | **2,766** |
| Ailbrisiad | 142 | 3,088 | 5,535 | 0 | 0 | **8,765** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **1,719** | **37,749** | **67,296** | **1,769** | **5,475** | **114,008** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 0 | 540 | 485 | 902 | 2,358 | **4,285** |
| Tâl am y flwyddyn | 0 | 521 | 481 | 148 | 440 | **1,590** |
| Ailbrisiad | 0 | 94 | 86 | 0 | 0 | **180** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **0** | **1,155** | **1,052** | **1,050** | **2,798** | **6,055** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 1,577 | 33,902 | 61,276 | 696 | 741 | **98,192** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **1,719** | **36,594** | **66,244** | **719** | **2,677** | **107,953** |

Cafodd ein tir a'n hadeiladau eu prisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2016 gan y Prisiwr Allanol, Andrew Gardner o Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright, yn unol â gofynion Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig – Safonau Proffesiynol y DU, Ionawr 2014 (diwygiwyd Ebrill 2015) a Safonau Prisio Rhyngwladol 2013, a chyda'r SORP Elusennau (FRS102). Roedd prisiad pob eiddo yn cael ei gyfrif ar Werth Cyfredol y Defnydd Presennol gan gymryd y byddai'r eiddo yn cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus. Yn y cyfamser, mae'r asedau hyn yn cael eu hailbrisio gan ddefnyddio mynegeion. Y fynegai a ddefnyddiwyd ar gyfer tir ac adeiladau yw'r BCIS All in Tender Price Index, wedi'i amcangyfrifo gan Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright. Tua 316 oedd gwerth y fynegai ym mis Mawrth 2018 (290 ym Mawrth 2017).

## 11. Asedau Treftadaeth

### (a) Polisïau Rheoli Casgliadau

Casglu sbesimenau yw'r rheswm dros fodolaeth amgueddfeydd, a'r sail i'w gwaith a'u hamcanion. Ni yw'r ystorfa genedlaethol o ddeunyddiau sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru a'i threftadaeth wedi'i chreu a deunyddiau rhyngwladol sy'n helpu i ddiffinio lle Cymru yn y byd. Mae gennym oddeutu 5.2 miliwn o sbesimenau neu grwpiau yn ein casgliadau sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Rydym yn wahanol i amgueddfeydd ac orielau eraill y DU o ran amrywiaeth ein meysydd, ac o ran nifer ac amrywiaeth y safleoedd yr ydym yn eu gweithredu.

Rydym yn cadw ac yn adolygu ein polisïau ar gaffael, gwaredu, gofal a chadwraeth, dogfennu a mynediad i'r safonau rhyngwladol uchaf. Mae manylion llawn y polisïau hyn ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil ym mhencadlys Amgueddfa Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

### (b) Costau Rheoli Casgliadau

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **Costau rheoli casgliadau** | | |
| Cadwraeth | **735** | 900 |
| Gwybodaeth am gasgliadau | **255** | 225 |
| Gwasanaethau am gasgliadau | **288** | 263 |
| Canolfan Gasgliadau | **30** | 44 |
| | **1,308** | 1,432 |

Cydnabyddir y costau hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

### (c) Crynodeb o'r asedau treftadaeth wedi'u cyfalafu yn y Fantolen

| | Celf £'000 | Adeiladau Hanesyddol £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Asedau a Gyfrannwyd | 6,826 | 160 | 329 | **7,315** |
| Asedau a Brynwyd | 9,308 | 5,775 | 1,077 | **16,140** |
| **Cyfanswm 31 Mawrth 2018** | **16,134** | **5,915** | **1,406** | **23,455** |

(i) Asedau Treftadaeth a gyfrannwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Celf £'000 | Adeiladau Hanesyddol £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| *Merlin* – Albert Irvin | 22 | - | - | **22** |
| *Chanticlear* – Gillian Ayres | 125 | - | - | **125** |
| **Cyfanswm yr Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn** | **147** | **0** | **0** | **147** |
| Cyfanswm ar 1 Ebrill 2017 | 6,679 | 160 | 329 | **7,168** |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2018** | **6,826** | **160** | **329** | **7,315** |

Cynhaliwyd pob prisiad ar asedau a gyfrannwyd (neu a ran-gyfrannwyd) gan staff curadol neu drwy gyfeirio at anfonebau/gohebiaeth a dderbyniwyd 'in lieu'.





(ii) Asedau Treftadaeth a brynwyd yn ystod y flwyddyn:

| | Celf £'000 | Adeiladau Hanesyddol £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| *For Tyrrau Mawr* rhifyn 1 o 3, *Writ Stink* rhifyn 1 o 3 a lluniadau *Writ Stink* – Bedwyr Williams | 30 | - | - | **30** |
| Deunyddiau Llys Rhosyr | - | 77 | - | **77** |
| Deunyddiau Tafarn y Vulcan | - | 14 | - | **14** |
| **Cyfanswm Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn** | **30** | **91** | **0** | **121** |
| Cyfanswm ar 1 Ebrill 2017 | 9,278 | 5,664 | 1,077 | 16,019 |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2018** | **9,308** | **5,755** | **1,077** | **16,140** |

Ni waredwyd unrhyw asedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn y pum mlynedd diwethaf.

(iii) Gwariant caffael ar sbesimenau cyfalaf dros y pum mlynedd diwethaf:

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau a gyfrannwyd** | | | | | |
| Celf | **147** | 0 | 272 | 1,240 | 1,239 |
| Adeiladau Hanesyddol | **0** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | **0** | 0 | 185 | 0 | 25 |
| **Cyfanswm Asedau a Gyfrannwyd** | **147** | 0 | 457 | 1,240 | 1,264 |
| **Asedau a Brynwyd** | | | | | |
| Celf | **30** | 678 | 474 | 135 | 1,120 |
| Adeiladau Hanesyddol | **91** | 45 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | **0** | 0 | 13 | 0 | 80 |
| **Cyfanswm Asedau a Brynwyd** | **121** | 723 | 487 | 135 | 1,200 |
| **Cyfanswm y Sbesimenau Cyfalaf a Brynwyd** | **268** | 723 | 944 | 1,375 | 2,464 |

### (d) Crynodeb o wariant caffael sbesimenau yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Gwariant caffael ar sbesimenau di-gyfalaf dros y pum mlynedd diwethaf:

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 | 2015/16 £'000 | 2014/15 £'000 | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Celf | **28** | 54 | 57 | 71 | 25 |
| Gwyddorau Naturiol | **47** | 60 | 39 | 33 | 71 |
| Diwydiant | **0** | 0 | 1 | 2 | 2 |
| Cadwraeth | **0** | 0 | 15 | 7 | 7 |
| Llyfrgell | **40** | 85 | 75 | 88 | 78 |
| Hanes | **200** | 116 | 123 | 266 | 112 |
| | **315** | 315 | 310 | 467 | 295 |

Mae'r gwariant yn cynnwys caffaeliadau sy'n werth llai na £10,000 (caffaeliadau sy'n werth llai na £5,000 cyn 2014/15), gwaith maes, adnewyddu ac adfer casgliadau.

**(e) Rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yng nghasgliad Amgueddfa Cymru.**
Nifer yr eitemau sydd gennym:

**Mae tua 5.2 miliwn o eitemau yng nghasgliadau Amgueddfa Cymru**

| | |
|---|---|
| Archaeoleg a Niwmismateg | 1,297,722 |
| Celf | 46,526 |
| Bioamrywiaeth | 2,442,323 |
| Daeareg | 428,547 |
| Diwydiant | 279,463 |
| Amgueddfa Wlân Cymru | 12,000 |
| Llyfrgell | 263,908 |
| Bywyd Gwerin | 397,730 |
| **Cyfanswm** | 5,168,219 |

(i) Archaeoleg a Niwmismateg: mae gan yr Adran gasgliad o 810,222 o eitemau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn ogystal â 487,500 yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Mae archaeoleg a niwmismateg (astudiaeth o geiniogau a medalau) yn adrodd hanes ac archaeoleg Cymru ers y defnydd cyntaf o ogofâu 250,000 o flynyddoedd yn ôl tan ddechrau'r chwyldro diwydiannol.

(ii) Celf: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yw cartref ein casgliad cenedlaethol o gelfyddyd gain a chymhwysol. Mae'r adnodd unigryw hwn yn cofnodi hanes celf yng Nghymru ers yr unfed ganrif ar bymtheg, ac mae'n gasgliad rhyngwladol o bwys o gelfyddyd Brydeinig ac Ewropeaidd, yn ogystal â gwaith o ddiwylliannau eraill.

(iii) Bioamrywiaeth: casgliad botaneg a sŵoleg o 2,442,323 o eitemau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Rydym yn arddangos sbesimenau yn yr orielau hanes natur, neu gellir eu gweld trwy drefniant. Mae'r astudiaeth o fioamrywiaeth y ddaear a sut mae organebau'n rhyngweithio yn hollbwysig i'n lles yn y dyfodol.

(iv) Daeareg: mae gan yr Adran Ddaeareg gasgliad o 428,547 o eitemau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys creigiau, mwynau a ffosilau sy'n ein helpu i ddeall hanes daearegol y Ddaear o'r cychwyn tua 4,600 miliwn o flynyddoedd yn ôl, a'r prosesau sy'n rhan o ffurfio a siapio cramen y ddaear. Maent yn cynnwys tystiolaeth i ddangos sut yr esblygodd Cymru fel y mae heddiw dros 700 miliwn o flynyddoedd.

(v) Diwydiant: mae gan yr Adran 279,463 o wrthrychau yn ei chasgliadau. Maent yng ngofal Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, lle gellir eu gweld trwy drefniant. Mae'r casgliad yn cynnwys eitemau o'r diwydiannau glo, gweithgynhyrchu, morwrol a thrafnidiaeth. Mae cyfrifiad 1841 yn dangos mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd â chyfran uwch o'r gweithlu yn gweithio ym myd diwydiant nag amaethyddiaeth – ac mai Cymru oedd 'gwlad ddiwydiannol gynta'r byd' felly.

(vi) Amgueddfa Wlân Cymru: mae gan yr amgueddfa 12,000 o eitemau yn ei chasgliad.

(vii) Llyfrgell: mae'r brif Lyfrgell, sydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a'r llyfrgell sydd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, yn cynnwys 263,908 o lyfrau a chyfnodolion. Mae'n cynnwys casgliad o lyfrau prin ac argraffiadau arbennig, yn enwedig ym maes hanes natur. Mae hefyd yn ffynhonnell wybodaeth i staff yr Amgueddfa, a gall y cyhoedd weld eitemau yn y Llyfrgell trwy drefniant.

(viii) Bywyd Gwerin: mae 397,730 o eitemau yn y casgliad hwn sydd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Mae'n cwmpasu bywyd y cartref, diwylliant, amaeth a masnach yng Nghymru o'r Oesoedd Canol hyd heddiw. Rydym yn dangos a dehongli'r meysydd hyn trwy gyfrwng deugain a mwy o adeiladau sydd wedi'u hailgodi ar hyd a lled y safle can erw. Mae archifau ffotograffig, ffilm a sain helaeth yn rhan o'r casgliad hefyd.



## 12. Buddsoddiadau Asedau Sefydlog

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | 2017 | **2018** | 2017 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2017 | **2,925** | 2,580 | **2,925** | 2,580 |
| Ychwanegiadau i fuddsoddiadau ar sail cost | **1,845** | 417 | **1,845** | 417 |
| Gwarediadau yn ôl gwerth y farchnad | **(1,845)** | (416) | **(1,845)** | (416) |
| Enillion Net ar Ailbrisio | **20** | 344 | **20** | 344 |
| Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth 2018 | **2,945** | 2,925 | **2,945** | 2,925 |

O'r cyfanswm buddsoddiadau o £2,945,000, roedd £2,462,000 (£2,446,000 ar 31 Mawrth 2017) mewn Cronfeydd Preifat Cyfyngedig a £483,000 (£479,000 ar 31 March 2017) mewn Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig.

Cost hanesyddol buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2018 oedd £2,682,000 (£2,131,000 ar 31 Mawrth 2017). Mae'r portffolio'n cynnwys Buddsoddiadau Cyfunol (Ymddiriedolaethau Unedol) a awdurdodwyd gan y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddiadau (cafodd y rhain eu prisio'n broffesiynol gan Barclays, ein rheolwyr buddsoddiadau ac mae'r cyfranddaliadau (cymynroddion) wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

Cadwyd buddsoddiadau yn y dosbarthiadau asedau canlynol:

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | 2017 | **2018** | 2017 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Buddsoddiadau Rhestredig y DU | **985** | 1,672 | **985** | 1,672 |
| Buddsoddiadau Rhestredig y tu allan i'r DU | **1,949** | 1,171 | **1,949** | 1,171 |
| Arian Parod ac Adneuon | **11** | 82 | **11** | 82 |
| | **2,945** | 2,925 | **2,945** | 2,925 |

## 13. Stoc

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | 2017 | **2018** | 2017 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Nwyddau Siop ar Werth | **0** | 0 | **248** | 263 |
| Stoc cyhoeddiadau a gedwir ar wahân | **31** | 23 | **31** | 23 |
| Llai: darpariaeth ar gyfer dileu stoc | **(17)** | (17) | **(49)** | (67) |
| | **14** | 6 | **230** | 219 |

## 14. Dyledwyr

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | 2017 | **2018** | 2017 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Dyledwyr Masnach | **103** | 27 | **255** | 135 |
| Swm sy'n ddyledus gan yr is-gwmni masnachu | **668** | 682 | **0** | 0 |
| Benthyciad sy'n ddyledus gan yr is-gwmni masnachu | **301** | 301 | **0** | 0 |
| Dyledwyr eraill | **2,638** | 1,364 | **2,555** | 1,286 |
| Rhagdaliadau | **210** | 211 | **247** | 249 |
| | **3,920** | 2,585 | **3,057** | 1,670 |
| Balansau gyda'r canlynol: | | | | |
| Cyrff llywodraeth ganolog | **2,354** | 1,312 | **2,356** | 1,313 |
| Cyrff GIG | **0** | 0 | **0** | 1 |
| Awdurdodau lleol | **2** | 2 | **10** | 5 |
| Is-gyfanswm balansau rhynglywodraethol | **2,356** | 1,314 | **2,366** | 1,319 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | **1,564** | 1,271 | **691** | 351 |
| Cyfanswm | **3,920** | 2,585 | **3,057** | 1,670 |

## 15. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ailddatganwyd | | Ailddatganwyd |
| | **2018** | 2017 | **2018** | 2017 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Benthyciadau | **306** | 22 | **306** | 22 |
| Credwyr Masnach | **0** | 1 | **0** | 26 |
| Croniadau ac Incwm Gohiriedig | **2,057** | 2,822 | **2,219** | 2,930 |
| | **2,363** | 2,845 | **2,525** | 2,978 |
| Balansau gyda'r canlynol: | | | | |
| Cyrff llywodraeth ganolog | **445** | 226 | **445** | 226 |
| Awdurdodau leol | **27** | 59 | **27** | 59 |
| Is-gyfanswm balansau rhynglywodraethol | **472** | 285 | **472** | 285 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | **1,891** | 2,560 | **2,053** | 2,693 |
| Cyfanswm | **2,363** | 2,845 | **2,525** | 2,978 |

Mae'r Croniadau ac Incwm Gohiriedig yn cynnwys £646,000 o incwm grant heb ei wario a ohiriwyd tan y flwyddyn ganlynol (£711,000 ar 31 Mawrth 2017), a £96,000 (£107,000 ar 31 Mawrth 2017) ar gyfer taliadau premiwm am adael sy'n ddyledus o fewn llai na blwyddyn.

Mae benthyciadau o £306,000 yn ddyledus o gronfa Buddsoddi-i-Arbed Llywodraeth Cymru (£22,000 gan yr Ymddiriedolaeth Garbon ar 31 Mawrth 2017).

## 16. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ailddatganwyd | | Ailddatganwyd |
| | **2018** | 2017 | **2018** | 2017 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Benthyciadau | **1,746** | 1,757 | **1,746** | 1,757 |
| Croniadau ac Incwm Gohiriedig | **154** | 250 | **154** | 250 |
| Cyfanswm | **1,900** | 2,007 | **1,900** | 2,007 |

Mae benthyciadau o £1,746,000 (£1,757,000 ar 31 Mawrth 2017) yn ddyledus o gronfa Buddsoddi-i-Arbed Llywodraeth Cymru, gyda £1,669,000 (£1,721,000 ar 31 Mawrth 2017) ohono i'w ad-dalu o fewn 2 i 5 mlynedd a £77,000 (£36,000 ar 31 Mawrth 2017) mewn dros 5 mlynedd.

Mae Croniadau ac Incwm Gohiriedig yn cynnwys £154,000 (£250,000 ar 31 Mawrth 2017) ar gyfer taliadau premiwm am adael sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 17. Darpariaethau

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2018** | 2017 | **2018** | 2017 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Darpariaethau | **569** | 0 | **569** | 0 |

Gwnaed darpariaeth o £569,000 ar gyfer cynyddiadau cyflog yn 2017/18 y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan ein hundebau cydnabyddedig a'u talu ar ôl diwedd y flwyddyn.



## 18. Pensiynau

Mae gennym gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn y DU, sydd wedi'i warantu gan Warant y Goron a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflawnwyd prisiad actwarïaid llawn ar 31 Mawrth 2015. Cafodd ei ddiweddaru ar 31 Mawrth 2018 gan actwari annibynnol cymwys gan ddefnyddio canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Roedd y prisiad FRS102 ar 31 Mawrth 2018 yn dangos cynnydd yn y diffyg o £32,581,000 i £37,441,000.

£3,576,000 oedd ein cyfraniad at y cynllun yn ystod y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2018 (£3,738,000 hyd 31 Mawrth 2017). Mae'n cynnwys cyfraniadau ar gyfradd o 21.3% o'r Tâl Pensiynadwy, a chyflog a ildiwyd gan aelodau dan drefniadau aberthu cyflog, yr ydym yn ei dalu i'r Cynllun.

Rydym yn disgwyl cyfrannu £3,627,000 at y Cynllun yn 2018/19. Cyfanswm y tâl a ragwelir i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn 2018/19 yw £1,530,000, ac felly'r diffyg a ragwelir ar 31 Mawrth 2019 yw £38,971,000.

### (a) Symiau yn y fantolen:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwerth teg asedau | **128,815** | 125,738 |
| Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio | **(166,256)** | (158,319) |
| **(Diffyg)** | **(37,441)** | (32,581) |

### (b) Dadansoddiad o newidiadau yng ngwerth teg asedau:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwerth teg asedau agoriadol | **125,738** | 108,771 |
| Incwm llog | **3,501** | 3,881 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | **3,576** | 3,738 |
| Cyfraniadau'r aelodau | **293** | 279 |
| Treuliau'r cynllun | **(375)** | (430) |
| Enillion/(colledion) profiad actiwaraidd | **1,007** | 14,122 |
| Buddion a dalwyd | **(4,925)** | (4,623) |
| **Gwerth teg asedau i gloi** | **128,815** | 125,738 |

### (c) Dadansoddiad o newidiadau yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio agoriadol | **158,319** | 128,720 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **3,632** | 2,734 |
| Cyfraniadau'r aelodau | **293** | 279 |
| Cost llog | **4,368** | 4,556 |
| Colledion/(enillion) profiad actiwaraidd | **4,569** | 26,653 |
| Buddion a dalwyd | **(4,925)** | (4,623) |
| **Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio i gloi** | **166,256** | 158,319 |

### (d) Enillion/(Colledion) actiwaraidd a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Enillion/(colledion) profiad actiwaraidd – gwerth teg asedau (nodyn 18b) | **1,007** | 14,122 |
| (Colledion)/enillion actiwaraidd – gwerth cyfredol rhwymedigaethau (nodyn 18c) | **(4,569)** | (26,653) |
| **(Colledion)/enillion actiwaraidd** | **(3,562)** | (12,531) |

### (e) Symiau a godwyd ar adnoddau a wariwyd:

| | 2018 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Cost bresennol y gwasanaeth | **3,632** | | 2,734 | |
| Treuliau'r cynllun | **375** | | 430 | |
| | | **4,007** | | 3,164 |
| Incwm llog | **(3,501)** | | (3,881) | |
| Cost llog | **4,368** | | 4,556 | |
| | | **867** | | 675 |
| **Cyfanswm a godwyd ar adnoddau a wariwyd** | | **4,874** | | 3,839 |

Mae'r symiau uchod a godwyd ar adnoddau a wariwyd wedi'u cynnwys mewn costau staff, a nodir yn nodyn 8a i'r cyfrifon hyn.

### (f) Prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| Ecwiti | **39.7%** | 41.9% |
| LDI | **25.1%** | 24.0% |
| Aml-ased | **20.4%** | 20.0% |
| Eraill | **14.8%** | 14.1% |

### (g) Prif ragdybiaethau actiwaraidd:

| | **2018** | 2017 |
|---|---|---|
| Cyfradd gostyngiad | **2.55%** | 2.80% |
| Chwyddiant – RPI | **3.45%** | 3.55% |
| Chwyddiant – CPI | **2.45%** | 2.55% |
| Ailbrisiad CARE | **2.45%** | 2.55% |
| Cynnydd taliadau pensiwn – cyn 2000 | **3.45%** | 3.55% |
| Cynnydd taliadau pensiwn – ôl 2000 | **2.45%** | 2.55% |
| Cynnydd pensiwn gohiriedig | **2.45%** | 2.55% |
| Rhagdybiaeth disgwyliad oes cyfredol 65 | | |
| Dynion | **86.8** | 86.9 |
| Menywod | **88.7** | 88.7 |
| Rhagdybiaeth disgwyliad oes cyfredol 45 | | |
| Dynion | **87.8** | 88.0 |
| Menywod | **89.9** | 90.0 |

### (h) Dadansoddiad sensitifrwydd – Newid mewn rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio fel ar 31 Mawrth 2018:

| | |
|---|---|
| Cynnydd/gostyngiad mewn cyfradd disgownt o 50 bps | -9% / +10% |
| Cynnydd/gostyngiad yn y gyfradd llog dybiedig o 50 bps | +10% / -9% |



## 19. Datganiad Cronfeydd

### (a) Symudiadau mewn Cronfeydd

| | 1 Ebrill 2017 £'000 | Adnoddau i mewn £'000 | Adnoddau a wariwyd £'000 | Symudiadau eraill yn y flwyddyn £'000 | **31 Mawrth 2018 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Cyhoeddus** | | | | | |
| Cyfyngedig – Incwm Cyfalaf | 95,307 | 4,694 | (1,779) | (108) | **98,114** |
| Cyfyngedig – Incwm Sbesimenau | 14,085 | 389 | (295) | 0 | **14,179** |
| Cyfyngedig – Ailbrisio | 10,298 | 0 | 0 | 8,429 | **18,727** |
| Cyfanswm Cyfyngedig | 119,690 | 5,083 | (2,074) | 8,321 | **131,020** |
| Anghyfyngedig – Incwm | 4,197 | 29,612 | (26,547) | 0 | **7,262** |
| Anghyfyngedig – Ailbrisio | 26 | 0 | 0 | 32 | **58** |
| Cronfa Bensiwn | (32,581) | 0 | (1,298) | (3,562) | **(37,441)** |
| Cyfanswm Anghyfyngedig | (28,358) | 29,612 | (27,845) | (3,530) | **(30,121)** |
| **Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus** | **91,332** | **34,695** | **(29,919)** | **4,791** | **100,899** |
| **Cyfanswm Preifat** | | | | | |
| Cyfyngedig – Incwm | 12,287 | 1,376 | (47) | 16 | **13,632** |
| Cyfyngedig – Ailbrisio | 163 | 0 | 0 | 96 | **259** |
| Anghyfyngedig – Incwm | 1,438 | 552 | (106) | 4 | **1,888** |
| Anghyfyngedig – Ailbrisio | 47 | 0 | 0 | 28 | **75** |
| **Cyfanswm Cronfeydd Preifat** | **13,935** | **1,928** | **(153)** | **144** | **15,854** |
| **Cyfanswm** | **105,267** | **36,623** | **(30,072)** | **4,935** | **116,753** |

Cofnodwyd £116,652,000 o gronfeydd yn ein cyfrifon anghyfunol ar 31 Mawrth 2018, gyda £101,000 wedi'i briodoli i Mentrau AOCC Cyf.

Mae'r Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yn cynnwys dau falans cronfa mawr, sef: Cronfa Project Ailddatblygu Sain Ffagan a Chronfa'r Adran Gelf.

£19,119,000 oedd cyfanswm y cronfeydd ailbrisio ar 31 Mawrth 2018. Mae'r rhain yn cynrychioli enillion/colledion cronedig drwy ailbrisio asedau sefydlog yn deillio o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

### (b) Dadansoddiad o'r Asedau Net rhwng Cronfeydd

| | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | **2018 £'000** |
| Asedau Sefydlog | 131,286 | 2,979 | 8,628 | 800 | **143,693** |
| Asedau Cyfredol | 106 | 8,267 | 5,263 | 1,163 | **14,799** |
| Rhwymedigaethau Cyfredol | (372) | (1,457) | 0 | 0 | **(1,829)** |
| Rhwymedigaethau Hirdymor | 0 | (1,900) | 0 | 0 | **(1,900)** |
| **Darpariaethau** | 0 | (569) | 0 | 0 | **(569)** |
| **Asedau Net (cyn rhwymedigaethau pensiwn)** | **131,020** | **7,889** | **13,891** | **1,963** | **154,194** |
| Rhwymedigaethau pensiwn | 0 | (37,441) | 0 | 0 | **(37,441)** |
| **Asedau Net (ar ôl rhwymedigaethau pensiwn)** | **131,020** | **(29,552)** | **13,891** | **1,963** | **116,753** |

## 20. Cysoni'r Incwm/Gwariant Net i'r Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 |
| Incwm/Gwariant Net | **6,473** | 2,696 | **6,463** | 2,687 |
| Cyfran o'r Fenter ar y Cyd | **108** | 76 | **108** | 76 |
| (Enillion) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau gwerth y farchnad | **(20)** | (344) | **(20)** | (344) |
| Asedau a Gyfrannwyd | **(147)** | 0 | **(147)** | 0 |
| Dibrisiant | **1,557** | 1,336 | **1,590** | 1,360 |
| Lleihad mewn Asedau Sefydlog | **0** | (454) | **0** | (454) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Stociau | **(8)** | 3 | **(11)** | 103 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Dyledwyr | **(1,335)** | 3,812 | **(1,387)** | 3,763 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn Credydwyr | **(547)** | 761 | **(518)** | 714 |
| Cynnydd mewn Darpariaethau | **569** | 0 | **569** | 0 |
| Costau pensiwn blwyddyn gyfredol FRS102 | **1,298** | 101 | **1,298** | 101 |
| **Mewnlif Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu** | **7,948** | 7,987 | **7,945** | 8,006 |

## 21. Dadansoddiad o Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod

| | Amgueddfa Cymru | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 | **2017/18 £'000** | 2016/17 £'000 |
| Arian mewn llaw | **10,593** | 5,526 | **11,423** | 6,412 |
| Adneuon rhybudd tymor byr | **785** | 780 | **785** | 780 |
| **Cyfanswm arian parod a chyfwerth ag arian parod** | **11,378** | 6,306 | **12,208** | 7,192 |

## 22. Ymrwymiadau Cyfalaf

| | **2018 £'000** | 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddyddiad llunio'r fantolen roedd ymrwymiadau cyfalaf o | **666** | 505 |

Roedd y prif ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2018 yn ymwneud â ffioedd ymgynghori cynllunio ac adeiladau ar gyfer y rhaglen waith gynnal a chadw wrth gefn hanfodol. Roedd y prif ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2017 yn ymwneud â phroject ailddatblygu Sain Ffagan.

## 23. Gwarantau ac Atebolrwydd Amodol

Ar 31 Mawrth 2018, roedd chwe hawliad yn ein herbyn yn ymwneud ag anaf personol a ddigwyddodd yn honedig yn ein hamgueddfeydd. £46,650 yw'r cyfanswm posibl ar gyfer tri o'r rhain, ond nid yw uchafswm yr atebolrwydd ar gyfer y tri hawliad arall yn hysbys. Rydym yn parhau i wrthwynebu unrhyw atebolrwydd yn yr achos hwn, ac yn rhagweld y bydd ein hyswiriant yn talu am unrhyw atebolrwydd arall.

Pe bai Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru yn cau, mae gwarant i ddiogelu siafft y pwll a'r cyffiniau. Mae dadgomisiynu yn debygol o gostio tua £1 miliwn ac mae'r swm wedi ei warantu gan Lywodraeth Cymru.



## 24. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Felly, ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cawsom gyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Cymorth Grant Refeniw, Cyfalaf a Chaffael Sbesimenau, a grant arall y cyfeirir ato yn nodyn 3 i'r Cyfrifon. Cawsom £4,520 mewn perthynas â gweithgareddau gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru hefyd. Cyfeirir at fenthyciadau sy'n ddyledus gyda Llywodraeth Cymru yn nodiadau 15 ac 16 y cyfrifon.

Gwnaed y taliadau canlynol i bartïon cysylltiedig eraill yn ystod 2017/18:

- £999 i ICOM UK. Mae Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr, yn aelod o fwrdd ICOM UK.
- £128,107 i Brifysgol Caerdydd. Mae Dr Carol Bell, Is-Lywydd yr Amgueddfa, yn aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd. Derbyniwyd £10,986 o incwm hefyd a derbyniodd ein his-gwmni masnachu Mentrau AOCC Cyf incwm o £27,337 yn ystod y flwyddyn.
- Mae Dr Carol Bell yn aelod o Fwrdd Canolfan Mileniwm Cymru. Derbyniodd ein his-gwmni masnachu Mentrau AOCC Cyf incwm o £210 yn ystod y flwyddyn.
- £2,303 i Prysg Cyf. Mae chwaer Glenda Jones, Ymddiriedolwr, yn un o Gyfarwyddwyr Prysg Cyf.
- £1,750 i Ŵyl Hanes Cymru i Blant. Mae Rheon Tomos, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, a Carys Howell, Ymddiriedolwr yn gyfarwyddwyr yr Ŵyl.
- Mae Rheon Tomos yn un o ymddiriedolwyr Urdd Gobaith Cymru. Derbyniodd ein his-gwmni masnachu Mentrau AOCC Cyf incwm o £290 yn ystod y flwyddyn.
- £110 i Pedal Power. Mae Carys Howell yn un o gyfarwyddwyr Pedal Power.
- Mae Carys Howell yn un o gyfarwyddwyr RSPB Cymru. Derbyniodd ein his-gwmni masnachu Mentrau AOCC Cyf incwm o £1,000 yn ystod y flwyddyn.
- £545 i'r Sefydliad Materion Cymreig. Mae Eurfyl ap Gwilym, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yn un o ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig.
- Mae Keshav Sinhgal, Ymddiriedolwr, yn un o gyfarwyddwyr Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵaidd (Cymru). Derbyniodd ein his-gwmni masnachu Mentrau AOCC Cyf incwm o £800 yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r Farwnes Kay Andrews yn un o ymddiriedolwyr y Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae grantiau a dderbyniwyd gan y Gronfa wedi'u nodi yn nodyn 3 i'r cyfrifon.

Cafwyd cyfanswm o £11,800 mewn rhoddion gan yr Ymddiriedolwyr (£3,380 yn 2016/17).

Yn ystod y flwyddyn gwasanaethodd Elisabeth Elias, Llywydd (tan 31 Rhagfyr 2017), Laurie Pavelin, Trysorydd, a Glenda Jones, Ymddiriedolwr, fel cyfarwyddwyr AGGA Cyf. y cyfeirir ato yn nodyn 9 i'r Cyfrifon. Nid yw'r un o'r cyfarwyddwr yn cael cydnabyddiaeth ariannol gan y cwmni hwn.

## 25. Offerynnau Ariannol

Nid oes gan Amgueddfa Cymru unrhyw fenthyciadau ac eithrio benthyciadau di-log o Gronfa Buddsoddi-i-Arbed Llywodraeth Cymru. Rydym yn dibynnu'n bennaf ar gymorth grant Llywodraeth Cymru a dderbynnir yn fisol ar gyfer ein gofynion arian parod sy'n cyfyngu ein risg hylifedd. Mae'n holl asedau a'n rhwymedigaethau mewn sterling ac felly nid ydym yn agored i risg arian cyfredol. Rydym yn lleihau'r posibilrwydd o fod yn agored i risg y farchnad drwy amrywio'n portffolio buddsoddiadau, a reolir gan Barclays.

## 26. Addasiadau'r flwyddyn flaenorol

Fe wnaethom ni ddiwygio'n strwythur adrannol ar 1 Ebrill 2017, ac rydym wedi newid y penawdau o dan Gwariant ar Weithgareddau Elusennol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, a'r penawdau o dan Nodyn 6 Incwm Arall yn unol â'r strwythur newydd. Mae cymaryddion y flwyddyn flaenorol ar gyfer 2016/17 felly wedi'u hailddatgan yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y penawdau o dan Gwariant ar Weithgareddau Elusennol, ac ar gyfer y penawdau yn Nodyn 6, Incwm Arall. Mae rhagor o wybodaeth am effaith yr ailddatgan yn Nodyn 2 a Nodyn 6. Nid oes unrhyw effaith ar wariant cyffredinol nac ar incwm a adroddir nac ar gronfeydd a ddygir ymlaen.

Rydym hefyd wedi ailddatgan cymaryddion y flwyddyn flaenorol ar gyfer 2016/17 ar y Fantolen ac ar gyfer Croniadau ac Incwm Gohiriedig yn Nodyn 15 a Nodyn 16 i gynnwys croniadau ar gyfer taliadau premiwm gadael a delir mewn rhandaliadau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn o dan Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 27. Digwyddiadau ar ôl y Fantolen

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 12 Gorffennaf 2018. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau eraill ar ôl y fantolen.

**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-KS/0462/17

Elisabeth Elias
Llywydd
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP

03 Mawrth 2017

Annwyl Elisabeth

**Llythyr Cylch Gwaith Amgueddfa Cymru – National Museum Wales ar gyfer 2017-18**

Rydym yn mynd ati yn y llythyr hwn i nodi'n cenhadaeth ar y cyd, a diben y cymorth grant i Amgueddfa Cymru – National Museum Wales ar gyfer 2017-18.

Gan edrych yn ôl ar 2016-17, hoffwn eich llongyfarch ar gynnwys dros 1,000 o wirfoddolwyr i adeiladu ac i agor Fferm Oes Haearn Bryn Eryr, a oedd yn rhan o'r Prosiect Ailddatblygu ehangach yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Rwyf yn cydnabod bod Amgueddfa Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi rhaglen *Cyfuno: creu cyfleoedd drwy ddiwylliant,* yn enwedig y rhan bwysig y mae'ch sefydliad wedi'i chwarae wrth gydgysylltu gwaith ymchwil a gwerthuso. Rwyf yn falch hefyd fod Amgueddfa Cymru wedi cynnig amrywiaeth o weithgareddau thematig deniadol i gefnogi mentrau a dathliadau cenedlaethol, gan gynnwys arddangosfeydd *Trysorau* a *Mwydod* (i gefnogi Blwyddyn Antur); arddangosfa Coedwig Mametz (rhan o'r rhaglen *Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918* i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf) ac arddangosfa Quentin Blake (un o'r gweithgareddau i goffáu Roald Dahl).

Gan edrych ymlaen at 2017-18, mae'r llythyr hwn yn tynnu sylw at y blaenoriaethau yr hoffwn i Amgueddfa Cymru eu mabwysiadu er mwyn sicrhau bod eich sefydliad yn parhau i ddarparu swyddogaethau diwylliannol pwysig i bobl Cymru mewn ffordd gynaliadwy.

Rwyf yn disgwyl i nodau Amgueddfa Cymru gyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru at ddibenion y cyllid cymorth grant. Er hynny, rwyf yn cydnabod ac yn parchu statws elusennol Amgueddfa Cymru a'i statws fel corff â Siarter Frenhinol, ynghyd â'r angen ichi weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd ac i lunio'ch polisïau a'ch cynlluniau busnes manwl eich hun. Rwyf yn cydnabod hefyd fod Amgueddfa Cymru yn darparu gwasanaethau sydd o fudd i sector amgueddfeydd Cymru yn ei gyfanrwydd. Rwyf yn disgwyl i'r berthynas rhyngom fod yn un sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr ac ar gyfathrebu agored a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gonest. Yn ymarferol, fy swyddogion fydd yn rhoi cymorth ac arweiniad i Amgueddfa Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Mewn cyd-destun pan fo cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru yn crebachu, a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn cystadlu â'i gilydd am gyllid, mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen ein bod yn gallu darparu tystiolaeth i ddangos bod y cyllid a ddarperir ar gyfer Amgueddfa Cymru yn cynnig gwerth i'r cyhoedd. Mae angen i'n sefydliadau cenedlaethol barhau i ymateb i'r heriau a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac uchel eu hansawdd sydd o fudd i bobl o bob cefndir ym mhob cwr o Gymru. Fel y pennir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth am y cyfraniad y bydd Amgueddfa Cymru yn ei wneud at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a'r dangosyddion perthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru ac  Amgueddfa Cymru ill dwy yn atebol am sicrhau bod yr arian cyhoeddus a fuddsoddir yn Amgueddfa Cymru yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a'i fod yn cael yr effaith orau bosibl. Er mwyn mesur effaith, gwerth ac effeithlonrwydd Amgueddfa Cymru yn effeithiol, mae'n rhaid gosod targedau, casglu data a gwneud gwaith ymchwil. Rwyf am ofyn ichi ddarparu tystiolaeth glir a rheolaidd am y cynnydd y bydd Amgueddfa Cymru yn ei wneud o ran cyrraedd yr amcanion a'r targedau y byddwn wedi cytuno arnynt.

Rwyf yn edrych ymlaen at drafod y targedau yn eich Cynllun Gweithredol a sut y byddwch yn mynd ati'n rheolaidd i'w mesur ac i adrodd arnynt; nid yn unig wrth fy swyddogion, ond hefyd wrth ddefnyddwyr a rhanddeiliaid Amgueddfa Cymru. **Dylech anfon fersiwn ddrafft o'r Cynllun Gweithredol at fy swyddogion erbyn 10 Mawrth.** Dim ond pan fyddaf yn fodlon y bydd arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol ac amcanion yn cael eu bodloni mewn ffordd gosteffeithiol y gellir rhyddhau'r arian grant. Unwaith y cytunir ar y Cynllun Gweithredol, byddaf mewn sefyllfa i ryddhau cyllid i Amgueddfa Cymru ar gyfer 2017-18.

Gan gydnabod yr hyn y mae Amgueddfa Cymru yn ymgyrraedd ato, yr heriau sydd wedi dod i'ch rhan yn ystod y cyfnod diweddar hwn, a'r cais a wnaethoch am gymorth, rwyf wedi gofyn i Dr Simon Thurley gynnal adolygiad o'ch gweithrediadau a chyllid. Rwyf yn edrych ymlaen at gyfarfod â chi yn y man i drafod canfyddiadau Dr Thurley a sut i fwrw ymlaen â hwy.

Mae'r blaenoriaethau yr wyf am eich gweld yn gweithredu arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod (gan ddefnyddio'r cyllid cymorth grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru) yn cael eu nodi isod:

**Gwneud gwahaniaeth i Gymru**

Er mwyn i bobl Cymru gael budd o amgueddfeydd, mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y mae'n hamgueddfa genedlaethol yn ei chynnig a manteisio ar y dreftadaeth honno. Dylai'r ffyrdd o fesur perfformiad gynnwys:

- cynnydd yn nifer yr ymwelwyr; gan roi dadansoddiad a fydd yn cynnwys ymweliadau dysgu ffurfiol a fydd wedi'u trefnu, a'r niferoedd a fydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol, ar y safleoedd eu hunain a hefyd oddi arnynt
- y sylw a gaiff Amgueddfa Cymru yn y cyfryngau

**Amgueddfeydd gwerthfawr**

Amgueddfa Cymru sy'n gyfrifol am ofalu am ein casgliad cenedlaethol a'i ddatblygu, ac am drefnu bod yr adnodd cyfoethog hwnnw ar gael i gynulleidfa eang. Mae cyrraedd a rhagori

ar safonau sy'n berthnasol i'r sector yn allweddol er mwyn dangos bod Amgueddfa Cymru yn llwyddo yn hynny o beth. Mae datblygu amryfal bartneriaethau sy'n ychwanegu gwerth at weithgarwch sy'n gysylltiedig â chasgliadau yn elfen bwysig o'r rôl sydd gan Amgueddfa Cymru i'w chware fel un o arweinwyr y sector.

Dylai'r blaenoriaethau gynnwys:

- cadw statws Achrediad Amgueddfa
- mynd ati, ar y cyd â'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD), i ddatblygu cynllun a fydd yn galluogi Amgueddfa Cymru i wneud cais am Achrediad Archifau
- gweithio mewn partneriaeth ag amgueddfeydd eraill yng Nghymru, ar draws y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys gweithio gyda'r sector yng Nghymru ar faterion yn gysylltiedig â chasgliadau
- cyfrannu at y gwaith i weithredu ar yr Adolygiad Arbenigol o Amgueddfeydd a gynhaliwyd yn 2015

**Profiad yr ymwelwyr**

Er mwyn i bobl fwynhau ymweliadau ag amgueddfeydd a chael boddhad o'r ymweliadau hynny, rhaid wrth gyfleusterau deniadol sy'n ennyn diddordeb. Byddwn yn disgwyl i'ch Cynllun Gweithredol gynnwys amcanion i:

- gynyddu cyfanswm yr ymweliadau i 1.8 miliwn
- monitro boddhad ymhlith ymwelwyr a chynnal lefelau uchel ohono
- parhau i ddatblygu cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr a chynnig gwell profiadau i ymwelwyr (e.e. agoriad meddal y cyfleusterau newydd i ymwelwyr a'r adeiladau newydd yn Sain Ffagan)

Mae pwyntiau mynediad deniadol i gyfleusterau a chael cymorth oddi wrth staff blaen y tŷ cyfeillgar a pharod eu cymwynas yn allweddol er mwyn cynnig profiad da i ymwelwyr. Nodaf fod Amgueddfa Cymru wrthi'n datblygu safonau corfforaethol ar gyfer gofal i gwsmeriaid, ynghyd â Strategaeth Profiad Ymwelwyr er mwyn atgyfnerthu'r gwaith y mae'n ei wneud i sicrhau gwelliant parhaus mewn gwasanaethau i gwsmeriaid ac i gynnig gwell profiad i ymwelwyr.

**Cyfranogiad a chynhwysiant**

Gall amgueddfeydd helpu pobl o bob cefndir i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol Cymru ac i gael budd ohono.

Dylai'r ffyrdd o fesur llwyddiant gynnwys:

- mwy o weithgarwch gan bobl o gefndiroedd amrywiol a difreintiedig drwy gyfrwng rhaglenni megis Cyfuno
- recriwtio rhagor o staff o gefndiroedd amrywiol
- mwy o wirfoddolwyr, a mwy o amser yn cael ei gyfrannu gan wirfoddolwyr o gefndiroedd amrywiol a difreintiedig

Er mwyn cyflawni'r amcanion hynny, byddwn yn disgwyl i Amgueddfa Cymru:

- barhau i weithredu'ch Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned, gan gynnwys cydweithio â rhaglen Cyfuno

- parhau i weithredu'ch cynllun gweithredu a'r cynllun dysgu ar gyfer gwirfoddolwyr, sy'n nodi sut y bydd Amgueddfa Cymru yn cyrraedd ei thargedau o ran niferoedd y gwirfoddolwyr a sut y bydd yn cynnig hyfforddiant i wirfoddolwyr
- datblygu cynigion ar gyfer recriwtio prentisiaid o gefndiroedd difreintiedig drwy raglen Cyfuno a mynd ati i gefnogi'r agenda sgiliau ar gyfer pobl sy'n profi anfantais

Byddaf, wrth gwrs, yn disgwyl i'r Amgueddfa Cymru barhau i sicrhau bod y cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr yn ychwanegu gwerth at y swyddi cyflodedig presennol, ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i lenwi swyddi gwag yn y sefydliad.

**Amgueddfeydd sy'n troi eu golygon tuag allan**

Mae angen i amgueddfeydd arbennig ac unigryw Cymru gael ei gweld yng ngweddill y DU ac yn y byd ehangach. Dylai'ch Cynllun Gweithredol gynnwys amcan i gefnogi twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru drwy gynnal arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau hyrwyddo a fydd yn cyfrannu at y Flwyddyn Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr yn 2018. Dylech anelu, drwy'r gweithgareddau hynny, i barhau i ddenu rhagor o ymwelwyr o'r tu allan i Gymru.

Bydd y ffyrdd o fesur cynnydd yn cynnwys:
- mwy o ymwelwyr mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd
- dadansoddiad o effaith digwyddiadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd allweddol

**Amgueddfeydd digidol**

Mae technoleg ddigidol yn chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn creu diwylliant ac yn manteisio arno. Bydd amgueddfeydd yn gryfach pan fyddant yn mynd ati i ddefnyddio'r dechnoleg honno'n effeithiol.

Bydd y ffyrdd o fesur yn cynnwys:

- nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol
- nifer yr ymweliadau unigryw â gwefannau Amgueddfa Cymru

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i'ch Cynllun Gweithredol gynnwys:

- cyfrannu at gyflawni cynllun gweithredu Casgliad y Werin Cymru ar gyfer 2017-18
- cynlluniau i wella'r profiad a gynigir i ymwelwyr gan ddefnyddio technoleg ddigidol megis rhyngweithio digidol mewn orielau ac ar safleoedd yr amgueddfa

**Amgueddfeydd cynaliadwy**

Mae polisi cyni Llywodraeth y DU wedi rhoi cryn straen ar gyllidebau yn y sector treftadaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r pwysau'n debygol o gynyddu yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn parhau'n hyfyw a'i bod yn gallu mynd ati'n barhaus i wella gwasanaethau, byddwn yn disgwyl iddi ychwanegu at y cyllid cymorth grant y mae'n ei gael oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy sicrhau cynnydd sylweddol ym maint y cyllid a ddenir o ffynonellau eraill.

Bydd yr amcanion yn cynnwys:

- sicrhau mwy o gyllid drwy gydweithio â phartneriaid eraill ar brosiectau ehangach (e.e. partneriaid yn y sector treftadaeth ddiwylliannol ac yn y sector addysg uwch)
- mwy o weithgareddau codi arian (rhoddion elusennol)
- mwy o weithgareddau newydd sy'n ychwanegu gwerth a chyfleoedd masnachol sy'n creu incwm

Byddwn yn disgwyl i'ch Cynllun Gweithredol gynnwys targedau ar gyfer cynyddu cyllid. Bydd y targed cynhyrchu incwm 2017-18 ar gyfer Amgueddfa Cymru yn cael eu gosod ar 9% yn uwch na'r hyn a gyflawnwyd yn 2016-17.

Yn benodol, rwyf am eich annog i fynd ati'n barhaus i gynnal rhaglen o arddangosfeydd a digwyddiadau deniadol a fydd yn denu niferoedd mawr o ymwelwyr ac a fydd yn gyfle i greu incwm masnachol.

**Cydweithredu**

Mae ein sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, yn gryfach pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd. Byddwn yn disgwyl gweld amcanion o ran cydweithio yn eich cynllun gweithredol, gan gynnwys:

- cefnogi ymchwil a dysgu ffurfiol drwy bartneriaethau â chyrff yn y sector addysg uwch ac addysg bellach
- cydweithio strategol a phartneriaethau gyda'r sector treftadaeth ddiwylliannol, gyda sefydliadau cenedlaethol eraill, a chydag amgueddfeydd yng Nghymru sydd heb fod yn rhai cenedlaethol, yn ogystal â'r sector iechyd, y sector addysg a'r sector twristiaeth
- gweithgareddau sy'n cefnogi mentrau penodol, gan gynnwys rhaglen *Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914 – 1918* i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf a rhaglen *Cyfuno: creu cyfleoedd drwy ddiwylliant*
- mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, chware rhan yn yr astudiaethau dichonoldeb ar gyfer amgueddfeydd cenedlaethol newydd

**Datblygu'r gweithlu**

Gall sgiliau, angerdd ac arbenigedd y bobl sy'n gweithio yn Amgueddfa Cymru ddod â'n treftadaeth yn fyw i'r un graddau'n union â'n hasedau diwylliannol ffisegol. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig bod gan Amgueddfa Cymru weithlu sy'n cael ei barchu a'i symbylu ar bob lefel. Mae hwn yn faes lle gwelwyd problemau yn ddiweddar a, chan mai ni yw prif gyllidwr Amgueddfa Cymru, nid yw ond yn iawn ein bod yn gweithio gyda chi i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Yn benodol, byddwn yn disgwyl i Amgueddfa Cymru:

- weithio tuag at gysoni eich polisïau allweddol ym maes adnoddau dynol â'r polisïau sydd gan Lywodraeth Cymru, gan ymgynghori â'r undebau llafur cydnabyddedig wrth wneud hynny
- cynnal asesiad cychwynnol o delerau ac amodau a thâl staff Amgueddfa Cymru a goblygiadau eu cysoni â rhai Llywodraeth Cymru

- parhau i wella'r berthynas rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y rheolwyr, y staff a chynrychiolwyr yr undebau, a sicrhau bod cytundeb ffurfiol yn ei le rhwng yr Amgueddfa a’r undebau sy’n nodi egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a’r gweithdrefnau ar gyfer negodi, ymgynghori a chyfathrebu
- sicrhau fod Amgueddfa Cymru yn dilyn canllawiau arfer gorau ar gyfer cyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru ynghylch y defnydd o gontractau dim oriau
- sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol er mwyn iddynt fedru darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a sicrhau eich bod yn nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau (gan gynnwys sgiliau arbenigol) ac yn mynd i'r afael â hwy mewn ffordd strategol (gan ymgynghori â’ch undebau llafur cydnabyddedig) yn eich gwaith i ddatblygu'r gweithlu

Mae arolygon ymhlith staff yn sail i bolisïau ac yn hanfodol er mwyn mesur morâl y staff a pha mor effeithiol yw rheolwyr. Byddwn yn disgwyl ichi gynnal arolygon o'r fath yn rheolaidd ac yna gweithredu mewn ymateb i'r canfyddiadau er mwyn cyflawni gwelliannau mesuradwy mewn boddhad staff a moral.  Rwyf am ofyn ichi hysbysu fy swyddogion am ganlyniadau'r arolygon a gynhelir ymhlith y staff ac am y dadansoddiadau o'r tueddiadau a ddaw i’r amlwg ynddynt, ac i ofyn iddynt am gyngor pe bai hynny'n ddefnyddiol.

Diolch ichi am gyfraniad Amgueddfa Cymru i waith Grŵp Llywio Cymru Hanesyddol. Byddaf yn cyhoeddi fy ymateb i adroddiad y Grŵp yn y man.  Rwyf yn edrych ymlaen at gydweithio ag Amgueddfa Cymru wrth inni fwrw ymlaen â'r agenda bwysig hon.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

**Atodiad 1**

**Cymorth ariannol:**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cymorth Grant isod i Amgueddfa Cymru yn 2017-18 er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr hwn:

| **Refeniw** | **Cynlluniau 2017-18 £** |
|---|---|
| Costau Rhedeg sylfaenol (NET) | 20,849,000 |
| Cyllid refeniw ychwanegol i dalu setliad (addasiad i'r llinell sylfaen) | 261,000 |
| Cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer 2017-18 (3.5%): | 730,000 |
| **Cyfanswm Refeniw** | **21,840,000** |

| **Nid arian parod** | **Cynlluniau 2017-18 £** |
|---|---|
| Dibrisiant* | 1,120,000 |

**Mae dibrisiant yn eitem nad yw'n arian parod ac nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn*

| **Cyfalaf** | **Cynlluniau 2017-18 £** |
|---|---|
| Grant Prynu Eitemau | 269,000 |
| Cyfalaf Cynnal a Chadw | 4,989,000 |
| **Cyfanswm** | **5,258,000** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Cymorth Grant 2017-18** | **£28,218,000** |

| **Cyllid y Cynllun Buddsoddi i Arbed** | **Cynlluniau 2017-18 £** |
|---|---|
| Buddsoddi i Arbed: VERS (Cynllun Diswyddo Ymadael Gwirfoddol) (refeniw) | £300,000 |

| | |
|---|---|
| Buddsoddi i Arbed: Prosiect Effeithlonrwydd Ynni (refeniw) | £65,000 |
| Buddsoddi i Arbed: Prosiect Creu Incwm (refeniw) | £169,000 |
| Buddsoddi i Arbed: Prosiect Creu Incwm (cyfalaf) | £425,000 |

Cyllid ychwanegol nad yw'n Gymorth Grant a glustnodwyd eisoes er mwyn cefnogi gweithgareddau penodol:

| | **Cynlluniau 2017-18**<br>**£** |
|---|---|
| Rhaglen Casgliad y Werin Cymru | I'w gadarnhau |
| Gweithgareddau Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf (refeniw) | £60,000 |
| *Cyfuno: Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant* (refeniw) | I'w gadarnhau |

**Telerau ac Amodau'r Cymorth Grant:**

Mae'r cytundeb cyllido rhwng Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi manylion y berthynas noddi a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Amgueddfa Cymru o dan Adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi amryfal ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau o eiddo'r llywodraeth y mae angen i Amgueddfa Cymru] gydymffurfio â hwy, yn ychwanegol at ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau ei hun fel corff sydd â Siarter, fel Elusen Gofrestredig, a sefydliad cenedlaethol yng Nghymru. Fel y nodir yn y Ddogfen Fframwaith, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) yw'r is-adran sy'n noddi Amgueddfa Cymru, ac sydd, drwy gynnal cyfarfodydd chwarterol, yn monitro'r cynnydd y mae Amgueddfa Cymru yn ei wneud yn unol â thargedau a cherrig milltir allweddol, a hefyd y cynnydd a'r gwariant ar brosiectau.

**Rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru:**

Gan fod Amgueddfa Cymru yn un o'r partneriaid cyflawni arweiniol ar gyfer rhaglen Casgliad y Werin Cymru, mae cyllid yn cael ei dyrannu iddi ar gyfer y rhaglen honno. Bydd y partneriaid cyflawni arweiniol yn cytuno'n flynyddol ar yr union ddyraniadau cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n bosibl y bydd y dyraniadau a roddir i'r partneriaid cyflawni arweiniol yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, gan ddibynnu ar anghenion a blaenoriaethau'r rhaglen.

Telir y grant ar yr amod bod Amgueddfa Cymru yn cydymffurfio â'i Dogfen Fframwaith.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/DET/0624/18

Dr Carol Bell
Cadeirydd Dros Dro
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NP

13 Mawrth 2018

Annwyl Carol

Mae ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol yn chwarae rhan allweddol ym mywyd Cymru, drwy sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael mynediad i'w threftadaeth, a'u bod yn rhan bwysig o'n heconomi twristiaeth. Rydych yn rhan o gymuned ddiwylliannol gyffrous, greadigol ac ysbrydoledig.

Hoffwn ddechrau drwy eich llongyfarch ar flwyddyn lwyddiannus i Amgueddfa Cymru yn 2017-18. Roeddwn yn falch iawn o ymweld â Sain Ffagan ar 9fed Ionawr i weld y cyfleusterau newydd gwych. Ar yr un diwrnod, cafodd yr adroddiad llawn gan Dr Simon Thurley ei gyhoeddi hefyd, ac rwyf am gydnabod gyfraniad positif a brwdfrydig pawb yn Amgueddfa Cymru i ddarparu'r wybodaeth oedd ei hangen. Mae'n galonogol i weld y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ac mae'r buddsoddiad mewn marchnata yn amlwg yn cael effaith, yn ogystal â llwyddiant parhaus y polisi mynediad am ddim. Mae arddangosfeydd fel ‘Deinosoriaid yn Deor’ a 'Penderfyniad Pwy?' wedi ennyn diddordeb, diddanu ac addysgu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn.

Hefyd, mae Amgueddfa Cymru wedi cynnig cymorth gwerthfawr mewn meysydd gwaith penodol; yn enwedig:

- rhoi cymorth ac arweiniad i’r sector amgueddfeydd lleol ledled Cymru
- eich cyfraniad at y rhaglen *Cyfuno*: *Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant*
- eich cefnogaeth i raglen "Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914 – 1918"
- eich swyddogaeth yn rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru
- datblygu gweithio mewn partneriaeth drwy Cymru Hanesyddol

Rwy'n edrych ymlaen at weld y gwaith hwn yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rwy'n parchu eich statws elusennol ac fel Siarter Frenhinol a'r angen i Amgueddfa Cymru weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, dylai amcanion Amgueddfa Cymru adlewyrchu polisïau Llywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r llythyr hwn yn pennu nifer o flaenoriaethau a disgwyliadau ar gyfer Amgueddfa Cymru yr hoffem ichi eu hystyried wrth baratoi eich Cynllun Gweithredu ar gyfer 2018-19.

Yn ogystal â gwaith craidd yr Amgueddfa fel y'i amlinellir yn ei Siarter, mae fy mlaenoriaethau ar gyfer Amgueddfa Cymru yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i'w gweld yn Atodiad 1. Mae Atodiad 2 yn nodi'r Cymorth Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i Amgueddfa Cymru ar gyfer 2018-19 a'r Cymorth Grant a ragwelir ar gyfer 2019-20.

Mae tri o ysgogwyr clir ar gyfer ein holl waith. Mae *Llesiant i Bawb* yn nodi swyddogaeth allweddol diwylliant o fewn datblygiad y gymuned. Rwy'n awyddus i weld ein sefydliadau diwylliannol yn cynrychioli ac yn dathlu amrywiaeth cymunedau Cymru; croesawu pobl o bob cefndir; gwella iechyd a lles; helpu unigolion i ddatblygu sgiliau a phrofiadau ar gyfer gwaith a chynnig cyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau diwylliannol ar draws ffiniau cymdeithasol. Caiff y dull hwn o weithio ei adlewyrchu hefyd yn *Golau yn y Gwyll* sy'n annog ein sefydliadau diwylliannol i gynyddu eu cyfraniad at, a'u cysylltiad â gweithgareddau diwylliannol gan bobl o bob cefndir.

Yn sail i bopeth yr ydym yn ei wneud, mae ein nodau llesiant a'n hamcanion fel a nodwyd yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).* Dylai'r pum ffordd o weithio fod yn integredig o fewn eich cynllun strategol a dylech ddangos sut yr ydych yn cyflawni yr amcanion llesiant yr ydych wedi eu pennu mewn ymateb i ofynion y Ddeddf ar gyrff cyhoeddus.

Mae cynnal cyfrifoldebau statudol a chyrraedd safonau proffesiynol yn allweddol i ddangos bod Amgueddfa Cymru yn gofalu am ein casgliadau cenedlaethol ac yn eu datblygu. Rwy'n disgwyl i Amgueddfa Cymru gadw yr Achredu Amgueddfeydd ac i barhau i weithio tuag at Achrediad Archifau. Gofynnaf ichi barhau i drafod â chyrff y sector, gan gynnwys Cymdeithas yr Amgueddfeydd a Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, i ddatblygu dull o weithio mewn partneriaeth fydd o fudd i holl amgueddfeydd Cymru. Rwyf hefyd yn eich annog i weithredu a chynnwys eich safonau corfforaethol newydd ar gyfer gofal cwsmeriaid, a'r Strategaeth Profiad yr Ymwelydd.

Dylech gynnwys yr holl gamau uchod yn eich Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer 2018-19, a dylai Llywodraeth Cymru ei dderbyn gennych erbyn 21 Mawrth 2018, er mwyn i'r nodau, y targedau a'r dangosyddion perfformiad perthnasol sydd ynddo gael eu cymeradwyo.

Rwyf yn disgwyl i'r berthynas rhyngom fod yn un sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr ac ar gyfathrebu agored a gonest. Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn eich cynllun gweithredu ac i glywed mwy am eich gwaith yn ystod y flwyddyn a ddaw.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

**Atodiad 1: Y Ffeithiau Allweddol**

**1.0 Unedig a Chysylltiedig**
"Ein nod yw meithrin cenedl ble y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, a'n lle yn y byd." (Ffyniant i Bawb; tudalen 19)

***1.1 Nod Ffyniant i Bawb:* Creu cymunedau, diwylliant a iaith gref,**

Mae gan ein sefydliadau diwylliannol y gallu i helpu a galluogi pobl o bob cefndir i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol Cymru, ac i gynorthwyo gyda chreu cymunedau cydlynus.
Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Ddatblygu eich Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned i gynyddu mynediad at gasgliadau Amgueddfa Cymru, ei gwasanaethau a'i hadnoddau.
- Parhau i weithredu eich Cynllun Gwirfoddoli

***1.2*** **Nod *Golau yn y Gwyll* yw cynyddu cyfraniad, cynhwysiant a chysylltiad**

Gall Amgueddfa Cymru helpu Cymru i ddod yn genedl greadigol; gan roi mynediad i gyfleoedd diwylliannol i bobl o bob cefndir ac adlewyrchu amrywiaeth ein cenedl.
Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Barhau i ddatblygu gweithgareddau i gefnogi'r rhaglen *Cyfuno*
- Annog a chynyddu y cyfraniad at weithgareddau diwylliannol o'r ystod ehangaf o gynulleidfaoedd amrywiol.
- Monitro boddhad y defnyddiwr a chynnwys adborth y defnyddiwr mewn mentrau a datblygiadau yn y dyfodol.

***1.3 Nod Ffyniant i Bawb:* Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd**

Mae gan Amgueddfa Cymru swyddogaeth bwysig o arddangos diwylliant, treftadaeth a iaith Cymru i gynulleidfa ryngwladol, gan helpu i hyrwyddo ein cenedl ledled y byd.
Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Gynnal a datblygu eich cysylltiadau rhyngwladol presennol
- Parhau i gyfrannu at Croeso Cymru i hyrwyddo Cymru, gan gynnwys trwy eich cymorth ar gyfer 'Blwyddyn y Môr' yn 2018.
- Cwblhau y Prosiect Ailddatblygu mawr yn Sain Ffagan a lansio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau newydd cyffrous hyn
- Darparu cynnwys digidol, gwasanaethau ac adnoddau o safon uchel i gyrraedd cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol

**2.0 Cymru uchelgeisiol sy'n Dysgu**
"Ein nod yw creu angerdd i bawb ddysgu trwy gydol eu bywydau..."
(Ffyniant i Bawb; tudalen 15)

***2.1 Nod Ffyniant i Bawb:* Cefnogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial ac i greu uchelgais ac annog dysgu am oes**

Gall sefydliadau diwylliannol ehangu gorwelion pobl a chodi eu dyheadau, gan gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddysgu.
Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Barhau i ddatblygu profiadau dysgu o safon uchel
- Denu cyllid ar gyfer gwaith ymchwil a gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau y sector addysg uwch
- Parhau i greu adnoddau dysgu digidol ar gyfer Hwb mewn partneriaeth â'r Llyfrgell Genedlaethol, y Comisiwn Brenhinol a Cadw

**3.0 Cymru ffyniannus a diogel**
"Ein nod yw economi yng Nghymru sy'n cynnig ffyniant i'r unigolyn ac yn genedlaethol tra'n lledaenu cyfleoedd a mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb..." (Ffyniant i Bawb, tudalen 7)

***3.1 Nod Ffyniant i Bawb:*** **Cefnogi pobl a busnesau i yrru ffyniant; mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb rhanbarthol a gwaith teg**

Mae angen gweithio gyda sefydliadau, staff ac undebau llafur cydnabyddedig er mwyn mynd i'r afael â gofynion sgiliau arbenigol o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol ehangach ac i reoli cysylltiadau ddiwydiannol.
Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Gydweithio â Phartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol a sectorau yr amgueddfa, archifau a'r llyfrgell yng Nghymru ar ofynion sgiliau y sector a sgiliau arbenigol.
- Parhau i weithio gyda staff ac undebau llafur cydnabyddedig i fonitro a gwella cysylltiadau ddiwydiannol
- Datblygu argymhellion Arolwg Thurley mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, undebau llafur cydnabyddedig a chyrff perthnasol eraill

***3.2 Nod Ffyniant i Bawb:*** **Datblygu twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd**

Mae Amgueddfa Cymru yn gorff enwebedig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dylai egwyddorion cynaliadwyedd a syniadau hirdymor fod yn sail i gynllunio eich sefydliad.
Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw ac adeiladu yn Amgueddfa Cymru sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei reoli yn effeithiol ac yn effeithlon
- Parhau â'r gwaith o gynyddu cyllid o ffynonellau allanol er mwyn cynyddu cyllid nad yw'n gyllid Grant

**4.0 Cymru iach ac egnïol**
"Ein nod yw gwella iechyd a lles yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau...dylai iechyd da fod ar gael i bawb."
(Ffyniant i Bawb; tudalen 11)

***4.1 Nod Ffyniant i Bawb:*** **Hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb; a chreu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell**

Gall ein sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol gefnogi ymdrechion ehangach i greu yr amodau iawn am well iechyd, llesiant a mwy o weithgarwch corfforol, gan gynyddu cynhwysiant cymdeithasol drwy gynnig cyfleoedd i bobl hŷn a phobl sydd â chyflyrau corfforol neu feddyliol i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.
Hoffwn i Amgueddfa Cymru:

- Gynnig gweithgareddau a phrofiadau sy'n cael effaith ar iechyd a llesiant ein cymunedau, gan weithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau priodol.

**Atodiad 2: Cymorth ariannol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cymorth Grant isod i Amgueddfa Cymru yn 2018-19 er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr hwn. Ceir y ffigurau a ragwelir ar gyfer 2019-20 a 2020-21 hefyd (cyfalaf yn unig). Bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau ei lefelau ariannu ar gyfer y dyfodol ar ôl llunio ei chyllideb flynyddol.

| **Refeniw** | **Cyllideb 2018-19 £000** | **Cynlluniau 2019-20 £000** |
|---|---:|---:|
| Refeniw (gros) | 23,154 | I'w gadarnhau |
| Llai: incwm a gynhyrchir gan yr Amgueddfa | | I'w gadarnhau |
| Incwm gros | 5,505 | |
| Llai gwariant | (4,191) | |
| Incwm net | (1,314) | |
| | | |
| **Cyfanswm Refeniw - net** | **21,840** | **21,840** |

| **Heb fod yn arian parod** | **Cyllideb 2018-19 £000** | **Cynlluniau 2019-20 £000** |
|---|---:|---:|
| Dibrisiant* | 1,120 | 1,120 |

**Mae dibrisiant yn eitem nad yw'n arian parod ac nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn*

| **Cyfalaf** | **Cyllideb 2018-19 £000** | **Cynlluniau 2019-20 £000** | **Cynlluniau 2020-21 £'000** |
|---|---:|---:|---:|
| Grant Prynu Eitemau | 269 | 269 | 269 |
| Cyfalaf Cynnal a Chadw | 166 | 817 | 428 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **435** | **1,086** | **697** |

Cyllid ychwanegol nad yw'n Gymorth Grant a glustnodwyd eisoes er mwyn cefnogi gweithgareddau penodol:

| **Buddsoddi i Arbed** | **Cynlluniau 2018-19 £000** | **Cynlluniau Dangosol 2019-20 £000** |
|---|---:|---:|
| **Refeniw:** | | |
| Buddsoddi i Arbed: arbed ynni (taliad refeniw) | (56) | (56) |
| Buddsoddi i Arbed: dileu swydd gwirfoddol (ad-daliad refeniw) | (250) | (1,250) |
| Buddsoddi i Arbed: creu incwm (refeniw) | 29 | (36.2) |
| **Cyfanswm Refeniw** | **(277)** | **(1,342.2)** |

| | Cyllideb 2018-19 £000 | Cynlluniau 2019-20 £000 |
|---|---|---|
| Rhaglen Casgliad y Werin Cymru | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Gweithgareddau Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf | 60 | - |
| Cyfuno: Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant | 30 | I'w gadarnhau |

**Telerau ac Amodau'r Cymorth Grant:**

Mae'r cytundeb cyllido rhwng Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi manylion y berthynas noddi a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Amgueddfa Cymru o dan Adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid grant i Amgueddfa Cymru o dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi amryfal ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau y mae angen i Amgueddfa Cymru gydymffurfio â hwy, yn ychwanegol at ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau ei hun fel corff sydd â Siarter, fel Elusen Gofrestredig, a sefydliad cenedlaethol yng Nghymru. Fel y nodir yn y Ddogfen Fframwaith, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) yw'r is-adran sy'n noddi Amgueddfa Cymru, ac sydd, drwy gynnal cyfarfodydd chwarterol, yn monitro'r cynnydd y mae Amgueddfa Cymru yn ei wneud yn unol â thargedau a cherrig milltir allweddol.

**Rhaglen treftadaeth ddigidol Casgliad y Werin Cymru:**

Gan fod Amgueddfa Cymru yn un o'r partneriaid cyflawni arweiniol ar gyfer rhaglen Casgliad y Werin Cymru, mae cyllid yn cael ei dyrannu iddi ar gyfer y rhaglen honno. Bydd y partneriaid cyflawni arweiniol yn cytuno'n flynyddol ar yr union ddyraniadau cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n bosibl y bydd y dyraniadau a roddir i'r partneriaid cyflawni arweiniol yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, gan ddibynnu ar anghenion a blaenoriaethau'r rhaglen.

Telir y grant ar yr amod bod Amgueddfa Cymru yn cydymffurfio â Dogfen Fframwaith Amgueddfa Cymru.

# National Assembly for Wales Public Accounts Committee

## Scrutiny of Accounts 2014-15

## February 2016

Amgueddfa Cymru's response to the Recommendations

| Amgueddfa Cymru | Comment / Response | Updated Comment/ Response August 2018 |
|---|---|---|
| **Recommendation 6.** The Committee notes that the National Museum's financial report includes seven high level indicators relating to a key objective from the Museum's "Vision Map". However, we are concerned that some of the performance targets are not sufficiently challenging particularly where targets have been lowered from last year. (Page 35) | Amgueddfa Cymru has a new 10 year Vision which includes strategic commitments and objectives. As part of producing Strategic and Operational Plans for 2016-17, targets will be reviewed and discussed with MALD our sponsor | Our targets for 2017/18 and 2018/19 reflected the committee's comments. All targets are challenging, and we are structuring and prioritising our work accordingly to strive to achieve them. This included reviewing our strategic commitments and objectives further. |
| **Recommendation 7.** Although we note the changes faced by the National Museum, and the impact these have had on performance, we recommend that the National Museum review these targets next year and set aspirational targets that are more challenging in order to drive forward improvement and change. (Page 35) | Amgueddfa Cymru is reviewing targets for 2016-17, with view to setting more challenging targets, as part of Operational Planning process. | More challenging targets were set as part of the Operational Planning process for both 2017/18 and 2018/19. We have initiated and begun discussions with WG regarding how targets are set going forward to better capture the impact of Amgueddfa |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru's work, in line with the Future Generations Act. Whilst targets such as visitor figures illustrate how successful free entry has been in attracting more visitors, they do not reflect the experience of visitors or those who engage with our work. |
| **Recommendation 8.** The Committee acknowledges that consideration is being given by the National Museum to charging for specific services but we believe that any charges must not impact of this on the Welsh Government's policy on free admission to Museums in Wales. We accept and fully endorse the reassurances provided to us by witnesses that the National Museum will maintain its commitment to inclusion and diversity. We recommend that revenue should not replace income the Museum might lose in the form of grant aid from the Welsh Government and that there should be transparency regarding how it is used by the Museum. (Page 36) | Amgueddfa Cymru remains fully committed to free admissions to our museums, and our commitment to inclusion and diversity.<br><br>Amgueddfa Cymru is actively exploring opportunities. Plans are in place to increase income generation through investment funding from an Invest to Save application.<br><br>Amgueddfa Cymru has taken into account all revenue streams when setting budgets following requirements of Managing Welsh Public Money | We remain fully committed to free admission, and our commitment to inclusion and diversity both in terms of visitors, our workforce, volunteers and those we engage with through our work.<br><br>Income generation activities have significantly increased and there have been some notable successes including the opening of the High Ropes course at St Fagans National Museum of History. We have also introduced some charging elements for learning and |

| | | |
|---|---|---|
| | | some special exhibitions.<br><br>As per recommended in the Thurley review of Amgueddfa Cymru, we are seeking approval to appoint a Commerical Director in the near future. |
| **Recommendation 9.** The Committee notes the National Museum's pension and severance scheme appears to be an outlier in relation to other Welsh public sector organisations. Setting this against the current pay dispute with the Museums lowest paid staff, the Committee are concerned about the negative impact this has had on the public's perception of the National Museum particularly in light of recent pay outs to the Museum's senior staff while there appear to be cuts in pay to the Museum's lowest paid staff. We acknowledge the work being undertaken by the National Museum to resolve disputes over pay and to improve equal pay across the organisation. (Page 36) | Amgueddfa Cymru with agreement of Pension Trustees has taken action and agreed to reduce the cost of severance.<br><br>A new Severance Scheme has been developed. It has been agreed by Prospect Union, and discussions continue with PCS union with view to Making changes to the scheme. | New Pension Scheme agreed by Trade Unions put in place.<br><br>Pension Scheme strain costs are no longer payable as part of the severance scheme.<br><br>Implemented the same 2.25% pay rise as WG. |
| **Recommendation 10.** The Committee are concerned about some of the issues raised in the National Museum's staff survey particularly in terms of bullying and harassment and the overall low level of staff morale. However, the Committee welcomes the work being undertaken by the Museum's senior management team to address these concerns and the seriousness with which these matters are | Amgueddfa Cymru will continue its work to address the findings of the staff survey. The full staff survey along with a detailed action plan was published to all staff. Implementation will be monitored by Senior Management Team, Staff | Amgueddfa Cymru is working towards IIP40 across all sites with staff and Trade Unions.<br><br>This replaced staff survey for 2017. |

| | | |
|---|---|---|
| being addressed. The Committee recommends that the Museum continue with this work and undertake a further staff survey at an appropriate time to assess whether the actions being taken are leading to improvement and to identify areas if and where further improvement is required. (Page 36) | Forum and Performance Review Committee on behalf of the Board.<br><br>A further staff survey will be undertaken in 2017. | |

# Adroddiad arolwg ar-lein IIP40

## Amgueddfa Cymru

Cynhaliwyd gan: Sarah Botterill

Rhif y project: WAL-17-00543

IiP40 swyddogol a gynhaliwyd gan

Buddsoddwyr mewn Pobl

157-197 Buckingham Palace Road,

Llundain, SW1W 9SP

+44 (0) 300 303 3033

Investors in People Community Interest Company (a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif cwmni cofrestredig 10420361) yw perchennog brand, nodyn masnach, methodoleg ac asedau Buddsoddwyr mewn Pobl. Darperir Safon Buddsoddwyr mewn Pobl a'r cynnyrch cysylltiedig gan Investors in People Community Interest Company.

© 2017 Diogelir cynnwys y cynnig hwn, enw, dyluniadau, marc a logo Buddsoddwyr mewn Pobl dan gyfraith hawlfraint a chyfraith hawlfraint ryngwladol. Dylid ystyried yr adroddiad hwn yn fasnachol gyfrinachol. Cydnabyddir Investors in People Community Interest Company fel Rheolwr y Data yng nghyd-destun yr holl ddata mewn perthynas â Buddsoddwyr mewn Pobl.

# Cynnwys

Cynnwys ........................................................................................................ 1
Crynodeb a chyd-destun ................................................................................ 3
Dadansoddiad ............................................................................................... 3
Dangosydd 1: Arwain ac ysbrydoli pobl......................**Error! Bookmark not defined.**
Dangosydd 2: Byw'n unol â gwerthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad ................ **Error! Bookmark not defined.**
Dangosydd 3: Grymuso a chynnwys pobl ...................**Error! Bookmark not defined.**
Dangosydd 4: Rheoli perfformiad ...............................**Error! Bookmark not defined.**
Dangosydd 5: Cydnabod a gwobrwyo perfformiad da ............................................. 17
Dangosydd 6: Strwythuro gwaith .......................................................................... 19
Dangosydd 7: Meithrin gallu ................................................................................ 21
Dangosydd 8: Cyflawni gwelliant parhaus ..................**Error! Bookmark not defined.**
Dangosydd 9: Creu llwyddiant cynaliadwy ..................**Error! Bookmark not defined.**
Argymhellion a chamau nesaf ............................................................................. 27

## Crynodeb a chyd-destun

Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP) yw'r safon fyd-eang ar gyfer rheoli pobl. Trwy ddefnyddio arolwg ar-lein IiP40 caiff sefydliadau'r cyfle i glywed safbwyntiau gweithwyr a deall perfformiad gan gynnwys cryfderau a gwendidau. Anfonwyd yr arolwg ar-lein at holl safleoedd ac amgueddfeydd Amgueddfa Cymru.

Mae Amgueddfa Cymru yn gorff aml-safle sy'n cynnwys y pencadlys yng Nghaerdydd, amgueddfeydd ar draws Cymru a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw:

- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd
- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe
- Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon
- Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
- Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion
- Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre

Mae Amgueddfa Cymru yn cyflogi dros 700 o bobl mewn amrywiaeth o rolau arbenigol ac sy'n ymdrin â chwsmeriaid, yn ogystal â rolau gwasanaethau cymorth proffesiynol. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr gweithredol sy'n arwain y corff, gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn darparu llywodraethiant.

Cwblhaodd Amgueddfa Cymru arolwg ar-lein IiP40 yn ystod mis Mehefin 2018 a hynny er mwyn deall safbwyntiau cydweithwyr ar draws y corff. Gwnaed gwaith cynghorol sylweddol hefyd, a chynhaliwyd gweithdai mewn amryw safleoedd i esbonio Fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl a thrafod y dull a ddefnyddir. Bydd yr arolwg hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio gweithgarwch gwella parhaus cyn cynnal asesiad 'Insights' ym mhob amgueddfa ar y cyd (yn hanesyddol, mae nifer o'r amgueddfeydd wedi cynnal asesiad ac achrediad IiP yn annibynnol).

Mae'r tabl isod yn dangos llinell amser cwblhau'r arolwg ar-lein:

| Dyddiad dechrau'r arolwg | Dyddiad cau'r arolwg | Dyddiad dadansoddi'r arolwg |
|---|---|---|
| 4 Mehefin 2018 | 29 Mehefin 2018 | 16 Gorffennaf 2018 |

Mae'r tabl isod yn dangos prif ystadegau'r asesiad ar-lein:


| Cyfanswm nifer y gweithwyr | Sampl yr arolwg ar-lein | Ymatebion a ddaeth i law | Cyfradd ymateb |
|---|---|---|---|
| 728 | 687 | 475 | 69% |

Er mwyn cadw a datblygu'r dystiolaeth o'r arolwg ar-lein hwn, rhaid cwblhau asesiad llawn o fewn 6 mis i ddyddiad yr arolwg ar-lein. Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r dyddiad cwblhau ar gyfer eich sefydliad.

| **Dyddiad cau'r arolwg ar-lein** | **Gellir cadw'r dystiolaeth tan (6 mis)** |
|---|---|
| 29 Mehefin 2018 | 29 Rhagfyr 2018 |

# Dadansoddiad

## Data'r gyfradd ymateb




**Mae'r gyfradd ymateb, sef 69%, yn uwch na chyfradd ymateb gyfartalog cyrff eraill yn y band cyflogwr hwn, sy'n ddangosydd da o ymgysylltiad cydweithwyr.**

Yn y dadansoddiad dangosyddion isod, ystyrir ateb yn gytundeb os nodir 'cytuno'n gryf' a 'cytuno'.

# Trosolwg o’r crynodeb

## Trosolwg o’r dangosyddion

| | Cytuno’n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf | Sgôr cyfartalog dangosydd | Diwydiant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DANGOSYDD 1 Arwain ac ysbrydoli pobl | 7.7% | 20.1% | 18.5% | 14.6% | 12.5% | 14.6% | 11.9% | 4 | -1.2 |
| DANGOSYDD 2 Byw’n unol â gwerthoedd ac ymddygiadau’r sefydliad | 10.8% | 30.5% | 20.9% | 20.5% | 7.1% | 6.8% | 3.5% | 4.8 | -0.8 |
| DANGOSYDD 3 Grymuso a chynnwys pobl | 14.4% | 34.9% | 20.3% | 6.8% | 8.3% | 8.3% | 7.1% | 4.9 | -0.7 |
| DANGOSYDD 4 Rheoli perfformiad | 22.1% | 34.7% | 13.8% | 9.6% | 4.4% | 8.2% | 7.2% | 5.1 | -0.4 |
| DANGOSYDD 5 Cydnabod a gwobrwyo perfformiad da | 8.6% | 20.7% | 19.5% | 14.2% | 10.1% | 13.4% | 13.5% | 4.1 | -0.7 |
| DANGOSYDD 6 Strwythuro gwaith | 21.2% | 39.1% | 16.3% | 10.7% | 4.5% | 4.9% | 3.4% | 5.3 | -0.3 |
| DANGOSYDD 7 Meithrin gallu | 10.4% | 27.1% | 20.9% | 17.1% | 8.5% | 8.3% | 7.8% | 4.6 | -0.6 |
| DANGOSYDD 8 Cyflawni gwelliant parhaus | 11.9% | 33.9% | 21.8% | 14.8% | 5.7% | 6.4% | 5.4% | 4.9 | -0.5 |
| DANGOSYDD 9 Creu llwyddiant cynaliadwy | 15.9% | 30.2% | 21.9% | 13.6% | 6.9% | 6.8% | 4.6% | 5 | -0.7 |

## Themâu (cryfderau a gwendidau)

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Sgôr cyfartalog dangosydd | Diwydiant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cryfderau** | | | | | | | | | |
| Galluogi cydweithio<br>DANGOSYDD 6: Strwythuro gwaith | 22.1% | 50.3% | 14.9% | 6.9% | 1.9% | 2.9% | 0.8% | 5.7 | +0.1 |
| Deall y cyd-destun allanol<br>DANGOSYDD 9: Creu llwyddiant cynaliadwy | 25.1% | 40.8% | 18.1% | 10.5% | 2.1% | 1.7% | 1.7% | 5.6 | -0.4 |
| Gwella trwy ffynonellau mewnol ac allanol<br>DANGOSYDD 8: Cyflawni gwelliant parhaus | 15.4% | 43.6% | 18.9% | 12.8% | 3.8% | 3.2% | 2.3% | 5.4 | -0.5 |
| Cynllunio rolau<br>DANGOSYDD 6: Strwythuro gwaith | 22.9% | 33.7% | 16.7% | 12.6% | 4.9% | 4.5% | 4.5% | 5.3 | -0.4 |
| Pennu amcanion<br>DANGOSYDD 4: Rheoli perfformiad | 25.5% | 39.4% | 9.5% | 7.8% | 2.9% | 8.4% | 6.5% | 5.3 | -0.3 |
| **Gwendidau** | | | | | | | | | |
| Cydnabod a gwobrwyo pobl<br>DANGOSYDD 5: Cydnabod a gwobrwyo perfformiad da | 7.5% | 23.7% | 19.4% | 14.0% | 10.3% | 12.9% | 12.2% | 4.2 | -0.4 |
| Y person cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir<br>DANGOSYDD 7: Meithrin gallu | 4.4% | 21.9% | 18.5% | 17.3% | 11.8% | 11.2% | 14.9% | 4 | -1.0 |
| Sicrhau tryloywder ac ymddiried<br>DANGOSYDD 1: Arwain ac ysbrydoli pobl | 4.8% | 19.8% | 20.8% | 12.7% | 14.9% | 15.9% | 10.9% | 4 | -1.5 |
| Llunio dull o gydnabod a gwobrwyo<br>DANGOSYDD 5: Cydnabod a gwobrwyo perfformiad da | 4.4% | 12.6% | 15.2% | 21.9% | 10.3% | 17.3% | 18.3% | 3.5 | -1.2 |
| Meithrin y gallu i arwain<br>DANGOSYDD 1: Arwain ac ysbrydoli pobl | 2.5% | 9.9% | 16.6% | 18.7% | 14.1% | 19.4% | 18.7% | 3.4 | -1.5 |

## Meincnod




MEINCNOD IIP Y SEFYDLIAD

- **610**

MEINCNOD CYFARTALOG IIP*

- **725**

MEINCNOD CYFARTALOG Y DIWYDIANT

- **691**

Yn dangos canlyniadau ar gyfer y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden


*Dyma feincnod cyfartalog IIP ar gyfer pob sefydliad sydd wedi cwlbhau’r holiadur

# Dangosydd 1: Arwain ac ysbrydoli pobl

## Dangosydd 1: Arwain ac ysbrydoli pobl

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Mae rheolwyr yn rhoi gwybod am uchelgais y sefydliad | 5.3% | 22.1% | 22.5% | 13.3% | 15.4% | 14.3% | 7.2% |
| Rwy'n ymddiried yn arweinwyr fy sefydliad | 4.4% | 17.5% | 19.2% | 12.2% | 14.5% | 17.5% | 14.7% |
| Mae fy rheolwr yn fy nghymell i wneud fy ngorau | 18.5% | 30.9% | 15.6% | 14.3% | 6.1% | 7.4% | 7.2% |
| Mae fy sefydliad yn datblygu arweinwyr gwych | 2.5% | 9.9% | 16.6% | 18.7% | 14.1% | 19.4% | 18.7% |
| **Cwestiynau dewisol** | | | | | | | |
| Rwy'n deall gweledigaeth ac amcanion fy sefydliad | 10.3% | 29.7% | 24.0% | 12.8% | 10.5% | 8.2% | 4.4% |

# Dangosydd 1: Arwain ac ysbrydoli pobl




# Dangosydd 2: Byw’n unol â gwerthoedd ac ymddygiadau’r sefydliad

## Dangosydd 2: Byw’n unol â gwerthoedd ac ymddygiadau’r sefydliad

| | Cytuno’n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Mae’r gwerthoedd yn fy sefydliad yn llywio y ffordd y gweithiwn | 5.3% | 25.5% | 22.5% | 23.4% | 8.6% | 9.3% | 5.5% |
| Rwyf yn rhannu gwerthoedd fy sefydliad | 14.5% | 36.0% | 18.5% | 18.5% | 6.5% | 4.2% | 1.7% |
| Mae gan fy sefydliad werthoedd clir | 7.4% | 27.8% | 25.9% | 11.6% | 10.7% | 10.5% | 6.1% |
| Rwy’n herio ymddygiad nad yw’n cyd-fynd â gwerthoedd y sefydliad | 7.8% | 24.0% | 22.9% | 27.6% | 7.6% | 7.4% | 2.7% |
| Mae fy ymddygiad yn adlewyrchu gwerthoedd y sefydliad | 18.9% | 39.2% | 14.5% | 21.3% | 2.1% | 2.5% | 1.5% |
| **Cwestiynau dewisol** | | | | | | | |
| Rwy’n deall gwerthoedd fy sefydliad | 8.6% | 34.3% | 24.0% | 12.6% | 7.8% | 6.9% | 5.7% |

# Dangosydd 2: Byw’n unol â gwerthoedd ac ymddygiadau’r sefydliad




# Dangosydd 3: Grymuso a chynnwys pobl

## Dangosydd 3: Grymuso a chynnwys pobl

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Mae gen i'r holl wybodaeth sydd ei angen arnaf i wneud fy swydd yn dda | 10.5% | 33.7% | 21.9% | 6.5% | 10.1% | 10.7% | 6.5% |
| Caf fy annog i ddefnyddio fy nghrebwyll yn fy rôl | 18.7% | 39.6% | 17.1% | 5.7% | 7.2% | 6.1% | 5.7% |
| Caf leisio barn am benderfyniadau sy'n effeithio ar fy rôl | 9.7% | 24.4% | 25.7% | 8.6% | 10.5% | 11.2% | 9.9% |
| Ymddiriedir ynof i wneud penderfyniadau yn fy rôl | 18.5% | 41.9% | 16.4% | 6.3% | 5.5% | 5.1% | 6.3% |
| **Cwestiynau dewisol** | | | | | | | |
| Rwy'n deall sut mae fy rôl yn cyfrannu at y sefydliad | 25.7% | 45.7% | 15.6% | 6.1% | 2.5% | 2.3% | 2.1% |

# Dangosydd 3: Grymuso a chynnwys pobl




# Dangosydd 4: Rheoli perfformiad

## Dangosydd 4: Rheoli perfformiad

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Rwyf wedi trafod fy mherfformiad gyda'm rheolwr yn ystod y 6 mis diwethaf | 26.5% | 38.1% | 7.8% | 7.8% | 3.4% | 10.1% | 6.3% |
| Rwyf wedi cytuno ar fy amcanion gyda'm rheolwr llinell yn ystod y 12 mis diwethaf | 25.5% | 39.4% | 9.5% | 7.8% | 2.9% | 8.4% | 6.5% |
| Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy annog i berfformio hyd eithaf fy ngallu | 18.5% | 32.2% | 18.7% | 10.3% | 5.9% | 8.0% | 6.3% |
| Mae fy rheolwr yn fy helpu i wella fy mherfformiad | 17.9% | 29.3% | 19.2% | 12.6% | 5.5% | 6.1% | 9.5% |
| **Cwestiynau dewisol** | | | | | | | |
| Yn fy sefydliad, mae rheolwyr yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael | 4.0% | 17.3% | 17.1% | 16.8% | 11.6% | 16.6% | 16.6% |
| Mae fy rheolwr yn rhoi adborth i mi | 17.1% | 35.2% | 20.8% | 7.2% | 5.7% | 7.6% | 6.5% |

# Dangosydd 4: Rheoli perfformiad




# Dangosydd 5:  Cydnabod a gwobrwyo perfformiad da

## Dangosydd 5: Cydnabod a gwobrwyo perfformiad da

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Caf gydnabyddiaeth addas am y gwaith a wnaf | 7.6% | 25.5% | 18.3% | 12.4% | 11.6% | 13.1% | 11.6% |
| Teimlaf i mi gael fy ngwerthfawrogi am y gwaith a wnaf | 15.2% | 22.9% | 24.2% | 6.7% | 9.3% | 10.3% | 11.4% |
| Caf fy nghydnabod yn gyson pan fyddaf yn rhagori ar y disgwyliadau | 7.4% | 21.9% | 20.4% | 15.6% | 9.1% | 12.8% | 12.8% |
| Caf fy ngwobrwyo mewn ffyrdd sy'n cydfynd â'm cymhelliant | 4.4% | 12.6% | 15.2% | 21.9% | 10.3% | 17.3% | 18.3% |

# Dangosydd 5: Cydnabod a gwobrwyo perfformiad da




# Dangosydd 6:  Strwythuro gwaith

## Dangosydd 6: Strwythuro gwaith

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Mae fy ngwaith yn ddiddorol | 36.4% | 37.1% | 12.2% | 8.0% | 2.9% | 1.3% | 2.1% |
| Rwy'n gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnaf i symud ymlaen | 9.5% | 30.3% | 21.3% | 17.3% | 6.9% | 7.8% | 6.9% |
| Mae'r lefel iawn o gyfrifoldeb gennyf i wneud fy swydd yn effeithiol | 16.8% | 38.7% | 16.6% | 10.5% | 6.1% | 7.6% | 3.6% |
| Mae fy rôl yn fy ngalluogi i weithio'n dda gydag eraill | 22.1% | 50.3% | 14.9% | 6.9% | 1.9% | 2.9% | 0.8% |

# Dangosydd 6: Strwythuro gwaith




# Dangosydd 7:  Meithrin gallu

## Dangosydd 7: Meithrin gallu

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Rwy’n gwybod sut mae fy sefydliad yn buddsoddi mewn dysgu a datblygiad | 6.7% | 21.7% | 23.4% | 17.1% | 12.4% | 10.7% | 8.0% |
| Mae gennyf gyfleoedd i ddysgu yn y gwaith | 13.1% | 29.7% | 25.5% | 13.7% | 6.5% | 6.1% | 5.5% |
| Rwy’n defnyddio’r cyfleoedd dysgu a datblygu a gynigir gan fy sefydliad | 10.9% | 28.4% | 18.7% | 21.5% | 7.4% | 8.0% | 5.1% |
| Mae fy rheolwr yn credu ei fod yn bwysig i mi ddatblygu fy sgiliau | 16.8% | 33.7% | 18.3% | 16.0% | 4.2% | 5.5% | 5.5% |
| Caiff pobl eu dewis ar gyfer rolau ar sail eu sgiliau a'u gallu | 4.4% | 21.9% | 18.5% | 17.3% | 11.8% | 11.2% | 14.9% |

# Dangosydd 7: Meithrin gallu




# Dangosydd 8: Cyflawni gwelliant parhaus

## Dangosydd 8: Cyflawni gwelliant parhaus

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Rwy'n chwilio am syniadau ar wella gan fy nghyd-weithwyr | 15.4% | 43.6% | 18.9% | 12.8% | 3.8% | 3.2% | 2.3% |
| Rwy'n gyfrifol am wella'r modd y gwnawn bethau | 11.2% | 25.1% | 25.1% | 17.7% | 5.5% | 8.8% | 6.7% |
| Caf fy annog i wella'r ffordd y gwnaf bethau | 8.4% | 33.9% | 22.9% | 16.8% | 5.1% | 7.2% | 5.7% |
| Ymddiriedir ynof i roi cynnig ar ddulliau newydd o weithio | 12.8% | 33.1% | 20.2% | 12.0% | 8.6% | 6.5% | 6.7% |
| **Cwestiynau dewisol** | | | | | | | |
| Nid wyf yn cael fy meio os byddaf yn gwneud camgymeriad gonest | 13.3% | 36.6% | 17.5% | 16.8% | 4.6% | 6.9% | 4.2% |
| Mae fy rheolwr yn fy annog i ddod o hyd i syniadau newydd | 14.9% | 31.4% | 21.5% | 10.7% | 6.1% | 8.2% | 7.2% |

# Dangosydd 8: Cyflawni gwelliant parhaus




# Dangosydd 9: Creu llwyddiant cynaliadwy

## Dangosydd 9: Creu llwyddiant cynaliadwy

| | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Cytuno Rhywfaint | Ddim yn Cytuno nag Anghytuno | Anghytuno Rhywfaint | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau sylfaen** | | | | | | | |
| Mae fy sefydliad yn lle gwych i weithio | 21.9% | 33.7% | 19.4% | 9.1% | 4.8% | 6.5% | 4.6% |
| Mae gan fy sefydliad gynllun ar gyfer y dyfodol | 9.5% | 26.5% | 27.2% | 18.3% | 6.3% | 8.0% | 4.2% |
| Mae fy sefydliad yn croesawu newid | 7.2% | 19.8% | 22.9% | 16.6% | 14.5% | 10.9% | 8.0% |
| Mae gan fy sefydliad effaith gadarnhaol ar gymdeithas | 25.1% | 40.8% | 18.1% | 10.5% | 2.1% | 1.7% | 1.7% |

# Dangosydd 9: Creu llwyddiant cynaliadwy



O ystyried y grwpiau a ddewiswyd, nid oes anghydweld mawr yn y safbwynt positif rhwng y grwpiau. Yn yr un modd, nid oes un grŵp sy'n cofnodi'r safbwynt positif isaf nac uchaf yn gyson ar draws y 9 dangosydd.

O ystyried y safbwynt positif a nodwyd ('cytuno'n gryf' a 'cytuno'), y dangosyddion canlynol sy'n derbyn y lefelau isaf ac uchaf o safbwynt positif:

- Uchaf = dangosydd 6, strwythuro gwaith (safbwynt positif o 60.3%)
- 2[il] uchaf = dangosydd 4, rheoli perfformiad (safbwynt positif o 56.8%)
- 3[ydd] uchaf = dangosydd 8, cyflawni gwelliant parhaus (safbwynt positif o 54.8%)

- Isaf = dangosydd 1, arwain ac ysbrydoli pobl (safbwynt positif o 27.8%)
- 2[il] isaf = dangosydd 5, cydnabod a gwobrwyo perfformiad da (safbwynt positif o 29.3%)
- 3[ydd] isaf = dangosydd 7, meithrin gallu (safbwynt positif o 37.5%)

Dyma sgôr y 3 dangosydd sy'n weddill:

- Dangosydd 3, grymuso a chynnwys pobl (safbwynt positif o 50.3%)
- Dangosydd 9, creu llwyddiant cynaliadwy (safbwynt positif o 46.1%)
- Dangosydd 2, byw'n unol â gwerthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad (safbwynt positif o 41.3%)

O ystyried y themâu o fewn pob dangosydd, dylai'r themâu a sgoriodd isaf (gweler y graffigyn ar dudalen 7) fod yn sail i ffocws y gwelliant parhaus:

- Datblygu'r gallu i arwain (dangosydd 1)
- Sicrhau tryloywedd ac ymddiried (dangosydd 1)
- Llunio dull i gydnabod a gwobrwyo llwyddiant (dangosydd 5)
- Cydnabod a gwobrwyo pobl (dangosydd 5)
- Sicrhau fod y person cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir (dangosydd 7)

Ar nodyn mwy positif, sgoriodd y datganiad 'mae fy sefydliad yn lle gwych i weithio' safbwynt positif o 55.6%.

## Argymhellion a chamau nesaf

Gall Amgueddfa Cymru fod yn falch o gyfradd ymateb arolwg ar-lein IiP40, gan fod y gyfradd uwch na'r cyfartaledd yn awgrymu ymgysylltiad gan gydweithwyr sydd wedi rhoi o'u hamser i nodi'u hymatebion.

Data meintiol yn unig a ddarperir trwy'r arolwg ar-lein a all gynorthwyo'r Ymarferydd i ddod i gasgliad am y tebygolrwydd o gyrraedd y Safon adeg yr asesiad llawn. Mae'r cyfweliadau, grwpiau ffocws, arsylwadau a'r ymarfer pen desg yn allweddol er mwyn cadarnhau lefel y dyfarniad felly nid yw'r adroddiad hwn yn gwarantu y cyrhaeddir lefel dyfarniad penodol. Felly, baromedr yn unig yw'r erfyn diagnostig hwn i roi gwybodaeth i gorff am waith paratoi sydd angen ei wneud.

Mae'r ymarferiad IiP40 hwn wedi tynnu sylw at rai meysydd datblygu y dylai Amgueddfa Cymru eu cwblhau cyn cynnal yr asesiad.

Yn amlwg, data meintiol sydd yma a gellid cael darlun lawn a thrafodaeth trwy gynnal asesiad 'Insights'. Gellid gwella ar hyn trwy gymharu â'r data gwaelodlin yma.

Fel y nodwyd eisoes, dylai'r themâu a sgoriodd isaf (gweler y graffigyn ar dudalen 7) fod yn sail i ffocws y gwelliant parhaus:

- Datblygu'r gallu i arwain (dangosydd 1) – dylid ystyried sut y gall pawb yn Amgueddfa Cymru (gan gynnwys arweinwyr ar bob lefel ym mhob rhan o'r corff) fod yn glir am eu disgwyliadau o'u harweinwyr ac y rhoddir canllawiau clir a chefnogaeth i arweinwyr ddiwallu eu rolau.
- Sicrhau tryloywedd ac ymddiried (dangosydd 1) - gellid ystyried lefelau uwch o ymgysylltu a chyfathrebu, ar draws holl leoliadau daearyddol Amgueddfa Cymru. Dylai pob arweinydd sicrhau ei fod yn arddangos yr ymddygiadau a ddisgwylir ar bob adeg yn esiampl i eraill.
- Llunio dull i gydnabod a gwobrwyo llwyddiant (dangosydd 5) a chydnabod a gwobrwyo pobl (dangosydd 5) – yn amlwg, mae cyfyngiadau ariannol ar gorff dan nawdd cyhoeddus ond gellid ystyried sut i wella cydnabyddiaeth nad yw'n ariannol. Trwy ymgynghori â chydweithwyr, mae'n bosibl y daw syniadau newydd i'r fei ym maes cydnabyddiaeth e.e. mae rhai cyrff bellach yn cynnig y dewis i weithwyr gymryd rhagor o wyliau yn lle cyflog.
- Sicrhau fod y person cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir (dangosydd 7) – mae'r arolwg yn awgrymu canfyddiad nad yw recriwtio yn dryloyw; gellid ystyried sut y gall mewnbwn ehangach gan randdeiliaid gyfrannu at weithgarwch recriwtio.

Dull o gasglu adborth gan bob gweithiwr cyn rhoi cynllun gweithredu ar waith yw arolwg ar-lein IiP40. Dylai cynnwys pawb yn y gweithredu arwain at lefel uwch o ymgysylltiad.

**Cysylltwch â ni:**

Ffoniwch ni ar 0300 303 3033 heddiw

Dilynwch ni ar Twitter: @IIP

Ewch i'r wefan: www.investorsinpeople.com

Investors in People Community Interest Company (a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif cwmni cofrestredig 10420361) yw perchennog brand, nodyn masnach, methodoleg ac asedau Buddsoddwyr mewn Pobl.

© 2017 Diogelir cynnwys y cynnig hwn, enw, dyluniadau, marc a logo Buddsoddwyr mewn Pobl dan gyfraith hawlfraint a chyfraith hawlfraint ryngwladol. Am ragor o wybodaeth neu i adrodd am enghraifft posibl o dorri'r gyfraith, cysylltwch â info@investorsinpoeple.com. Ni chaniateir atgynhyrchu, gwerthu neu gopïo unrhwy ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd deiliad yr hawlfraint.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon